

Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 9fed Mawrth, 2021
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIUYD AR 16 CHWFROR 2021			3 - 14
6	TROGLWYDDIAD LES A RHEOLAETH O SAFLE COED HELEN, CAERNARFON	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	15 - 18
7	ADRODDIAD CYNNYDD PANEL STRATEGOL DIOGELU 2018-2020	Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	19 - 34
8	YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR Y PAPUR GWYN: AIL-GYDBWYSO GOFAL A CYMORTH	Cyng. Dafydd Meurig a'r Cyng. Dilwyn Morgan	Morwena Edwards	35 - 88
9	FFIOEDD PRESWYL A NYRSIO 2021-22	Cyng. Dafydd Meurig	Rhion Glyn	89 - 95
10	EFFAITH COVID-19 AR GYLLIDEB 2021/22 CWMNI BYW'N IACH	Cyng. Ioan Thomas & Cyng. Gareth Thomas	Dafydd Edwards	96 - 98

Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 CHWEFROR 2021

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6 a 7: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd)

Eitem 8: Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

Eitem 9: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes)

Eitem 10 ac 11: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

Eitem 12: Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Gyllid – Refeniw a Risg)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Dyfrig Siencyn ar gyfer eitem 12 gan fod aelod o'r teulu agos yn berchen ail gartref neu eiddo gwag.

3. MATERION BRYG

Nid oedd unrhyw faterion bryg.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2021

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021 fel rhai cywir.

6. CYNLLUN BRYN AR GYFER BYSIAU (BES)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

PENDERFYNIAD

Cytunwyd fod y Cyngor yn ymuno a Chynllun BES2 yn unol â'r adroddiad.

Dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth Amgylchedd mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno a chwblhau Cytundeb Partneriaeth Rhanbarthol Gwirfoddol ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith yn y Gogledd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad sef fod y Cyngor yn ymuno a Chynllun BES2 Llywodraeth Cymru yn unol â'r adroddiad.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Amgylchedd fod dau gynllun wedi bod cyn y cynllun hwn yn cefnogi cludiant cyhoeddus drwy sicrhau cefnogaeth ariannol ddigonol drwy'r cyfnod argyfwng. Amlygwyd fod y cynllun yn bartneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a gweithredwyr. Nodwyd fod y cynllun yn sicrhau fod cefnogaeth ariannol ddigonol a'r gweithredwyr ac amlygwyd yr amcanion oedd i'w gweld yn yr adroddiad. Pwysleisiwyd ei fod yn gynllun dros dro a fydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022 a'i fod yn rhoi mwy o reolaeth i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru o ran blaenoriaethu gwasanaethau ac i ddylanwadu ar bris tocynnau. Amlygwyd fod y cynllun yn bellgyrhaeddol.

Mynegwyd ei bod yn gyfnod o lawer o newid gyda'r ail ddylunio ar draws y wlad ac amlygwyd pwysigrwydd i fod yn rhan o'r cynllun er mwyn dylanwadu i sicrhau gwasanaethau penodol yn y gwasanaethau gwledig sydd i'w gweld dros y sir a fydd i'w weld yn fwy o sialens yng Ngwynedd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os oedd ymrwymo i'r cynllun dros dro yn ymrwymo'r Cyngor i'r cynllun ymhellach. Nodwyd fod nifer o ffrydiau gwaith ac y buasai ymuno yn sicrhau fod ffrydiau yn symud yn ei blaen, gan amlygu fod cyd gyswllt a dim ond drwy ymrwymo y bydd modd dylanwadu.
- Mynegwyd fod yr argymhelliad yn nodi ymuno er mwyn dylanwadu, holwyd beth oedd yr oblygiadau am beidio ymuno. Mynegwyd nad oedd yn cwbl amlwg ar hyn o bryd ond nodwyd mai'r cwmnïau fuasai ar ardrawiad mwyaf ond pwysleisiwyd yr angen i gael dylanwadu.
- Nodwyd fod rôl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prif ffrydiau ond amlygwyd yr angen am y rôl yn lleol i edrych ar ôl trigolion Gwynedd. Ymhelaethwyd yn ogystal fod llawer o arbenigedd yn lleol. Mynegwyd ei bod yn galonogol fod gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn y gwaith a wnaed gennym ar werth cymdeithasol wrth flaenoriaethu cludiant. Esboniwyd yr angen am fwy o reolaeth ac yr arbenigedd lleol.
- Amlygwyd rhai pryderon am roi mwy o rym i Trafnidiaeth Cymru ym maes bysus ac y gallai hynny fod yn llesteirio democratiaeth lleol unwaith eto os

nad oeddem yn ofalus..

- Pwysleisiwyd fod yr Aelod Cabinet yn rhan o Is Grŵp Drafnidiaeth Gogledd Cymru a bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn brysur ofnadwy yn y maes. Mynegwyd er bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i hyn gael ei weld dros Gymru gyfan ond nid oes capasiti ganddynt i edrych ar Gymru gyfan ac felly mae disgwyliad am gefnogaeth yn lleol.

7. ADOLYGIAD PARCIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith.

PENDERFYNIAD

- Mabwysiadwyd yr addasiadau i'r Strategaeth Barcio drwy newid trefniadau rheoli parcio a gweithredu'r strwythur ffioedd parcio yng Ngwynedd fel bod modd ei weithredu o'r 1 Ebrill 2021. Cytunwyd addasiad hwyr ychwanegol i'r adroddiad, yn cysoni oriau gorfodi Meysydd Parcio Band 1 i fod yn weithredol rhwng yr oriau 10am a 4:30pm, ac i gadw'r lefel incwm dan adolygiad yn ystod 2021/22, gyda golwg ar gynorthwyo'r Adran Amgylchedd pe bai'r gwir incwm o ffioedd parcio yn is na'r targed yn y gyllideb oherwydd yr addasiad hwyr yma.
- Awdurdodwyd y Pennaeth Amgylchedd i gymryd y camau statudol angenrheidiol i roi'r gyfundrefn ffioedd diwygiedig ar waith erbyn 1 Ebrill 2021.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn eitem sydd wedi cael ei drafod ers amser ond o ganlyniad i'r pandemig ei fod wedi ei ddal yn ôl. Mynegwyd nad yw polisiâu Cyngor heb newid ers rhai blynyddoedd a bod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi gwneud penderfyniad i greu tasglu i edrych ar drefniadau'r sir. Amlygwyd mai ffrwyth gwaith y tasglu hwn yw'r adroddiad.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Amgylchedd fod y strategaeth bresennol wedi ei fabwysiaadau yn ôl yn 2015. Esboniwyd fod nifer o bethau newid ers hynny megis cynnydd mewn cerbydau trydan, llai o ddefnydd o arian parod ynghyd a chynnydd mewn nifer ddigwyddiadau awyr agored. Tynnwyd sylw yn ogystal at y cynnydd a welwyd yn ystod yr haf y llynedd mewn nifer o "motor homes". Pwysleisiwyd fod y rhain wedi amlygu mwy o heriau o ran parcio.

Mynegwyd fod y Cabinet a'r Cyngor Llawn wedi cytuno i gynyddu incwm yn maes fel rhan o'r cynllun arbedion. Amlygwyd gyda chynnydd mewn chwyddiant ynghyd a'r targed arbedion y bydd angen cynnydd incwm o tua £400k. Esboniwyd mai briff grŵp tasg oedd ceisio cyfarch y cynnydd mewn incwm ond cadw'r effaith ar drigolion lleol i isafswm. Pwysleisiwyd fod y gwaith a wnaethpwyd gan y Grŵp Tasg wedi bod yn hynod drylwyr.

Amlygwyd fod y grŵp tasg wedi amlygu fod y drefn bandio meysydd parcio yn rhy gymhleth a'i fod wedi ei symleiddio o fod yn 5 band i 3. Nodwyd y buasai'r grŵp

tasg wedi gallu codi pris 10% ar draws yr holl leoliad ond fod y grŵp tasg wedi penderfynu edrych ar y maes yn wahanol ac amlinellwyd y prif newidiadau. Nodwyd yr angen i sicrhau fod pris parcio arhosiad byr yn y prif ganolfannau yn aros yr un fath, ond fod yr oriau rheolaeth yn cael ei addasu ym Mangor i 9am tan 5pm. Mynegwyd fod pris arhosiad hir yn cael ei gynyddu yn benodol mewn ffioedd meysydd parcio yn band 2 a bod cynnydd mewn tocynnau tymor yn cydfynd gyda chwyddiant.

Amlygwyd yr opsiynau am barcio dros gyfnod y Nadolig ac yr awydd i gadw trefniadau parcio am ddim er mwyn cefnogi busnesau. Nodwyd y bu ystyriaeth i breswylwyr ac unigolion a Thocyn Parcio Glas a bod penderfyniad i'w gadw fel ac y mae ar hyn o bryd. Mynegwyd fod cyfnod yr haf y llynedd wedi amlygu'r angen i gynyddu adnoddau gorfodaeth parcio ac i gryfhau'r tîm. Nodwyd fod y newidiadau hyn nid yn unig yn cynyddu incwm ond i adnabod y newidiadau sydd wedi amlygu dros 6 mlynedd a drwy wneud yr addasiadau yn diwallu anghenion trigolion ac ymwelwyr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd pwysigrwydd i gael y Pwyllgor Craffu yn rhan o greu'r penderfyniad ac edrych ar yr effaith ar yr economi yn lleol.
- Nodwyd diolch am waith y grŵp tasg ond nodwyd o ran newidiadau i Band 1 efallai y bydd budd lleol o'r gadw 10am – 4:30pm ac y bydd ei gadw fel ac y mai yn cael ei werthfawrogi gan y trigolion.
- O ran 'Motor Homes' holwyd sut oedd am reoli ac os oes ystyriaeth wedi ei wneud i greu safleoedd penodol, ac pe bai modd creu incwm drwy wneud hyn. Mynegwyd fod llawer o ystyriaethau ac angen edrych ar drefniadau hir dymor. Amlygwyd dros yr haf fod nifer o gerbydau wedi parcio mewn meysydd parcio dros nos sydd wedi creu llawer o broblemau. Nodwyd angen i ymchwilio i mewn i'r maes ac i ddod i ganlyniad sut i'w reoli yn gyfrifol.
- Diolchwyd am y gwaith ac yr ymgais i'w symleiddio gan yr aelodau craffu. Mynegwyd pryder am y cynnydd yn Band 2 a 3 ac yr effaith y gellir bod ar fusnesau. Yn ogystal nodwyd o ran parcio trigolion fod efallai angen ail edrych ar ba rannau o'r sir sydd yn rhan o'r cynllun.
- Amlygwyd pryder am godi cost tocyn tymor £15 gan ei fod am daro trigolion, a holwyd os oes modd defnyddio'r incwm i ail fuddsoddi yn y meysydd parcio. Nodwyd fod gan yr adran gyllideb ar gyfer buddsoddi yn y meysydd parcio a bod rhai Cynghorau Tref a Chymuned wedi bod yn rhan o'r cynllun 10% ble maent yn codi 10% yn uwch mewn rhai meysydd parcio ac yn derbyn y canran i ail-fuddsoddi yn eu cymunedau.
- Cytunwyd i addasiad hwyr ychwanegol i'r adroddiad, yn cysoni oriau gorfodi Meysydd Parcio Band 1 i fod yn weithredol rhwng yr oriau 10am a 4:30pm, ac i gadw'r lefel incwm dan adolygiad yn ystod 2021/22, gyda golwg ar gynorthwyo'r Adran Amgylchedd pe bai'r gwir incwm o ffioedd parcio yn is na'r targed yn y gyllideb o ganlyniad i'r addasiad.

8. CYNLLUN PRYNU TAI I'W GOSOD I DRIGOLION GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr achos busnes dros fuddsoddi £15.4m i brynu oddeutu 100 o dai i'w gosod i drigolion Gwynedd ar rent fforddiadwy gyda phob pryniant i ddangos ei hyfywdra ariannol ei hun ar sail achos wrth achos.

Cytunwyd fod y Pennaeth Tai ac Eiddo mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r trefniadau statudol ar gyfer gweithredu'r Cynllun yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Diwygiedig ar Gyfrif Refeniw Tai gan y Llywodraeth ac adrodd yn ôl i'r Cabinet petai angen penderfyniadau ychwanegol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Gwynedd yng nghanol argyfwng tai ar hyn o bryd. Mynegwyd fod y Cyngor wedi bod yn ceisio trio codi ymwybyddiaeth am y broblem a gofyn i'r ddwy Lywodraeth weithredu. Nodwyd fod yr adran yn ymgeisio i ddod o hyd i atebion o fewn eu gallu ac i weithredu. Amlygwyd fod y cynllun hwn yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai a'i fod yn enghraifft o beth mae'r adran yn ceisio ei wneud i gynorthwyo trigolion. Mynegwyd pleser o gyflwyno'r cynllun gan ei fod yn bositif ac arloesol ac yn dod o hyd i ffyrdd i gartrefu trigolion.

Ychwanegodd y Pennaeth Tai ac Eiddo fod y cynllun yn rhan o Gynllun Gweithredu Tai. Amlygwyd pwrpas y cynllun o brynu cant o dai i'w uwchraddio a'i gosod i'w trigolion. Nodwyd fod y buddsoddiad i'r Cynllun Gweithredu Tai oddeutu £77m a nodwyd y cyfuniad o ffynonellau ariannu. Mynegwyd fod y Cabinet wedi amlygu eu huchelgais ar gyfer y cynllun drwy nodi eu hawydd i gynllun benthyca ar gyfer y cynllun hwn yn unol â chynllun busnes cadarn. Nodwyd fod yr adroddiad yn nodi'r costau a'i ddull ariannu ac yn dangos ei fod yn gynllun hyfyw. Esboniwyd fod risgiau yn cael eu hamlygu ond y bydd achos busnes i bob pryniant unigol yn lleihau'r risgiau, ac os bydd risgiau yn rhy uchel ni fydd y pryniant unigol yn cael ei wneud.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a amlygwyd balchder o droi'r cloc yn ôl a'r Cyngor yn buddsoddi unwaith eto ar dai i bobl Gwynedd. Holwyd os oes gwahaniaeth rhwng tai ar y farchnad agored a cyn dai cymdeithasol. Mynegwyd ei bod yn anodd prynu cyn dai cymdeithasol ac felly angen bod yn weithredol i gael tai cymdeithasol yn ôl o fewn y Cyngor.
- Croesawyd y cynllun gan holi os y bydd modd teilwra y cynllun ar gyfer teuluoedd penodol . Nodwyd fod angen am dai rhent o fewn y sir ac fod angen rhoi amrediad o dai gyfarch rhai sydd angen cymorth ond bydd yn rhaiod blaenoriaethu yn amlwg.
- Holwyd os y bydd y cynllun yn llwyddiant os y bydd modd ehangu a prynu mwy na 100 o dai. Mynegwyd fod modd ehangu y cynllun os yn gweithio yn rhwydd ac y byddant yn dod yn ôl at y Cabinet i nodi os bydd achos dros newid i nifer y tai.

- Pwysleisiwyd fod elfen o risg i'r cynllun, ond ar hyn o bryd fod y Cyngor yn cymryd gogwydd mentrus i greu cyfle i bobl Gwynedd. Pwysleisiwyd y buasai modd menthyg mwy o arian os yn gweithio, ac i ail ymweld os yw'n llwyddiant ond byddai angen profi hynny dros gyfnod estynedig.

9. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23 – ADOLYGIAD 2021/22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 Adolygiad 2021/22 yn amodol ar addasiadau i eiriad Blaenoriaeth 4 a Blaenoriaeth 7, ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu yng Nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y cynllun yn cael ei gyflwyno yn nodi gwaith y Cyngor dros y flwyddyn diwethaf. Nodwyd fod sesiynau wedi ei cynnal gyda'r holl aelodau sydd wedi dangos cefnogaeth i'r blaenoriaethau gwella. Mynegwyd fod y sesiynau gyda'r holl aelodau wedi amlygu fod edrychiad cymunedau yn holl bwysig eleni i drigolion.

Pwysleisiwyd fod elfennau positif wedi codi o ganlyniad i covid-19 sef awydd trigolion i gynorthwyo eu gilydd ac i wirfoddoli. Nodwyd angen gan aelodau i gadw'r momentwm o gynorthwyo a gwirfoddol i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Pwysleisiwyd fod edrych ar eich milltir sgwâr yn hynod bwysig ac fod y cynllun Cymunedau Glan a Thaclus yn un o flaenoriaethau yr adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol. Nodwyd gobeithio y bydd y cynllun yn cyfarch anghenion yr aelodau ac yn gweithio gyda'r cymunedau.
- Amlygwyd o ran blaenoriaeth 4.5 Busnesau yn Ffynnu fod problemau erchyll yn codi ond nid o ganlyniad i Covid-19 yn unig ond am y modd y mae'r Llywodraeth yn delio gyda Brexit yn ogystal.
- Nodwyd fod y sesiynau gyda'r aelodau wedi bod yn galonogol, gyda materion a godwyd yn cael ei gweld o fewn cynlluniau megis Cynllun Adfywio Ardal.
- Tynnwyd sylw at addasiadau i'w nodi yn blaenoriaeth 4.4 Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes er mwyn ychwanegu geiriad yn ymwneud a'r gwaith cynllunio sydd yn digwydd yn y maes. Yn ogystal Blaenoriaeth 7.4 – Cyflawni Arbedion er mwyn amlygu fod y rhaglen arbedion wedi'i adolygu a'r angen i gyflawni'r trefn ddiwygiedig.

10. STRATEGAETH GYFALAF Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i:

- ariannu'r bwloch cyllido ar gyfer Canolfan Dolfeurig (£600,000)
- ariannu'r bwloch cyllido ar gyfer safle cyn Dŷ'r Ysgol, Llanrug (£150,000), gan ad-ennill rhan helaeth o'r buddsoddiad gwreiddiol drwy werthu'r tŷ a rhan o'r tir ar gyfer gwireddu cynlluniau tai fforddiadwy i drigolion lleol a gwneud gwelliannau i'r ysgol gynradd
- ddarparu £2m pellach er mwyn cychwyn ar y gwaith o adeiladu unedau diwydiannol yn y sir
- aros i weld beth fydd canlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am y Prom Abermaw cyn ystyried unrhyw ddyraniadau pellach yn y Cynllun Asedau.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bu i'r Cyngor llawn fabwysiadu Cynllun Asedau ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd yn ôl ym Mawrth 2019. Amlygwyd fod y cynllun yn rhagdybio'r adnoddau y buasai gan y Cyngor ar gyfer y 10 mlynedd ac yn blaenoriaethu'r holl gynlluniau a gyflwynwyd gan yr Adrannau. Pwysleisiwyd fod y Cynllun yn un byw a hyblyg ac bod y sefyllfa adnoddau wedi newid rhyw ychydig ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo.

Mynegwyd pan y bu i'r Cynllun gael ei baratoi roedd ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd y byddai yna gynlluniau ychwanegol yn dod i'r amlwg a cytunwyd i roi £0.5m y flwyddyn o'r neilltu er mwyn cyfarch y gofynion ar gyfer cynlluniau bychan yn bennaf. Ategwyd fod cynlluniau sylweddol angen ystyriaeth ar gyfer 2021/22. Tynnwyd sylw at Ganolfan Dolfeurig yn Nolgellau gan esbonio pan ystyriwyd y cynllun yn gyntaf gofynnwyd am £1.2m, ond yn dilyn gwneud gwaith pellach fod y costau yn nes at £1.8m.

Amlygwyd y galw am unedau diwydiannol ar draws sir dros y blynyddoedd diwethaf, ac er fod y Cynllun Twf Gogledd Cymru yn sicrhau safleoedd strategol nodwyd yr angen am unedau llai i gyfarch y galw yn lleol. Ar sail fod uned yn costio oddeutu £200,000 yr un heb gost am dir, gofynnwyd am gefnogaeth y Cabinet i ychwanegu arian i'w sicrhau.

Mynegwyd yn wreiddiol fod y Cyngor wedi rhagweld y buasai angen gwario £1.6m ar adfer promenâd yn Abermaw yn dilyn difrod. Ychwanegwyd yn dilyn gwneud gwaith llawer mwy manwl amlygwyd fod y gost o adfer yn debygol o fod rhwng £16m a 22.5m, a olygai y bydd angen i'r Cyngor ddarganfod £3.75m fel cyfraniad er mwyn cyflawni'r gwaith.

Bu i'r Cabinet yn Hydref 2017 gytuno i brynu darn o dir ger ysgol gynradd Llanrug rhag ofn y byddai ei angen at ddibenion addysgol i'r dyfodol. Nodwyd erbyn hyn mai dim ond elfen o'r tir fyddai ei angen a byddai modd ad-ennill elfen o'r gost drwy werthu'r tir a darnau o'r tir ar gyfer tai fforddiadwy ond amlygwyd y byddai bwloch tebygol angen ei ariannu.

Esboniwyd ers cymeradwyo'r cynllun fod y Cyngor wedi derbyn amrywiol grantiau fel bod modd eu defnyddio yn hytrach na' defnyddio adnoddau o'r Cynllun Asedau, ac ynghyd a setliad cyfalaf uwch na'r hyn y rhagdybiwyd mae

dros £5.5m ar gael i'r Cabinet i ystyried sut i'w ddefnyddio.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Rhoddwyd cefnogaeth i Ganolfan Dolfeurig, gan fod wir angen adeilad newydd ac yn ased wych ar gyfer de y sir.
- Nodwyd cefnogaeth i adeiladau diwydiannol gan fod angen cefnogaeth benodol ar gyfer busnesau bach.
- Mynegwyd o ran Prom Abermaw yn dilyn gwaith pellach fod wir angen gwneud y gwaith sicrhau fod y cyngor yn cadw y trigolion yn saff, ond amlygwyd y pwysau ychwanegol sydd ar gynghorau arfordirol i ariannu y gwaith o'r math hwn.

11. CYLLIDEB 2021/22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i argymhell i'r Cyngor Llawn ar y 4 Mawrth y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £271,751,360 ar gyfer 2021/22 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £194,793,140 a £76,958,220 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.7%.
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £47,085,960 yn 2021/22 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

Nodwyd byddai'r ffigyrau yn argymhelliad 1 uchod yn newid yn unol â'r ffigyrau yn Atodiad 6 o'r adroddiad pe bai'r Cyngor llawn yn cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor o 50% i 100%.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor eleni wedi derbyn cynnydd grant sydd yn cyfarch chwyddiant ac yn setliad mwy teg na fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21. Er hyn, mynegwyd gan fod angen ariannu cynnydd anorfod mewn cost gwasanaethu craidd, rhaid codi'r Dreth 3.7%. Pwysleisiwyd fod codi'r dreth yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol i drigolion Gwynedd gan y bydd yn anymarferol i weithredu cynlluniau arbedion ychwanegol eleni.

Tynnwyd sylw fod mwyafrif o aelodau'r Cyngor wedi mynychu cyfres o weithdai ymgynghori, a bu trafodaeth gadarnhaol yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Nodwyd erbyn 2021/22 y bydd angen cynyddu gwariant i £10.6m er mwyn sefyll yn llonydd, gan gynnwys £3.6m i gwrdd a phwysau gyllidebau'r gwasanaethau. Esboniwyd i gyfarch y bwlc ariannol, y gellid cynaeafu £725k yn 2021/22 o gynlluniau arbedion cytunedig, ond y bydd angen cynyddu'r Dreth Cyngor 3.7%.

Ategwyd fod ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn dangos fod y Cyngor yn

derbyn cynnydd grant o £6.4m erbyn y flwyddyn nesaf sy'n gynnydd o 3.4%. Esboniwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar yr 2il Mawrth, ynghyd a chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru. Tywyswyd drwy'r gwariant refeniw gan amlygu fod yr amcangyfrif o chwyddiant cyflogau yn £3.5m, er fod dyhead Canghellor Llywodraeth y DU i rewi cyflogau, nodwyd y bydd cynnydd tal o £250 pro rata i staff ar gyflogau £24,000 neu is ynghyd â darpariaeth darbodus i holl staff y Cyngor. Amlygwyd yn ogystal y bydd cynnydd tal o 3.1% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2021.

Mynegwyd fod chwyddiant arall yn £2.6m yn cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw', ynghyd a chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni a chynnydd mewn prisiau yn dilyn ail-dendro. Pwysleisiwyd fod pwysau ar wasanaethau ac argymhellwyd cymeradwyo gwerth £3.59m o geisiadau cyflwynwyd gan adrannau am adnoddau parhaol ychwanegol. Nodwyd disgwylir bydd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth yn sgil argyfwng Covid19 oddeutu £20m erbyn diwedd 2020/21 a bod rhagdybiaeth fod y Llywodraeth am barhau i ddigolledu am gostau ychwanegol a cholledion incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Tynnwyd sylw at benderfyniadau'r Cabinet ar 26 Ionawr 2021 i ohirio neu dileu rhai arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu, gan amlygu y bydd cyfanswm net o £725k o arbedion i'w defnyddio i leihau bwch ariannu cyllideb 2020/21.

Er mwyn sefydlu'r gyllideb nodwyd y bydd angen cyfarch bwch o £77m drwy godi'r Dreth Cyngor o 3.7%. Pwysleisiwyd fod y dewis rhwng cynnal gwasanaethau a codi'r trethi yn un anodd, ond nodwyd fod cyfartaledd o gynnydd treth yr awdurdodau lleol ar draws Cymru yn debygol o fod tua 4.1%.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod bid Addysg o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd, a bod y Llywodraeth wedi nodi byddai'n gost niwtral, ond amlygwyd fod risgiau o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth sydd angen eu hariannu.
- Nodwyd nad oedd neb yn hoff o godi trethi, ond fod angen i'r arian fod ar gael i gefnogi trigolion. Nodwyd fydd yr Adran Gyllid yn gydymdeimladol gyda thrigolion, gan eu cyfeirio am gymorth drwy fudd-daliadau neu amser i dalu.
- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac am fewnbwn yr aelodau.

12. PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDY MOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth fod Cyngor Gwynedd:

- Yn caniatáu dim disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- Yn caniatáu dim disgownt ac yn codi premiwm o 100% ar ail gartrefi

- dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- yn caniatáu dim disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn codi premiwm 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr wedi penderfynu gohirio penderfynu ar y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor. Nodwyd fod y Cyngor wedi gofyn i'r Cabinet gynnal ymgynghoriad ar y priodoldeb o gynyddu'r lefel i hyd ar 100% yn unol ag Adran 12, 12B a 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mynegwyd yn ôl Deddf 1992 fod rhaid gwneud unrhyw benderfyniad ar y Premiwm gan y Cyngor llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol ac felly nad oedd modd oedi'r penderfyniad. Amlygwyd y cyd-destun gan amlygu rheoliadau'r Dreth Cyngor ble mae 'ail gartrefi' wedi'u categorio i ddau ddsbarth (A & B) ac fod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag. Adroddwyd ar y niferoedd o fewn Gwynedd – 811 o fewn dosbarth A, 4,718 o fewn Dosbarth B, a 1,130 yn y dosbarth C yn Nhachwedd 2020.

Nodwyd wrth roi grym i gynghorau i godi Premiwm o hyd at 100% fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm. Ategwyd fod y canllaw yn amlinellu'r hyn sydd angen ei ystyried gan y Cyngor pan yn bwriadau cyflwyno'r Premiwm. Nodwyd wrth gyflwyno'r Premiwm yn ôl yn 2016 rhoddwyd sylw i ddau astudiaeth, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013, ynghyd â'r Strategaeth Dai 2013-16. Nodwyd fod y Cyngor wedi mabwysiadau Strategaeth Dai newydd, ynghyd â dau adroddiad allweddol Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a'r Cynllun Gweithredu Tai, yn y cyfnod ers hynny.

Amlinellwyd yr ymatebion a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad, gan nodi fod yr ymgynghoriad wedi ei amlygu ar wefannau cymdeithasol ynghyd ag anfon llythyr at bob perchennog ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yn eu hysbysu o'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 6,227 o ymatebion i'r holiadur ac oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân. Mynegwyd o'r ymatebion fod 41% yn nodi nad oeddent yn berchen ail gartref, 53% yn nodi eu bod yn berchen ail gartref.

Nodwyd fod bron i 4 o bob 5 o'r ymatebwyr sydd yn berchen ail gartref yn credu eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned yn lleol, tra fod 3 o bob 5 o'r ymatebion sydd dim yn berchen ail gartref yn meddwl eu bod yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol. Amlygwyd fod gwahaniaeth barn glir yn cael ei amlygu gyda'r cwestiwn os yw cynyddu'r lefel yn briodol, gyda 61% o'r rhai oedd yn datgan nad oeddent yn berchen ar eiddo sy'n destun y Premiwm yn credu ei fod yn briodol, tra fod 95.5% o berchnogion ail gartrefi yn dagan ei fod yn amhriodol.

Tynnwyd sylw at un o'r dadleuon cyffredin gan berchnogion a oedd yn nodi eu bod yn cyfannu at fudd economaidd Gwynedd drwy siopa yn lleol a rhoi gwaith i fasnachwyr lleol. Amlygwyd gan rai ymatebwyr fod eu hail gartrefi wedi bod ym meddiant eu teulu ers nifer o flynyddoedd, ac fod eu hincwm yn gymharol ised ac nad yw'r Dreth Cyngor mor fforddiadwy iddynt ag y mae'r gred gyffredinol yn

awgrymu. Amlygwyd fod y dystiolaeth yn amlygu fod bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn dueddol o fod yn uwch na rhai Gwynedd yn gyffredinol.

Nodwyd pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o bosiblwydd o nifer o eiddo yn trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Amlygwyd risg y buasai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi. Mynegwyd fod y ffigyrau diweddaraf yn dangos dos 2,106 o eiddo wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig, a bod 90% o'r rhain yn derbyn rhyddhad ardrethi llawn i fusnesau bychain sy'n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy. Mynegwyd gan nifer uchel o ymatebwyr fod yr eiddo wedi ei etifeddu, ac nad oedd ganddynt awydd i ddechrau ei osod yn fasnachol.

Amlygwyd fod profiadau diweddar wrth weinyddu grantiau busnes Covid-19 y Llywodraeth wedi dangos fod nifer uchel o unigolion a chwmnïau yn prynu eiddo yng Ngwynedd yn benodol gyda'r bwriad o'u trosi i fod yn unedau gwyliau yn hytrach na'u defnyddio fel ail gartref. Nodwyd fod yr eiddo sydd wedi ei drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar ers 1 Ebrill 2018 mewn bandiau is, ac yn agosach i ddarlun cyffredin stoc dai Gwynedd. Pwysleisiwyd ar gyfartaledd fod dros 400 eiddo y flwyddyn wedi ei golli o'r bandiau Teth Cyngor, sydd yn golled o £286,000 o gynnych Premiwm y flwyddyn.

Wrth edrych ar anheddau gwag hirdymor, nodwyd fod rhai perchnogion ail gartrefi wedi nodi fod angen canolbwytio i gynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor, gan mai rhain sy'n achosi problemau cymdeithasol go iawn. Amlygwyd fod nifer eiddo gwag hir-dymor yn gymharol isel o'i gymharu ag ail gartrefi. Esboniwyd mewn cymhariaeth â'r ail gartrefi gwelir fod eiddo gwag hirdymor o fewn Gwynedd yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor is na stoc tai cyffredinol yng Ngwynedd.

Nodwyd fod y Cyngor, yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi mabwysiadu amcanion llesiant a pwysleisiwyd fod y Strategaeth Tai wedi cydblethu gyda'r amcanion. Amlygwyd yn ogystal fod y Cyngor yn hyderus fod Aelodau a swyddogion wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw gamau sydd wedi eu cymryd wedi gwneud er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaethol. Nodwyd hefyd fod Aseiad Ardrawiad Cydraddoldeb wedi ei baratoi a fod angen rhoi sylw i'r canfyddiadau a dylestwyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth ddod i benderfyniad

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod 11% o stoc tai y sir bellach yn ail gartrefi ac fod y sefyllfa yn gwaethygu o ganlyniad i nifer o bobl yn gweithio o'i cartrefi, ac felly ddim yn gorfod byw yn y ddinasoedd mawr. Nodwyd fod angen darparu y sir orau i'n trigolion ac i dwristiaid, ac felly angen cefnogi codi'r Premiwm 100% i sicrhau tai a chefnogaeth i drigolion Gwynedd.
- Nodwyd fod yr Adroddiad ar Ail-Gartrefi yng Ngwynedd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae'r Gweinidog wedi croesawu'r adroddiad ac am wneud ymchwil pellach ynghyd ag wedi atgoffa'r Cyngor o'r gallu i godi Premiwm ar Ail Gartrefi.
- Mynegwyd fod yr adroddiad yn ymateb i argyfwng tai, ond amlygwyd fod

angen ymwelwyr i sicrhau fod yr economi yn ffynnu, er mwyn i gymunedau gael budd. Tynnwyd sylw at yr arsylwad fod ail gartrefi yn rhoi budd i'r economi, ond holwyd beth fuasai'r budd os y buasai'r annedd yn cael ei ddefnyddio llawn amser.

- Nodwyd fod y sefyllfa yn gymhleth gan amlygu, gydag eiddo gwag hir dymor, fod pob achos yn dueddol o fod yn unigryw ac efallai ei bod yn syniad cynnal sgwrs gyda'r perchnogion i drafod sut y bydd modd i'r anheddau gwag fynd yn ôl i ddefnydd.
- Diolchwyd am y gwaith a nodwyd fod rhai sylwadau gan unigolion yn honni fod hiliaeth, ond tynnwyd sylw at yr adroddiad cydraddoldeb sydd yn amlygu mai nodweddion yr eiddo yn unig sydd yn penderfynu ar y Premiwm, nid nodweddion unigolion.
- Diolchwyd am y nifer uchel o ymatebion ac amlygwyd cydymdeimlad gyda rhai unigolion, ond pwysleisiwyd fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.
- Cytunwyd i ganiatáu dim disgownt ac i godi premiwm o 100% ar ail gartrefi dosbarth B a dosbarth C, ac i ganiatáu dim disgownt ar ail gartrefi Dosbarth A.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm. a daeth i ben am 5:00 pm.

CADEIRYDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	9 Mawrth 2021
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt:	Sioned Williams
Rhif Ffôn Cyswllt:	Est 32547
Teitl yr Eitem:	Trosglwyddiad Les a Rheolaeth Safle Coed Helen, Caernarfon i Gyngor Tref Caernarfon

1 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn cyfrannu £12,450 i Gwmni Byw'n Iach tuag at gostau rhedeg blynyddol Parc Coed Helen. Mae rhaglen arbedion y Cyngor wedi adnabod targed arbedion o £155,000 i gwmni Byw'n Iach. Byddai trosglwyddo rheolaeth Parc Coed Helen yn golygu arbediad blynyddol o £12,450 o ran costau rheolaeth y safle, a fyddai'n cyfrannu tuag at y targed uchod.

2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Prydlesu a throsglwyddo rheolaeth Parc Coed Helen, Caernarfon i Gyngor Tref Caernarfon.

3 CYFLWYNIAD

Yn Rhagfyr 2014 cymeradwyodd Cyngor Gwynedd ei raglen arbedion oedd yn cynnwys gwerth £1.05m o arbedion gan y Gwasanaeth Hamdden i'w wireddu erbyn 2018/19 drwy gyfres o newidiadau i drefniadau rheoli'r gwasanaeth. Mae'r Adran wedi llwyddo i wireddu'r arbedion hyn ac fel rhan o'r broses datblygwyd achos busnes i sefydlu cwmni a reolir gan Gyngor Gwynedd i ymgymryd â rheolaeth y Gwasanaeth Hamdden i'r dyfodol. Cafodd y cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar y 5ed o Hydref 2017 a daeth cwmni Byw yn Iach Cyf. yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2019.

Sefydlwyd yr achos busnes ar wasanaeth oedd yn cynnwys rhedeg 12 Canolfan Hamdden y Cyngor. Ond yn ogystal i'r canolfannau hyn, roedd y Gwasanaeth Hamdden hefyd yn gyfrifol am 5 adnodd cymunedol, sef:

- Parc Coed Helen , Caernarfon
- Cae Synthetig Waunfawr
- Cae Synthetig Brynrefail
- Safle'r Bwthyn, Deiniolen
- Cae Ffordd y Traeth , Bangor

Mae pob un o'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio gan glybiau lleol ac yn adnoddau hamdden allweddol o fewn eu cymunedau. Ystyriwyd nad eu trosglwyddo i reolaeth Cwmni Byw'n Iach oedd y trefniant mwyaf effeithiol i sicrhau bod llais lleol yn cynnal y safleoedd a gwneud y defnydd mwyaf o'r adnoddau er budd y gymuned, ond yn hytrach gweithio gyda partneriaid lleol er mwyn adnabod trefniadau amgen.

Blaenoriaeth yr Adran oedd sicrhau trosglwyddiad esmwyth y Gwasanaeth i Cwmni Byw'n Iach er mwyn gwarchod buddiannau staff a defnyddwyr y gwasanaeth. O fewn yr amserlen drosglwyddo, nid oedd amser digonol i ganiatáu trafodaethau gyda'r partneriaid lleol am reolaeth yr adnoddau cymunedol. Penderfynwyd trosglwyddo'r cyfan o'r adnoddau fel mesur dros dro i'r Cwmni yn amodol fod yr Adran Economi a Chymuned yn cychwyn trafodaethau gyda partneriaid lleol er mwyn ystyried trefniadau amgen i'r dyfodol. Dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf mae Adran Economi a Chymuned wedi cynnal trafodaethau gyda nifer o grwpiau ac endidau cymunedol e.e. Cynghorau Cymuned, ysgolion a mentrau lleol yn ogystal i fentrau masnachol, i weld os byddai diddordeb a trefniadau mwy effeithiol i reoli'r adnoddau. Mae cynnydd da wedi bod mewn nifer o achosion.

Mae trafodaethau cadarnhaol wedi eu cynnal rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Tref Caernarfon ynglŷn â throsglwyddiad posib Parc Coedd Helen. Mae'r Parc yn adnodd pwysig i drigolion ac ymwelwr i Gaernarfon. Mae nifer o gyfleusterau yno, gan gynnwys :

- Caeau pêl-droed, rygbi a chriced
- Lawnt Bowlio
- Cwrs Golff bychan
- Parc sglefr fyrddio
- Offer chwarae
- Mannau parcio
- Adeilad sydd yn cynnwys toiledau, ystafelloedd newid, swyddfa ynghyd a fflat i'r Gofalwr.

Yn ei gyfarfod ar y 1af Hydref 2019 penderfynodd y Cyngor Tref i gymryd trosglwyddiad o'r Parc ar les 99 mlynedd, a hynny am swm enwol. Byddai'r les yn amodol ar y brydles sydd eisoes mewn bodolaeth er budd y Clwb Bowlio ac ymrwymiad gan y Cyngor Tref i barhau a'r trefniant trwydded bresennol mewn cyswllt a'r Clwb Criced. Bydd swydd bresennol gofalwraig y safle yn cael ei ddiddymu ac mae Cwmni Byw'n Iach. Cyf wedi cychwyn trafodaeth o ran y diswyddiad. Mae cytundeb cyflogaeth presennol yr ofalwraig yn rhoi'r hawl iddi fyw yn y fflat sydd wedi ei leoli ar y safle, ac mae Cyngor Tref Caernarfon wedi ymrwymo i gynnig lân o'r newydd i'r ofalwraig ar gyfer y fflat, ar drosglwyddiad y safle iddynt.

Mae'r Cyngor Tref yn hapus i gynnal a chadw'r gwasanaethau presennol i'r gymuned, tra hefyd yn chwilio am gyfleodd i wella'r cyfleusterau i'r dyfodol. Bydd Cyngor Tref Caernarfon yn ystyried gwahanol opsiynau rheoli, gan gynnwys codi ffi parcio i gerbydau aros am gyfnodau hir. Mae parcio dros nos yn broblem ar y safle ac ystyrir fod modd creu incwm drwy ddarparu adnoddau i ymwelwyr aros. Nid ydi'r Cyngor Tref yn awyddus i godi ffioedd parcio i ddefnyddwyr y parc am

gyfnodau byr, a bydd Cyngor Gwynedd yn trafod manylion eu cynlluniau dros y misoedd nesaf.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno, mewn egwyddor, i gyfrannu tuag at gynnal yr offer chwarae am hyd at dair blynedd wedi'r trosglwyddiad.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd wedi trosglwyddo ei holl adnoddau rheoli gwasanaeth hamdden drosodd i Cwmni Byw'n lach. Mae cytundeb yn ei lle rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cwmni i ddarparu'r gwasanaeth, ond mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud penderfyniad yn 2019 i leihau cost y cytundeb £155,000 yn yr hir dymor fel rhan o'i Rhaglen Arbedion. Mae'r targed hwn yn heriol iawn a bydd y Cwmni yn ystyried gwahanol fesurau i'w cyflwyno o 2021/22 ymlaen er mwyn cyfarch y bwlch ariannu.

Pwrpas a gweledigaeth Cwmni Byw'n lach ydi:

'Cynnig gwasanaethau hamdden a ffitrwydd cynaliadwy, o'r ansawdd uchaf i'n cymunedau, er mwyn gwella iechyd, lles, ffitrwydd a sgiliau pawb. Pob trigolyn yn gwsmer – pob teulu'n gwella eu hiechyd a lles – pob cymuned yn elwa.'

Er yn cydweithio gydag ystod eang o glybiau a phartneriaid ar draws Gwynedd i gyflawni'r weledigaeth hon, nid ydi Cwmni Byw'n lach yn rheoli parciau hamdden tebyg i Parc Coed Helen mewn unrhyw gymuned arall yn Ngwynedd. Ystyrir nad yw rhedeg parc hamdden trefol yng Nghaernarfon yn flaenoriaeth iddo a gall ddargyfeirio ymdrechion y Cwmni i gyflawni'r pwrpas ar draws y Sir.

Byddai trosglwyddo'r adnodd yn creu arbediad ariannol o hyd at £12,450 ac argymhellir fod y gyllideb yma yn cael ei defnyddio yn 2021/22 i ariannu unrhyw gostau diswyddo a chostau buddsoddi yn y Parc. Bydd angen adolygu cytundeb Cyngor Gwynedd gyda Cwmni Byw'n lach i adlewyrchu'r newid ond bydd modd defnyddio'r arbediad fel cyfraniad tuag at y targed incwm i'r dyfodol.

Mae'r Adran wedi ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli'r Parc i'r dyfodol gan gynnwys rheolaeth partner masnachol. Ond daeth yn glir nad oedd y datblygiad arfaethedig yn debygol o ddigwydd ac ni ystyrir y byddai cwmni preifat arall yn buddsoddi yn yr adnoddau hamdden.

Wrth ystyried y defnydd presennol o'r Parc a'r cyfleoedd i'r dyfodol mae'r Adran Economi a Chymuned o'r farn mai cydweithio gyda Cyngor Tref Caernarfon fyddai'n cynnig y trefniant gorau i ddiogelu defnydd y safle ar gyfer y gymuned leol i'r dyfodol.

Ni fyddai'r trosglwyddiad i'r Cyngor Tref yn newid defnydd o'r Parc i drigolion lleol yn y tymor byr na'r profiad o ymweld. Gyda chymorth Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, byddai Cyngor Gwynedd yn gallu cynorthwyo Cyngor Tref Caernarfon i fuddsoddi yn y safle i'r dyfodol er mwyn adlewyrchu dyheadau lleol.

Mae gofyn statudol ar i'r Cyngor sicrhau gwerth gorau am ei asedau yn unol ag Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes unrhyw fwriad i drosglwyddo am lai na gwerth y farchnad. Yn unol a gofynion Adran 123 (2A) o'r Ddeddf a chan fod y safle yn dir agored cyhoeddus roedd gofyn hysbysebu'r bwriad cyn penderfynu ar waredu. Gwnaethpwyd hyn yn unol a'r Ddeddf ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau o fewn y cyfnod hysbysebu.

Dylid nodi mai prydlesu'r eiddo ydi'r bwriad, a pe bai'r lês i'r Cyngor Tref yn cael ei ddirwyn i ben yn y dyfodol, byddai'r safe yn parhau ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Mae gwrthwynebiad gan Gyngorydd lleol i Gyngor Gwynedd drosglwyddo rheolaeth y safle i Gyngor Tref Caernarfon. Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, mewn sefyllfa o'r fath, cyfeirir y mater i sylw Cabinet y Cyngor an benderfyniad.

6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Os ydi Cabinet Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r bwriad i drosglwyddo Parc Coed Helen bydd lês yn cael ei pharatoi i drosglwyddo'r safle i Gyngor Tref Caernarfon yn ystod 2021/22.

7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid

Cadarnhaf fod Cyngor Gwynedd yn cyfrannu, fel rhan o'r gytundeb gyda Byw'n lach, swm blynyddol o £12,450 ar gyfer costau rhedeg Parc Coed Helen. Unwaith y bydd cyfrifoldeb am y Parc yn trosglwyddo i'r Cyngor Tref, yna byddwn yn disgwyl i'r alwad cyntaf ar yr arbedion gyfrannu tuag at unrhyw gostau trosiannol anorfod, megis costau diswyddo, gyda'r arbedion parhaol wedyn yn cyfrannu tuag at raglen arbedion y Cyngor, sydd wedi adnabod targed o £155,000 i gwmni Byw'n lach.

Nodaf farn yr Adran Economi a Chymuned mai trosglwyddo'r Parc i'r Cyngor Tref ydi'r trefniant gorau er mwyn sicrhau dyfodol y Parc, trwy fuddsoddi a chyflawni dyheadau trigolion lleol. Gan fod Cyngor Tref Caernarfon yn barod i gymryd cyfrifoldeb am y Parc, a hynny'n yn arwain at arbedion i Gyngor Gwynedd, rwyf yn cefnogi'r argymhelliad.

Sylwadau'r Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion priodol ac wedi cyfarch y gofynion ar gyfer trosglwyddo eiddo o'r math yma. Rwy'n cadarnhau hefyd fod y rheswm am gyflwyno y mater i'r Cabinet yn unol a'r Cyfansoddiad.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 9 Mawrth 2021
Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt: Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Teitl yr Eitem: Adroddiad Cynnydd Panel Strategol Diogelu 2018-2020

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.
- 2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2018 – Rhagfyr 2020.
- 3.2. Credir i'r adroddiad grynhai gwaith y Panel Strategol Diogelu yn gywir a theg, ac y mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.
- 3.3. Bu 2020 yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer i bawb, gydag effeithiau Covid-19 yn bell-gyrhaeddol. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi, gan fod nifer o staff y Cyngor wedi eu harall-gyfeirio i weithio'n cefnogi ein cymunedau. Mae'r adroddiad hwn felly'n adrodd ar waith dros gyfnod o 2 flynedd yn hytrach na blwyddyn. Mae'r gwaith hanfodol o ddiogelu ein trigolion wedi parhau wrth gwrs, dim ond y dasg o adrodd ar y gwaith hwnnw sydd wedi ei oedi.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Dim i'w nodi.

5. Barn y Swyddogion Statudol:

i) Y Swyddog Monitro:

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodedb priodol o'r gwaith. Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

ii) Y Pennaeth Cyllid:

Deallaf nad yw derbyn yr adroddiad yma'n ymrwymo'r Cyngor i unrhyw wariant newydd/ychwanegol.

6. Atodiadau

Adroddiad Panel Strategol Diogelu 2018-2020

7.

ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

2018-2020

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno trosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu (Panel Strategol) dros y cyfnod Rhagfyr 2018 i Ragfyr 2020, gan roi darlun clir a theg o'r gwaith a gyflawnwyd, a chrynhoi barn archwilwyr allanol ar y gwaith.
- 1.2 O ganlyniad i bandemig Covid-19 yn 2020, mae'r adroddiad hwn yn hwyrach na'r arfer yn cael ei gyhoeddi, gan fod nifer o staff y Cyngor wedi eu harall-gyfeirio i weithio'n cefnogi ein cymunedau. Mae'r adroddiad hwn felly'n adrodd ar waith dros gyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn. Wrth gwrs, mae'r gwaith hanfodol o ddiogelu ein trigolion wedi parhau, dim ond y dasg o adrodd ar y gwaith hwnnw sydd wedi ei oedi.
- 1.3 Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a chan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill, yn ystod y cyfnod o dan sylw. Os oes gwybodaeth am waith diogelu gan y Cyngor eisoes wedi ei gyhoeddi, megis yn [Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol](#), gan archwilwyr allanol, neu gan sefydliadau eraill, rydym yn cyfeirio'r darlennydd at y dogfennau hynny yn hytrach nag ail-adrodd yr wybodaeth yma. Mae rhestr o'r adroddiadau hynny i'w gweld yn Adran 9.
- 1.4 Yn olaf, bydd yr adroddiad yn amlinellu blaenoriaethau'r Panel Strategol Diogelu ar gyfer y dyfodol.

2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

- 2.1 Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.
- 2.2 Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn achos y Cyngor, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.
- 2.3 Cadeirydd y Panel dros y cyfnod o dan sylw oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, ac roedd yn cael ei gefnogi gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Morwena Edwards. Mae gweddill yr aelodaeth yn cynnwys: Aelodau Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant; Addysg; Cefnogaeth Gorfforaethol; Penaethiaid Adrannau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Oedolion Iechyd a Llesiant, Addysg; Swyddog Monitro; Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, a Chadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu.
- 2.4 Mae'r Panel Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion gweithredol ac ymarferol y maes gwaith. Panel

mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran o'r Cyngor yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

2.5 Mae perfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei asesu gan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach. Mae dolenni i adroddiadau gan archwilwyr allanol i'w gweld yn Adran 8.

3. YR HYN A WIREDDWYD YN YSTOD Y CYFNOD RHAGFYR 2018 I RHAGFYR 2020

3.1 Hyd at 2018 bu materion diogelu yn feysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor, a hynny er mwyn canolbwyntio egni a ffocws ar ddiweddarau ein trefniadau. Y cam naturiol nesaf oedd adeiladu ar y trefniadau hynny yn ystod y cyfnod hyd at y presennol, ac i'r dyfodol wrth gwrs.

3.2 Fe osododd y Panel Strategol her iddo'i hun ar gyfer y cyfnod hwn, sef canolbwyntio ar wneud cynnydd mewn 4 maes blaenoriaeth:

3.3 1. Trefniadau Llywodraethu'r Panel Strategol Diogelu

Pwrpas: Adolygu a Gwella trefniadau Llywodraethu'r Panel Strategol Diogelu a'r Panel Gweithredol

Beth oedd angen ei wneud?	Cynnydd a wnaed	Y dyfodol
Datblygu mesuryddion sydd yn mesur perfformiad yn erbyn y pwrpas	<p>Mae rhaglen waith, a chynllun cyfathrebu negeseuon diogelu gyda staff, yn cael eu mireinio'n barhaus. Mae'r diweddariad cyfredol wedi ei gytuno gan y Panel Gweithredol fis Rhagfyr 2020. Defnyddiwyd holiadur er mwyn cynnal arolwg o ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau yn y maes diogelu rhwng Ionawr a Chwefror 2020, ac mae'n un dull o fesur llwyddiant gwaith y Panel Gweithredol. Gwnaed newidiadau i'r rhaglen waith yn dilyn asesu'r canlyniadau.</p> <p>Mae presenoldeb yn y Panel Gweithredol wedi cynyddu dros y cyfnod hwn oherwydd bod gan bob pencampwr adrannol gyfrifoldebau adrodd cryfach, yn enwedig wrth gasglu gwybodaeth am ddyfarniadau DBS.</p> <p>Credir bod angen parhau i adeiladu ar y gwaith o ddatblygu mesuryddion a bydd y Panel Gweithredol yn parhau gyda'r gwaith.</p>	Cynnydd pellach ei angen i sicrhau bod y mesuryddion yn cael eu hymgorffori yng ngwaith adrannau.

Sicrhau bod y gefnogaeth weinyddol ac arbenigol briodol ar gael i'r gwaith o fewn Paneli	Mae'r Panel Strategol a'r Panel Gweithredol yn derbyn cefnogaeth weinyddol drwy'r Gwasanaeth Democratiaeth. Mae cefnogaeth ymarferol gwasanaethau megis Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, a Chyfathrebu ac Ymgysylltu yn galluogi'r rhaglenni gwaith i gael eu gwireddu.	Wedi ei gyflawni - parhau i gynnal y safon
Sicrhau bod y Paneli yn cwrdd o fewn y Cylch Perfformiad.	Mae'r Paneli Strategol a Gweithredol wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd drwy'r cyfnod o dan sylw, ac wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol dros gyfnod Covid-19 yn ogystal.	Parhau i gynnal y safon
Addasu'r Cylch Gorchwyl	<p>Mae'r Cylch Gorchwyl newydd yn ei le, ac mae trefniadau aelodaeth ac atebolrwydd yn glir.</p> <p>Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi cryfhau, gyda'r Panel Gweithredol yn benodol wedi canolbwyntio ar wreiddio'r cyfrifoldeb am faterion diogelu ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn wedi sicrhau presenoldeb gan gynrychiolydd o bob adran yn rheolaidd, gyda phawb yn cyfrannu at elfennau arbenigol.</p> <p>Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi ei ddiweddarau, ac mae'r Polisiâu Adrannol yn y rhaglen waith ar gyfer eu gwireddu erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21.</p>	Parhau i gynnal y safon a chwblhau'r Polisiâu Adrannol

3.4 2. Trefniadau cyfarfodydd Diogelu rhanbarthol

Pwrpas: Deall yn well y tirlun Diogelu yn lleol a rhanbarthol

Beth oedd angen ei wneud?	Cynnydd a wnaed	Y dyfodol
Cynnal awdit i ddadansoddi'r holl gyfarfodydd lleol a rhanbarthol o fewn y maes Diogelu.	<p>Gwaith wedi ei gynnal yn ystod 2020 ar lefel ranbarthol i adolygu, symleiddio ac osgoi dyblygu o ran yr holl grwpiau sydd yn bodoli ac yn weithgar yn y maes diogelu a diogelwch cymunedol.</p> <p>Mae cydweithio ar draws siroedd Gwynedd a Môn wedi cryfhau drwy fod â 2 Gydlynnydd sy'n gweithio ar draws y ddwy sir.</p>	Adlewyrchu ar y trefniadau lleol yn sgil y newidiadau rhanbarthol

	Mae gwaith pellach i'w wneud i weld sut fydd canlyniadau'r awdit yn newid y tirlun yn lleol.	
Adolygu a rhesymoli grwpiau rhanbarthol y Bartneriaeth Diogelwch	Mae'r gwaith adolygu a rhesymoli wedi'i gwblhau, ac mae strwythur newydd yn ei le. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd bellach wedi cael eu hadnabod i fod yn rhan o'r grwpiau rhanbarthol a byddant yn adrodd yn ôl ar lefel leol.	Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal ar sut i barhau i weinyddu'r cyfarfodydd

3.5 3.Oedolion Mewn Perygl

Pwrpas: Sicrhau bod ymateb Cyngor Gwynedd i 'oedolion mewn perygl' yn cyd-fynd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Beth oedd angen ei wneud?	Cynnydd a wnaed	Y dyfodol
Cynnal adolygiad o drefniadau Diogelu Mewnol y Cyngor sydd yn ymwneud ag Oedolion Mewn Perygl	Cynhaliwyd awdit o drefniadau mewnol, a bellach mae cyngorau Gwynedd a Môn yn ymchwilio i achosion diogelu ar y cyd. Mae'r trefniant hwn wedi golygu bod gennym adnoddau ac arbenigeddau ehangach na phetaem yn gweithio ar wahân. Mae Hwb Diogelu wedi ei sefydlu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ers hydref 2017 yn ogystal, ac mae Cydlynnydd Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi ei benodi. Cynhaliwyd gweithgaredd ffocws gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2019 ac mae'r Adran Oedolion yn gweithredu rhaglen waith yn dilyn ei argymhellion.	Parhau â'r trefniadau newydd
Fel rhan o'r adolygiad, tracio ambell achos er mwyn adnabod unrhyw wersi	Cynhaliwyd yr ymarferiad hwn ac mae'r trefniadau newydd sydd yn eu lle wedi gwella perfformiad o ran dogfennu penderfyniadau.	Parhau â'r trefniadau newydd

3.6 4.Hyfforddiant

Pwrpas: Sicrhau gweithlu sydd â gwybodaeth gyfredol o ddiogelu

Beth oedd angen ei wneud?	Cynnydd a wnaed	Y dyfodol
<p>Creu cwrs Diogelu cynhwysfawr i'r gweithlu sy'n cynnwys yr holl faterion diogelu, sydd â'r hyblygrwydd o gael ei deilwra fel yr angen</p>	<p>Yn dilyn cyhoeddi Canllawiau Diogelu Plant newydd mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant ar-lein ers Gorffennaf 2020.</p> <p>Mae nifer o gyrsiau 'e-ddysgu' wedi eu datblygu ar-lein yn ystod 2018-2020 ym meysydd Amddiffyn a Diogelu Plant, Diogelu Oedolion, Cam-drin Domestig, Atal a Chaethwasiaeth Fodern.</p> <p>Anfonwyd neges gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu i staff (drwy amrediad o sianeli Cyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol), yn gofyn i holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu, yn benodol yr elfennau uchod.</p> <p>Roedd 5,540 o'r sesiynau hyn wedi eu cwblhau erbyn 9 Rhagfyr 2020. Un arf yn unig o blith nifer yw modiwl hyfforddiant ar-lein, a ni ddylid dibynnu arno fel yr unig ddull dysgu, na'r unig fesur o ddealltwriaeth o faterion diogelu.</p> <p>Rhwng Ionawr a Mawrth 2020, gofynnwyd i staff y Cyngor fesur eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau yn y maes diogelu. O'r rhai a ymatebodd, roedd 96.6% yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i dynnu sylw os oes amheuaeth bod rhywun yn cael ei gam-drin, ond roedd y ffigwr yn gostwng i 70% ar gyfer y rhai oedd yn credu eu bod yn gwybod beth i'w wneud os ydyn nhw'n meddwl fod rhywun yn cael ei gam-drin ac mewn peryg ble byddai angen ymateb brys, neu ddim ar frys.</p> <p>Roedd canlyniadau'r holiadur yn profi bod gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau bod pob un o staff y Cyngor yn gwybod <i>beth</i> i'w wneud, ac felly mae rhaglen waith newydd wedi ei datblygu gan y Panel Gweithredol, fydd yn cael ei haddasu'n</p>	<p>Parhau i hyrwyddo cyrsiau e-ddysgu fel un dull o godi ymwybyddiaeth ac addysgu am faterion diogelu</p>

	barhaus, er mwyn cyfathrebu'r prif negeseuon diogelu.	
Darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu (<i>Ask and Act</i>)	<p>Yn sgil Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith hyfforddi cenedlaethol sy'n cynnwys chwe elfen o hyfforddiant. Bydd holl broffesiynau'r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i Gynghorau fod wedi cwblhau 50% o'r hyfforddiant erbyn diwedd 2017, ond ni chyrhaeddwyd y nod hwn am amryw resymau, gan gynnwys argaeledd rhaglenni <i>hyfforddi'r hyfforddwyr</i> a deunyddiau Cymraeg.</p> <p>Erbyn hyn, mae 4 o hyfforddwyr wedi'u hyfforddi yn ystod cyfnod 2018-2020 (ym meysydd Oedolion, Addysg a Chefnogaeth Gorfforaethol).</p> <p>Hefyd, datblygwyd rhaglen hyfforddi Gofyn a Gweithredu (<i>Ask and Act</i>) newydd 'o bell' (rhithiol) gan staff yr Adran Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ynghyd ag aelod o staff yr Adran Addysg, a bu'n rhaid disgwyl i'w chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Rhedwyd cwrs 'peilot' llwyddiannus ym mis Tachwedd 2020 gan aelodau staff yr Adran Dysgu a Datblygu'r Sefydliad a'r Adran Addysg, gyda staff Addysg yn derbyn hyfforddiant. Mae rhaglen 12 mis yn ei lle erbyn hyn ar gyfer yr Adran Addysg. Mae'r tîm datblygu gweithlu yn datblygu rhaglen ar gyfer staff Gofal.</p>	Cynnal rhaglenni hyfforddiant i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod mwy o aelodau staff yn ei gwblhau
Sicrhau bod holl weithlu'r Cyngor yn cwblhau e-fodiwl Trais yn y Cartref.	Yn 2019, gofynnwyd i holl aelodau staff Cyngor Gwynedd gwblhau e-fodiwl Trais yn y Cartref. Gwaetha'r modd, mae'r ymateb wedi bod yn siomedig iawn hyd	Dadansoddi a deall pam fod y ffigyrau mor siomedig (drwy

	<p>yma, gydag ond 1,852 o aelodau staff wedi cwblhau'r e-fodiwl erbyn diwedd 2019. Roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 2,491 erbyn diwedd 2020, felly mae cynnydd bach wedi'i wneud, ond mae angen parhau i gynyddu'r nifer o aelodau staff sy'n cwblhau'r modiwl, a hyrwyddo ei bwysgirwydd.</p>	<p>ddull megis holiadur), a cheisio dod o hyd i ddatrysiad sy'n arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n cwblhau'r e-fodiwl</p>
--	---	--

4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

- 4.1 Mae'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2020 wedi gweld cryfhau'r trefniadau o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn lleol i Wynedd ac yn rhanbarthol ar draws gogledd Cymru.
- 4.2 Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy **Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus**, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - <https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/> ac mae dolenni i adroddiadau blynyddol y Byrddau i'w gweld yn Adran 9.
- 4.3 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae'r Cyngor hefyd wedi cryfhau ei bartneriaeth waith gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** mewn sawl maes, ond mae'r maes diogelu wedi elwa gan fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd bellach yn monitro ansawdd gofal nysio mewn cartrefi gofal ar y cyd. Mae hyn, eto, yn arfer da llwyddiannus fydd yn parhau i'r dyfodol.
- 4.4 Bu cydweithio da hefyd yn y maes Plant, yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig. Daeth Covid-19 â heriau newydd i'r gwasanaeth a'r partneriaethau perthnasol, ond llwyddwyd i barhau i gydweithio a thrafod i ddatrys yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu er mwyn gweithredu eu cyfrifoldebau yn llawn.

5. PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN

- 5.1 Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae Rheolwr y Bartneriaeth yn eistedd ar y Panel Strategol Diogelu, ac mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

- 5.2 Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein [gwefan](#).
- 5.3 Mae gwybodaeth am Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn, ynghyd â Chynllun Lleol Diogelwch Cymunedol 2020 i'w weld [yma](#). Mae elfennau o'r cynllun gwaith hwn wedi eu hoedi eleni yn sgil Covid-19 oherwydd nad oedd yn bosibl cynnal ymgyrchoedd wyneb yn wyneb yn ein cymunedau, ond nid yw'r gwaith yn ei gyfarwydd wedi llacio.
- 5.4 Mae gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn flynyddol er mwyn rhoi trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn, ynghyd â'r gwaith comisiynu sydd yn gosod fframwaith i'r blaenoriaethau sydd yn seiliedig ar asesiad strategol. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn y Pwyllgor Craffu yn 2019 na 2020.

6. MATERION DIOGELU EHANGACH

6.1 Diogelu Plant

- 6.2 Ar ddechrau 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fydd lleihau niferoedd y plant mewn gofal, a gosodwyd gofyn ar awdurdodau lleol i osod targed rhifyddol i leihau niferoedd er mwyn medru mesur llwyddiant yn erbyn y targed hwnnw.
- 6.3 Penderfynodd Cyngor Gwynedd na fyddai'n gosod unrhyw darged rhifyddol na chanrannol mewn perthynas â niferoedd plant mewn gofal, gan fod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau fod pob plentyn yn cael eu diogelu rhag niwed.
- 6.4 Gan mai pwrpas y Gwasanaeth Plant yw sicrhau bod pethau'n gwella drwy ymarfer priodol addas, ac nid drwy gydymffurfio drwy gyrraedd targed, gwnaethant ganolbwyntio ar wella ymarfer, deall y gofynion ar y Gwasanaeth, gwelliant parhaus a chael gwared ar rwystrau er mwyn cyflawni'r gorau i blant.
- 6.5 Gwelodd pandemig Covid-19 dueddiadau newydd mewn cyfeiriadau plant oedd yn arwain at bryder gan y gwasanaeth am yr achosion nad oeddynt yn eu cyrraedd. Roedd sawl rheswm am hyn gan gynnwys plant ddim yn mynychu ysgolion, a gwasanaethau iechyd rheng flaen yn cael eu harall-gyfeirio i rolau penodol i ymateb i'r argyfwng. Golygodd hyn fod yn sylweddol llai o gyswllt uniongyrchol gyda theuluoedd na'r arfer.
- 6.6 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfeiriadau i'r gwasanaeth ar gychwyn y pandemig. Bu cynnydd dros amser, gyda chyfeiriadau yn ôl i'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig erbyn mis Medi, ond erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y niferoedd wedi gostwng unwaith eto sydd yn golygu fod angen deall a dadansoddi'r rheswm dros hyn

er mwyn sicrhau bod yr Adran Plant yn rhoi popeth sydd ei angen yn ei le i sicrhau fod asiantaethau a'r cyhoedd yn ymwybodol fod y gwasanaeth ar gael i ymateb i unrhyw fater fel yr arfer.

6.7 Ni fu dirywiad yng ngallu'r gwasanaeth i ymateb i gyfeiriadau nac i gynnal ymchwiliadau diogelu yn amserol. Bu i'r gwasanaeth sicrhau bod cyswllt uniongyrchol yn digwydd gyda phlant oedd mewn perygl a phlant ar y Gofrestr Diogelu Plant yn rheolaidd ac yn uniongyrchol o fewn canllawiau Covid-19. Nid oedd rhestr aros am wasanaeth mewn lle, bu'r gweithlu ar gael yn barhaus drwy'r cyfnod ac roedd modd sicrhau fod achosion newydd o bryder o niwed arwyddocaol oedd angen eu cyflwyno i'r llysoedd yn cael eu clywed yn amserol mewn llysoedd rhithwir.

6.8 Diogelu Oedolion

6.9 Ers 1 Medi 2020, mae Canllawiau Diogelu newydd ar waith. Mae'r canllawiau newydd hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar lais yr unigolyn o fewn y broses ddiogelu, ac mae'n gwahaniaethu rhwng pryder am lesiant a phryder am ddiogelwch unigolion. O ganlyniad, bu newid yn y Polisi Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cydfynd â'r Canllawiau newydd. Mae disgwyliad bod pob Adran yn addasu eu polisiau diogelu eu hunain er mwyn cydymffurfio â'r Polisi a'r Canllawiau.

6.10 O ran cyfeiriadau i'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant yn ystod pandemig Covid-19, roeddent yn isel ar ddechrau'r cyfnod clo, ond roeddent wedi codi'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd misol o 50 cyfeiriad erbyn mis Gorffennaf (73 cyfeiriad) ac Awst (80 cyfeiriad). Nid oedd yn ymddangos bod patrwm penodol mewn perthynas â sail i'r cyfeiriadau.

6.11 Erbyn diwedd 2020, roedd y cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau wedi parhau. Mae'r cynnydd wedi cael ei nodi fel risg, felly bydd yr Adran yn cadw golwg ar lefel y cyfeiriadau.

6.12 Rheoliadau a Chanllawiau Addysg yn y Cartref

6.13 Rydym fel Cyngor yn rhannu pryderon Comisiynydd Plant Cymru ac ADSS Cymru ynghylch yr oedi yn ystod 2020 gan Lywodraeth Cymru yn dod â deddfwriaeth drwy'r Senedd er mwyn rheoleiddio'r maes addysgu yn y cartref. Mae'r cynnydd yn y niferoedd o blant sy'n cael eu tynnu allan o'r gyfundrefn ysgolion i'w haddysgu adref eleni wedi amlygu'r angen i gael canllawiau clir ar gyfer awdurdodau lleol a theuluoedd fel ei gilydd ynghylch sut i sicrhau lles a diogelwch unrhyw blentyn. Sôn ydym yma am blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn barhaol, yn hytrach na phlant sy'n dysgu o bell gartref yn ystod cyfnod Covid-19.

6.14 Wrth dderbyn bod Covid-19 yn cael effaith ar waith y rhan fwyaf o sefydliadau, rydym hefyd yn bryderus nad oes ymrwymiad clir gan y Gweinidog Addysg ynghylch os, a

phryd, y bydd taith y ddeddfwriaeth yn ail-gychwyn. Roedd disgwyl i ganllawiau statudol gymryd lle'r rhai anstatudol ym Medi 2021, ond mae hynny wedi cael ei oedi hyd nes fis Medi 2022 yn sgil y pandemig. Mae'r Comisiynydd Plant wedi nodi anghytundeb ynglŷn â'r oedi yma.

6.15 Yn y cyfamser, mae swyddogion yn yr Adrannau Addysg a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn parhau i ddilyn y canllawiau addysgu a diogelu presennol er mwyn cadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd sy'n dewis addysgu o gartref.

6.16 Erbyn ail hanner 2020, nodwyd bod cynnydd wedi'i adrodd yn nifer y teuluoedd sydd yn gofyn i addysgu eu plant o gartref yn barhaol. Mae'n debyg mai'r rheswm dros y cynnydd hwn yw bod rhai o'r plant, neu aelodau yn y cartref, yn y categori cysgodi, a'r pryder yw y byddai'r plentyn yn dod â'r firws adref. O ganlyniad, bu'r Cyngor wrthi'n cryfhau'r broses o gwmpas Addysg yn y Cartref er mwyn rhoi cynllun trosglwyddo'n ôl i'r ysgol ar waith.

6.17 Trais yn y Cartref

6.18 Roedd pryder cenedlaethol y byddai trais yn y cartref ar gynnydd yn genedlaethol yn sgil Covid-19, ond ym mis Mai 2020, nodwyd bod nifer yr achosion yn isel yng Ngwynedd.

6.19 Erbyn diwedd 2020, roedd nifer yr achosion trais yn y cartref a adroddwyd yr un fath yn union â 2019. O ystyried fod cymaint mwy o bobl yn aros adref yn ystod y cyfnod clo, mae hyn yn bryderus gan ei fod yn codi'r cwestiwn a yw dioddefwyr yn rhy ofnus i adrodd am eu sefyllfa a'u bod yn byw mewn sefyllfaoedd o berygl. Er hynny, cadarnhawyd bod cydweithio da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol a bod ymdrechion wedi bod i godi ymwybyddiaeth o adrodd am drais yn y cartref.

6.20 Troseddu

6.21 Yn sgil y pandemig, roedd lefelau bron pob un o'r categorïau o droseddu wedi gostwng ym mis Mai 2020. Ar gyfartaledd, roedd y lefelau troseddu yng Ngwynedd 23% yn is na'r un adeg y llynedd.

6.22 Ym mis Gorffennaf a Medi, dechreuodd y cyfraddau godi eto'n raddol. Roedd categorïau troseddu megis stelcian, aflonyddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn y cartref wedi codi'n ôl i'r lefelau disgwyliedig.

6.23 Er hynny, roedd mwyafrif y categorïau troseddu yn parhau i fod yn sylweddol is na'r disgwyl, ac erbyn diwedd 2020 roedd lefelau troseddu ar y cyfan 15.2% yn is na'r un adeg yn 2019.

6.24 Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

- 6.25 Mae'r gwaith yma bellach yn disgyn o fewn strwythur strategol rhanbarthol, ac mae ymchwiliadau gan Heddlu Gogledd Cymru wedi adnabod achosion lleol sy'n cyfiawnhau'r flaenoriaeth y mae Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru wedi'i roi i Gaethwasiaeth Fodern. Mae'r ymchwiliadau hyn yn cadarnhau'r angen i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gaethwasiaeth ond hefyd i ddiogelu lles unigolion bregus.
- 6.26 Fis Ionawr 2020 fe fabwysiadodd y Panel gamau gweithredol ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau pwrpasol yn eu lle, sef gosod canllawiau a llwybrau ar gyfer cyfeirio amheuan/achosion ar safle we Cyngor Gwynedd, sefydlu pwynt cyswllt sengl, cyhoeddi datganiad penodol blynyddol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn osgoi Caethwasiaeth Fodern o fewn gweithgaredd busnes a'r cadwynau cyflenwi, a hyfforddiant i staff.
- 6.27 Ym mis Gorffennaf 2018 cymeradwyodd y Cabinet God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi, sy'n anelu i sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesebol.
- 6.28 Yn dilyn ymrwymo i'r Cod, yn ystod 2019 fe gyhoeddodd y Cyngor [Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern Cyngor Gwynedd 2020/21](#).
- 6.29 Mae'r datblygiadau diweddaraf yn erbyn y Cod Ymarfer a'r Datganiad Caethwasiaeth i'w gweld yn y ddogfen hon - [Cynllun Gweithredu 2020-2021: Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru](#). Yn ogystal â disgrifiad trefniadau cyflogaeth mewnol y Cyngor, mae'n dangos bod egwyddorion cyflogaeth foesebol hefyd wedi eu gwreiddio yn ein trefniadau caffael a'n prosesau tendro.
- 6.30 Gwrthderfysgaeth
- 6.31 Cwblhawyd Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth ar gyfer Cymru, a oedd yn edrych ar faterion risg mewn perthynas â gwrthderfysgaeth. Drwy'r Proffil hwn, cafodd Gwynedd ei adnabod fel rhanbarth sydd â lefel risg isel; er hynny, mae nod i barhau i godi ymwybyddiaeth yn y maes.
- 6.32 Atal/Prevent
- 6.33 Yn 2020, bu gwaith yn mynd rhagddo i ddod â Chynllun Atal/Prevent at ei gilydd. Roedd Gwynedd yn ardal risg isel mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth; er hynny, roedd angen amlygu'r ffactorau risg.
- 6.34 Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref mai unigolion yn gweithio ar eu liwt eu hunain oedd y risg uchaf yng Ngwynedd mewn perthynas ag ideolegau cymysg amhenodol.

7. ADOLYGIADAU YMARFER

- 7.1 Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.
- 7.2 Yn ystod y cyfnod (Hydref 2019) mae canlyniadau un achos adolygu ymarfer estynedig (ECPR) wedi ei gyhoeddi - [AYPE Gwynedd 1 - 2015](#).
- 7.3 Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

8. Y DYFODOL

- 7.1 Fel y gwelir o'r tablau yn Rhan 3, mae gan y Panel ragor o waith i'w wneud i sicrhau bod rhai materion yn cael eu cryfhau ymhellach – mae hyn yn cynnwys mynediad at hyfforddiant diogelu priodol ac effeithiol, a defnyddio mesuryddion priodol.
- 7.2 Bydd y Panel yn parhau i fonitro sefyllfa diogelu trigolion Gwynedd yn sgil y pandemig gan edrych ar effaith hyn ar lefel a natur y galw ar opsiynau o ran sut i ymateb.
- 7.3 Unwaith y bydd y pwysau gwaith yn sgil y pandemig yn lleihau, mae bwriad i'r Panel gynnal sesiwn adlewyrchu er mwyn asesu os oes unrhyw fater angen sylw penodol gan y Panel. Yn ogystal â hyn, bydd y Panel yn parhau i dderbyn diweddariadau priodol er mwyn cael y sicrwydd bod materion diogelu yn derbyn y sylw priodol o fewn y gorfforaeth.

9. ARCHWILIADAU ANNIBYNNOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD

Fel ag y nodwyd eisoes, mae asiantaethau allanol yn adolygu gwaith Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau. Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn wedi eu rhestru isod:

[Arolygiaeth Gofal Cymru:](#)

[Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2018/19: Cyngor Gwynedd](#)

[Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdod Lleol 2019/20: Cyngor Gwynedd](#)

10. DOLENNI I DDARLLEN PELLACH

[Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2019/20](#)

[Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru 2019/20](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol 2019/20](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol 2018/19](#)

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	9 Mawrth 2021
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt:	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Teitl yr Eitem:	Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ymateb drafft i'r Ymgynghoriad, a chefnogi penderfyniad y Cyngor i anghytuno gyda'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn ar ei fwriad i ail-gydbwysu gofal a chymorth yng Nghymru, ac mae wedi gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofaluwr y mae angen cymorth arnynt.
- 2.2 Bydd yr ymateb yn cael ei ystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw ail-gydbwysu'r maes gofal a chymorth er mwyn darparu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r Papur Gwyn yn diffinio 'ail-gydbwysu' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.
- 3.2 Mae gweledigaeth y Papur Gwyn yn cyd-fynd yn llwyr â'r weledigaeth yr ydym eisoes yn ceisio ei gwireddu yma yng Ngwynedd, felly mae'r weledigaeth sydd yn cael ei hamlinellu yma i'w chroesawu.
- 3.3 Dyma brif agweddau'r weledigaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Papur:

- Symud i ffwrdd o ffocws ar arian o fewn y farchnad gofal tuag at ansawdd a gwerth
- Comisiynu gwasanaethau gyda'r ffocws ar ganlyniadau
- Datblygu integreiddio drwy leihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd
- Cyd-gynhyrchu canlyniadau gyda phobl
- Gwell rheolaeth o'r farchnad gofal
- Symud i ffwrdd o ffocws sefydliadol tuag at weithio mewn partneriaeth fwy effeithiol

3.4 Serch hyn, mae'r cynigion sydd yn cael eu cynnig o fewn y Papur Gwyn yn wahanol iawn i'r cynigion y byddem yn eu cefnogi fel ffordd o gyflawni'r weledigaeth hon.

Dyma'r prif faterion mae'r Papur Gwyn yn cynnig eu newid:

- Creu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal i blant ac oedolion a fyddai'n gosod methodoleg ffioedd, prosesau comisiynu safonol a chynyddu tryloywder perfformiad
- Gwella cynllunio rhanbarthol ymhellach, gyda chyd-gomisiynu ar draws iechyd a gofal
- Cryfhau sefydliadau rhanbarthol er mwyn caniatáu mwy o integreiddio a gweithredu rhwng gofal cymdeithasol a'i bartneriaid fel y gall ganiatáu ffocws ar wasanaethau ataliol
- Gwell sylfaen i fabwysiadu polisiâu hirdymor gan gynnwys gwell cyflogau ac amodau a thelerau i'r gweithlu
- Lleihau effaith amgylcheddol drwy dorri allyriadau anuniongyrchol drwy gaffael yn fwy effeithiol
- Sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol fyddai'n cael trosolwg o sefydlogrwydd y farchnad gofal a byddai'n gallu gyrru polisiâu cenedlaethol

3.5 O ran y newid uchod i gryfhau y "sefydliad rhanbarthol", amlinellir y bwriad i sicrhau bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mwy o arfau yn ei arlwy i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'n well.

Dyma'r newid sydd gerbron:

- Sefydlu Byrddau Partneriaeth fel endidau corfforaethol cyfreithiol
- Y gallu gan y Byrddau hyn i gyflogi staff yn uniongyrchol
- Y gallu gan y Byrddau hyn i ddal cyllidebau eu hunain
- Gweithredu comisiynu ar y cyd gydag iechyd a gofal eu hunain
- Sicrhau trefniadau llywodraethu clir ar gyfer materion o atebolrwydd ar y cyd am benderfyniadau gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd o ran cronfeydd cyfun a chomisiynu ar y cyd
- Sefydlu a dal cyllidebau integredig ar gyfer darparu gwasanaethau integredig ar ôl troed rhanbarthol
- Sefydlu cylch a fframwaith cynllunio a monitro perfformiad o gwmpas y cylch 5 mlynedd o ddata ac asesiad poblogaeth
- Byddai'r Byrddau Rhanbarthol yn cael eu harchwilio ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran eu heffeithiolrwydd yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth, cronfeydd cyfun a chomisiynu ar y cyd.

- Y Byrddau Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i barhau i gael swyddogaethau sydd yn cyd-fynd, ond nid yw'n cau allan ymestyn y swyddogaeth i "CJCs" ar gyfer gofal cymdeithasol.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Mae gennym bryderon am sawl agwedd a chyfeiriad o fewn y Papur Gwyn hwn, ac nid ydym yn fodlon cefnogi'r cynigion. Ar yr olwg gyntaf, oherwydd bod y weledigaeth yn debyg iawn i'r weledigaeth rydym eisoes yn ceisio ei chyflawni yma yng Ngwynedd, mae bwriad y Llywodraeth yn ymddangos yn mynd i'r cyfeiriad cywir.
- 4.2 Fodd bynnag, o ystyried y cynnwys manwl yn fwy gofalus mae'r cynigion yn amlwg yn ein symud ymhellach oddi wrth ein gweledigaeth ni yma yng Ngwynedd i integreiddio mwy yn lleol ac i fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i unigolion.
- 4.3 Mae yna ddiffyg manylder hefyd o fewn y Papur Gwyn am beth yn union sydd o dan sylw gyda rhai o'r cynigion sydd yn ei wneud yn anodd iawn i gynnig barn os bydd y newid yn newid cadarnhaol i bobl Gwynedd neu beidio.
- 4.4 Yn ogystal ag ymateb i'r cwestiynau sydd wedi eu gosod fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig ein bod hefyd yn llunio ymateb drafft i'r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai'n cynnwys y pwyntiau isod:
- 4.4.1 Yn gyntaf oll, mae Llywodraeth Cymru i'w llongyfarch am yr amlinelliad o weledigaeth gref oddi fewn y Papur Gwyn. Mae'r weledigaeth ei hun i'w chroesawu a'i chanmol, gan ei bod yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn cyfoethogi ansawdd gofal a chymorth. Rydym yn cytuno'n llwyr fod angen canolbwyntio ar ganlyniadau i'r unigolyn ynghyd ag ansawdd ein cefnogaeth a darpariaethau yn hytrach nag arian, a chroesawn hefyd y weledigaeth o gadw trefniadau'n syml fel y gallwn gyflawni'n effeithiol i'n trigolion.
- 4.4.2 Fodd bynnag, **nid ydym yn cydweld â** sut y cynigir gweithredu'r weledigaeth.
- 4.4.3 Rydym yn wirioneddol credu bod y camau gweithredu a gynigir yn y Papur Gwyn yn mynd â ni ymhellach oddi wrth y weledigaeth a amlinellir. Mae rhagdybiaethau mawr yn cael eu gwneud o ran ein trefniadau presennol, sydd yn anffodus yn aml yn anghywir. Nid ydym chwaith yn credu bod cynyddu'r lefel o weithio'n rhanbarthol a, thrwy hynny, symud y drefniadaeth ymhellach i ffwrdd o'r lefel leol, yn mynd i ddatrys na symleiddio unrhyw beth. Y gwirionedd yw bod hyn am ychwanegu haen o fiwrocratiaeth a chymhlethdod, a drwy hynny gall ond effeithio'n negyddol ar unigolion yn lleol.

4.4.4 Drwy sefydlu corff rhanbarthol arall fel corff cyfreithiol ar wahân, fel y nodir yn y Papur Gwyn, byddai hyn yn arwain at erydiad pellach mewn democratiaeth leol. Mae corff o'r fath y. mynd i fod angen ei drefniadau a fframwaith llywodraethu penodol fydd yn ychwanegu at gost rhedeg a biwocraziaeth. Mae'n deg nodi hefyd fod hyn yn ychwanegol at sefydlu CBC's sydd eisoes yn ymddnagos yn feichus ac y awgrymu y bydd ystod o drefniadau rhanbarthol ad- hoc yn bodoli.

4.4.5 Nid oes chwaith digon, os o gwbl, o groesgyfeirio at yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn Cymru iachach. Mae sôn yn y ddogfen am wella'r system iechyd a gofal ynghyd â gweithio fel un, a hynny drwy integreiddio'n lleol, yn ogystal â cheisio canolbwyntio ar y materion sydd y tu ôl i iechyd a llesiant unigolion. Ond eto mae'r Papur Gwyn yn ymddangos yn anwybyddu hyn ac yn gweld rhanbartholi fel yr ateb i symleiddio gwaith ac i gynaliadwyedd y sector gofal.

4.4.6 Fel Cyngor, rydym wedi bod yn gweithio'n integredig ar lefel leol ers rhai blynyddoedd bellach, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector. Enghraifft dda o'r gweithio integredig hwn yw ein timau adnoddau cymunedol, sydd yn cael ei gyfeirio yn lleol gennym weithiau fel ein "prosiect Alltwen" neu "brosiect Ffordd Gwynedd".

Yn y gwaith hwn, mae gennym wybodaeth ac adborth sydd yn dystiolaeth gref bod integreiddio yn lleol yn gweithio, a hynny o ran sut mae canlyniadau i bobl yn gwella. Mae ein profiad yn dangos yn glir mai ar y lefel leol yma mae integreiddio yn gweithio orau.

Yn ogystal, ar y lefel yma mae modd symleiddio prosesau gwaith ac osgoi rhwystrau gan arwain yn y pendraw at wasanaeth gwell i'r unigolyn.

4.4.7 Mae'r ffaith bod gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Papur Gwyn yn cael eu gweld fel cefnogaeth i'w prynu yn unig hefyd yn ffordd draddodiadol o ystyried y sector erbyn hyn.

Rydym ers blynyddoedd bellach yn ceisio dod â'n darpariaethau gofal ni yng Ngwynedd yn rhan o'r arlwy o gefnogaeth y mae unigolion ei angen, gan geisio cynnwys darparwyr yn y gefnogaeth ar lefel leol iawn. Drwy geisio creu cyfundrefn ranbarthol a chronni adnoddau yn rhanbarthol bydd y gwaith gwych yma yn cael ei golli.

Ar ben y ffaith y byddai hyn yn gam sylweddol yn ôl, byddai'r cyfundrefnau rhanbarthol hyn yn debygol iawn o fod yn ddruwfawr i'w rhedeg a'u gweinyddu, a byddai'n llawer gwell gennym fel Cyngor i'r arian hynny cael ei wario ar ein trigolion yn hytrach nag ar gyfundrefnau rhanbarthol trwsogl.

4.4.8 Er bod cyfeiriad yn y Papur Gwyn at y maes plant, rydym yn tybio bod y cynigion yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r maes oedolion yn unig ac, unwaith eto, mae diffyg dealltwriaeth mai yn lleol y mae'r datrysiadau a'r gwaith o weithio'n integredig yn mynd i lwyddo ar gyfer y maes plant yn ogystal.

- 4.4.9 Nid ydym yn cytuno bod gweithio fwy fyth yn rhanbarthol yn y maes iechyd a gofal yn mynd i roi'r canlyniadau sydd wedi eu gosod allan o fewn y weledigaeth.

Mae ein profiad yn lleol yn dangos yn glir mai canolbwyntio ar weithio'n lleol sydd ei angen, ac mae'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn y gogledd wedi rhannu ei hun yn rhannau llai, er mwyn gweithredu'n fwy effeithiol, yn dystiolaeth gref iawn o hyn.

- 4.4.10 Mae sôn yn y Papur Gwyn bod angen cyflogau teg i ddarparwyr gofal, a chytunwn yn llwyr gyda hyn, ond mae diffyg mawr o fewn y Papur Gwyn sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

Yn sicr ni fyddai cronni cyllidebau yn rhanbarthol yn cyflawni hyn ac mae angen deall yn fwy sut y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu'n briodol fel bod modd i hyn ddigwydd. Mae angen llawer fwy o fanylder ac esboniad am sut y byddwn yn ariannu'r cyflogau hyn.

- 4.4.11 Ni welwn unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn y cynigion o fewn y Papur Gwyn, sy'n tansilio ymdrechion cadarn fframwaith strategol Mwy na Geiriau gan Lywodraeth Cymru i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg i gleifion mewn gosodiadau gofal fel rhan annatod o'r gofal a ddarperir iddynt. Mae hyn yn bryder i ni fel Cyngor, yn enwedig o ystyried demograffeg Gymraeg ein sir. Gall gweithredu'n rhanbarthol danseilio llawer o'r gwaith sydd yn digwydd yn lleol o ran ymateb i'r gofynion ieithyddol lleol.

- 4.4.12 Mae gennym bryderon mawr am sawl agwedd o fewn y Papur Gwyn hwn, ac nid ydym yn fodlon cefnogi'r cynigion. Ar yr olwg gyntaf, mae'n hawdd darllen y weledigaeth a chymryd yn ganiataol bod y Llywodraeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond, mewn gwirionedd mae'r cynnwys manwl yn ein symud ymhellach oddi wrth ein gweledigaeth ni yma yng Ngwynedd i integreiddio mwy yn lleol ac i fod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i unigolion.

- 4.5 Felly rydym am ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried ein sylwadau, o ran ein hymateb cyffredinol a hefyd ein hymateb i'r cwestiynau gosod, yn ofalus ac i ailystyried y bwriadau o fewn y Papur Gwyn.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1 Gofynnir i Gyngor Gwynedd gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 6 Ebrill 2021.

6. Barn y Swyddogion Statudol:

i) Y Swyddog Monitro:

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r Papur Gwyn yn cynnig datrysiadau sydd ar y naill llaw i'w coresawu ond gyda elfenau sydd yn codi cwestiynau eithaf sylfaneol am eu amcan a chyfeiriad.

ii) Y Pennaeth Cyllid:

Rwy'n cytuno gydag awduron yr adroddiad 'ymateb' yma fod peryglon gyda'r cynigion sy'n y Papur Gwyn i gyd-gomisiynu yn rhanbarthol ar draws ieuchyd a gofal. Byddai anfanteision maint a risg o ddyblygu costau rheolaethol gyda "sefydliad rhanbarthol" rhy fawr yn symud trefniadau ymhellach i ffwrdd o'r lefel leol.

Ymhellach, gyda "chronfeydd cyfun" rhanbarthol (geiriau sy'n ymddangos droeon yn y Papur Gwyn), daw risg o diffyg atebolrwydd am wariant sylweddol iawn, a tebygolrwydd o fethu rheoli'n ariannol drwy 'gam-briodoli costau'. Byddai'n llawer haws cadw rheolaeth ariannol wrth weithio'n integredig ar lefel leol, felly rwy'n argyhoeddedig byddai gorfodi cronfeydd cyfun rhanbarthol yn wrth gynhyrchiol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn: Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Byddai cymhlethdod mewn unrhyw wasanaeth yn debygol o lesteirio gwella gwasanaethau, ond credwn fod ychwanegu haen ychwanegol ar lefel rhanbarthol, a drwy wneud hynny mynd yn bellach o'r unigolyn, yn sicr o ychwanegu cymhlethdod nid ei leihau.

Nid yw bob amser yn hawdd osgoi cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol, o ganlyniad i bolisiâu, gweithdrefnau a phrosesau. Wedi dweud hynny, mae gennym le i symleiddio rhai agweddau ar waith y sector er mwyn gwella gwasanaethau i'n cleifion, er enghraifft drwy weithio'n integredig ac ar lefel mwy lleol.

Mae'r Papur Gwyn yn dadlau bod trefniadaeth gyfredol y sector yn gymhleth, ond credwn y byddai'r newidiadau a gynigir yn ychwanegu haenau o gymhlethdod yn ddiangen drwy symud y penderfyniadau sy'n bwysig i'n hunigolion ymhellach i ffwrdd drwy eu cyflwyno ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol.

O ganlyniad, buasem hefyd yn symud i ffwrdd o fod yn gwneud be sy'n bwysig i'r unigolyn a'u rhoi yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae Cymru lachach yn pwysleisio'r angen i fod yn gwneud hyn, ac mae'r Papur Gwyn yn dadwneud y gwaith yma drwy ranbartholi gwaith.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Ers rhai blynyddoedd bellach yng Ngwynedd rydym wedi adnabod yr angen i weithio yn llawer agosach gyda'n darparwyr gofal, boed nhw yn allanol neu yn fewnol, o ran cynllunio gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion. Felly yn hynny o beth rydym yn ceisio symud i ffwrdd o drefniadau traddodiadol caffael yn barod ar gyfer y maes gofal. Byddai'r cynigion gerbron yn debygol o lesteirio'r newidiadau cyffrous arloesol sydd ar waith gennym.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Mae angen cymryd i ystyriaeth gwahanol ranbarthau o fewn Cymru, gan roi sylw i'r ffaith bod rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys llawer o wahanol ardaloedd gyda gwahanol anghenion i'w gilydd.

Llywodraeth Cymru sydd wedi gosod dyluniad a strwythur Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac nid yw anghenion rhanbarth Gogledd Cymru bob amser yn cael ei

ystyried o fewn hyn, gan olygu bod gwneud penderfyniadau a chynnal trafodaethau ar lefel ranbarthol yn gallu bod yn anodd ar adegau, o ystyried maint y rhanbarth.

Gyda'r dyluniad a'r strwythur cywir, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu bod yn gryfder i rwydweithio ac i gyflawni ar rhai materion penodol iawn, ond byddai trefniadau partneriaethol mwy lleol yn fwy tebygol o roi canlyniadau gwell i bobl Gwunedd na threfniadau rhanbarthol.

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Rydym yn croesawu'r angen i gael gwell ffocws ar ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyn yn gosod bwriad clir sy'n amlgu'r modd y bydd y maes gofal yn cael ei ariannu yn y dyfodol. Awgrymir y dylid cronni cyllidebau yn rhanbarthol, ond mae'n anodd gweld sut y byddai hyn yn gwella gwasanaethau ar lefel leol, ac yn wir mae'n fwy tebygol o greu cymhlethdodau fyddai'n dirywio ansawdd.

Byddai fframwaith cenedlaethol o fudd i ni mae'n debyg ar faterion lle mae angen ymyrraeth genedlaethol - e.e. pe byddai'n cynnwys telerau ac amodau gwell o ran ffioedd i staff sy'n gweithio yn y sector gofal, ynghyd ag ymrwymiad i ariannu yn deg fel bod modd i awdurdodau lleol wneud hyn.

Ond nid oes modd i ni ragweld a fyddai fframwaith cenedlaethol o'r fath o fudd i ni ar lefel leol hyd nes y gwyddom beth sy'n cael ei gynnwys ynddo, a sut y bydd yn cael ei weithredu. Mae angen llawer fwy o fanylder mewn gwirionedd cyn gallu ymateb i'r cwestiwn yma yn iawn.

Cwestiwn 4a: - Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?

Unwaith eto heb gael mwy o fanylder mae'n anodd rhoi ymateb cynhwysfawr, ond yn gyffredinol, mae'n bwysig bod anghenion ein poblogaeth yn lleol, o fewn ardaloedd penodol y sir yn cael eu hadnabod a bod hynny wedyn yn bwydo mewn i gomisiynu ar lefel lleol lle'n bosib. Os oes materion, oherwydd niferoedd neu ofynion arbenigedd, angen ymateb ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, byddai bosib wedyn cynnal y trafodaethau ar y lefel honno.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai modd bod yn gliriach o ran be mae'r Llywodraeth yn weld yw'r broblem ar hyn o bryd, gan wedyn amlgu sut maent yn gweld fframwaith cenedlaethol yn ei datrys. Mae diffyg gwybodaeth a manylder o fewn y Papur Gwyn i alluogi ymateb synhwyrol.

Mae gwaith da wedi bod yn digwydd ar lefel leol a rhanbarthol o ran trefniadau comisiynu a darparu yma yn y Gogledd. Mae gofal a chymorth yn rhywbeth personol iawn i bob unigolyn, ac rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion i weithio i ddarparu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn fel eu bod yn gallu byw eu bywydau fel y dymunant.

Nid ydym yn sicr faint fyddai fframwaith cenedlaethol yn ei ychwanegu at y trefniadau sydd gennym ar waith eisoes, nid ydym yn awyddus i ddyblygu gwaith na chreu mwy o waith i'n hunain.

Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?

Nid ydym yn cytuno y dylai gofal iechyd parhaus gael ei gadael allan o unrhyw ystyriaeth. I'r unigolyn mae sawl pryder a rhwystr yn cael ei brofi o fod yn cadw'r trefniadau gofal iechyd parhaus ar wahân i drefniadau gofal. Mae cyfle yma i'r Papur Gwyn fynd i'r afael gyda'r rhwystrau hyn o ran profiad cleifion.

Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?

Mae'n anodd, os nad amhosib, ateb y cwestiwn yma heb fwy o fanylder.

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

Mae'n anodd iawn ateb y cwestiwn heb fwy o fanylder a gyda mwy o dystiolaeth o ran pam mae angen Swyddfa Genedlaethol.

Mae nifer o grwpiau cenedlaethol yn bodoli eisoes, ond nid yw'n glir pa fuddion fyddai'n deillio o'u cyfuno drwy greu swyddfa genedlaethol. Eto, mae'n rhaid gofyn y cwestiwn a fyddai hyn yn dyblygu neu'n creu mwy o waith.

Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai?

Gweler yr ymateb uchod

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

Ar sail y cyfrifoldebau presennol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, nid oes angen i'r byrddau fod yn endidau cyfreithiol corfforaethol.

Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Nid oes angen cryfhau integreiddio'n rhanbarthol gan fod hyn eisoes yn digwydd, ac yn gweithio'n llwyddiannus, ar lefel leol.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Mae cael y wybodaeth hon i law ar lefel lleol yn bwysig er mwyn ein helpu i lunio gwasanaethau'n well, gan addasu yn ôl yr angen.

Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Byddai sicrhau bod y cynllunio yma yn digwydd ar lefel lleol iawn ac yn rhan o gynllunio naturiol cymunedol - o fewn clystyrau cymunedol yn fuddiol. Mae angen sicrhau bod y gwaith ataliol o fewn cymuned a gwydnwch cymunedol yn rhan allweddol o gynllunio fewn y maes iechyd a gofal. Gwelwyd hyn yn glir gyda'r ffordd y bu i ni ymateb i argyfwng Covid - gan weithio mewn gwirionedd hyd yn oed mwy fyth ar lefel lleol. Bu i'r gwaith rhanbarthol oedi ac yn naturiol bu i arweinwyr edrych ar eu rhwydweithiau lleol er mwyn ymateb. Mae angen adlewyrchu ar hyn o fewn y Papur Gwyn.

Cwestiwn 9: A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Oes. Mae angen meddwl am ffyrdd gwahanol o ddatrys yr heriau sy'n ein hwynebu yn y maes. Mae Cymru lachach yn mynd i'r afael â'r heriau hyn mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon, felly credwn y dylid dilyn yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys ynddo, yn hytrach na dilyn cyfeiriad y Papur Gwyn.

Mae'r Papur Gwyn mewn perygl o ddadwneud llawer o'r gwaith da sydd wedi bod yn digwydd yn lleol yn y maes i ddarparu gofal o ansawdd da yn ôl anghenion yr unigolion.

Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?

Rydym yn barod iawn i drafod ymhellach fel Cyngor gyda chi er mwyn dangos y dystiolaeth sydd gennym o ran integreiddio a gweithio yn lleol gan ddwyn ein darpariaethau gofal i mewn fwy fyth i'r datrysiadau ar lefel lleol.

Cwestiwn 10: Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Byddai'n costio'n ddrud i sefydlu'r pethau hyn, a byddai hyn ar draul arian y gallwn ei wario yn rhywle arall er budd y cleifion, e.e. ar ddarpariaethau, adnoddau neu staff. Nid yw'n glir beth yw'r budd o sefydlu'r cyrff cenedlaethol a rhanbarthol hyn ond byddai defnyddio'r arian ar wella darpariaethau uniongyrchol i unigolion a chyflogau staff gofal yn gwneud fwy o wahaniaeth yn sicr.

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Gweler ymateb uchod.

Cwestiwn 11: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Nid oes unrhyw sôn am y Gymraeg na'r effaith ar yr iaith yn y Papur Gwyn, felly mae hyn yn codi pryder mawr nad oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei roi i'r effaith y byddai'r newidiadau hyn yn ei chael arni.

Mae fframwaith Mwy na Geiriau yn golygu bod angen i gleifion dderbyn gwasanaeth yn yr iaith maen nhw'n dymuno ei gael, heb orfod gofyn. Byddem yn gobeithio na fyddai unrhyw newid i'r disgwyliad hwn, ac y byddai'r fframwaith yn cael ei gryfhau ymhellach gyda dyfodiad unrhyw newidiadau.

Cwestiwn 12: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eto, mae hyn yn debygol o fod yn anodd ei gyflawni o ystyried demograffeg ranbarthol Gogledd Cymru. Mae'n ardal fawr gydag anghenion ieithyddol amrywiol felly byddai'n anodd cael polisi fyddai'n addas i bob ardal.

Rhif: WG41756



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Papur Gwyn

Ailgydbwysu gofal a chymorth

Ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well.

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2021
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 06 Ebrill 2021

Trosolwg Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i wireddu'r weledigaeth a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r cynigion yn cynnwys gosod fframwaith cenedlaethol clir i gefnogi gwasanaethau i gael eu cynllunio'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol, ac ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth.

Bydd eich ymatebion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

Sut i ymateb Dylid defnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein ac anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu yn y post i'r cyfeiriad isod. Rhaid i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gyrraedd erbyn 6 Ebrill 2021 fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae modd gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Dyfodol ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: socialcarefutures@gov.wales

Ar gael yn Saesneg hefyd yn:

<https://gov.wales/consultations>

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	6
Crynodeb Gweithredol	8
Cyflwyniad	11
Trosolwg	11
Y weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol	11
Cynnydd o ran cyflawni'r weledigaeth	14
Y ddadl dros newid	15
Newid yn y boblogaeth ac angen	15
Yr her ariannu	17
Y farchnad gofal a chymorth	18
Comisiynu a chymhlethdod	19
Cynaliadwyedd y gweithlu	21
Plant	23
Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio	24
Atal	26
Gwersi o rannau eraill o'r DU	27
Cyflawni'r weledigaeth	29
Dyluniad	29
Ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal	29
Ailgyfeirio arferion comisiynu	31
Datblygiad dulliau integreiddio	32
Ei roi ar waith	34
Sut gallwn ni wneud hynny?	34
Ailgydbwyso'r fframwaith cenedlaethol	35
Cryfhau trefniadaeth ranbarthol	36
Effaith ar gomisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ..	38
Atodiad 1: Crynodeb o'r effeithiau	39
Atodiad 2: Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad	42

Rhagair gan y Gweinidog

Drwy gydol pandemig Covid-19 mae'r sector gofal cymdeithasol wedi delio â lefelau digyffelyb o heriau, gan gefnogi llawer o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae arloesi lleol wedi datblygu'n gyflym ac mae gwasanaethau wedi cydweithio. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn bersonol i bob aelod o'r gweithlu gofal cymdeithasol am ei gyfraniad parhaus i'n cymunedau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo o hyd i'n gweledigaeth o sicrhau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt ac i ofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y deng mlynedd diwethaf, bron, ers ein Papur Gwyn cyntaf ar ofal cymdeithasol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu 2011, sef dechrau ein taith drawsnewidiol. Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁽¹⁾ ei chynhyrchu ar y cyd â'r sector a phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac mae wedi ail-lunio natur y sector. Yn debyg i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁽²⁾, mae'n canolbwyntio ar lesiant, ethos o atal ac ymyrryd yn fuan a'r rheidrwydd i gynhyrchu ar y cyd a gweithio ar draws sectorau. Fe wnaeth *Cymru Iachach – ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* hefyd dorri tir newydd drwy nodi mewn cynllun cenedlaethol un system ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Felly, mae'r Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar sylfeini cadarn. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi rhoi'r system gofal cymdeithasol o dan straen enfawr ac wedi tynnu sylw at ba mor fregus yw'r sector. Mae blynyddoedd o gyni ledled y DU wedi gadael eu hól ar gyllid cyhoeddus, ac mae cyfnod heriol arall o'n blaenau. Dyna pam bod yn rhaid i ni gyflymu ein gwaith trawsnewid i wneud gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy.

Er mwyn bod yn addas ar gyfer y dyfodol, rydym yn cynnig newidiadau deddfwriaethol sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth. Ein bwriad ni yw datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol a fydd yn ail-gydbwyso gofal a chymorth. Bydd llai o gymhlethdodau yn ei sgil a bydd yn sicrhau mai ansawdd yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar lwyddiant yn y farchnad gofal cymdeithasol. Gwyddom fod parhad y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar gyflawni canlyniadau pobl, ac felly y bydd cysylltiad cryf rhwng y fframwaith cenedlaethol a'r camau i gefnogi'r gweithlu.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwmo i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym yn awyddus i'w cefnogi i adeiladu ar eu llwyddiannau i gryfhau integreiddio ledled Cymru. Byddwn yn gwella Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddarparu set fwy manwl o adnoddau iddynt eu defnyddio i gynllunio a darparu gofal a chymorth yn well lle mae gweithredu ar y cyd yn hanfodol er mwyn gwella llesiant pobl.


Wrth amlinellu'r cynigion hyn, hoffwn dawelu meddyliau cynrychiolwyr etholedig lleol fy mod wedi ymrwmo'n gryf i atebolrwydd democrataidd lleol, ac felly i benderfyniadau am wasanaethau lleol gael eu gwneud mor agos ag sy'n bosibl at bobl lleol. Wrth wneud y datganiad clir hwnnw, nid yw'n anghyson tynnu sylw at gymhlethdod y tirlun comisiynu gofal cymdeithasol, nac at fanteision cynllunio a chyflwyno mewn modd integredig yn rhanbarthol.

¹ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) (2014 dccc 4)

² [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (2015 dccc 2)

Rydym yn cydnabod bod pwysau sylweddol ar y sector o ganlyniad i'r pandemig, ond mae'n bwysig edrych i'r dyfodol a sut gallwn ni ailgodi'n gryfach. Nid yw'r cynigion hyn yn ymwneud â newidiadau strwythurol byrdymor, maent yn ymwneud ag atebion hirdymor i wella ein system a sicrhau gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru sy'n cefnogi pobl i sicrhau llesiant. Credwn y bydd ein cynigion yn darparu sylfaen well ar gyfer gwella'r sector gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys drwy gefnogi'r gweithlu.

Croesawaf eich barn am ein cynigion, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gofal cymdeithasol gwell yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Julie Morgan". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie Morgan, AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Adeg cyhoeddi'r Papur Gwyn hwn, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu heriau enfawr bob dydd oherwydd Covid-19. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ba mor fregus yw'r sector. Felly, mae sut gallwn ni, fel sector gofal cymdeithasol, ailgodi'n gryfach yn ei sgil, yn gyfle ac yn rheidrydd.

Mae gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁽³⁾, sy'n ddeddfwriaeth allweddol, gefnogaeth unfrydol ar draws y sector. Mae *Cymru Iachach*⁴ yn dal i fod yn ganolog i'n gweledigaeth o system iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae ein holl waith fel llywodraeth yn cael ei lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Fodd bynnag, nid yw'r disgrifiad yn natganiad llesiant y gwasanaethau cymdeithasol, o'r canlyniadau y dylai pobl eu profi gyda chefnogaeth gwasanaethau gofal a chymorth, yn union yr un fath â phrofiad pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalmwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae amrywiaeth o ffactorau amgylcheddol a ffactorau system yn cynnig esboniadau ar gyfer hyn.

Dadansoddi

Mae angen cynyddol am ofal a chymorth ym mhob grŵp o'r boblogaeth. Mae hyn yn ymwneud â'r her sylfaenol fwyaf sef cyllid y sector. Mae blynyddoedd o gyni wedi gadael eu hôl ar gyllid cyhoeddus, ac mae effaith Covid-19 yn creu cyfnod heriol arall. Mae Grŵp Rhyngweinidogol Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn edrych ar opsiynau ar gyfer darparu adnoddau yn y dyfodol i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion fel rhan o'r pecyn cyllid sydd ar gael ar gyfer addewid gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd angen bodloni goblygiadau ariannol yn y dyfodol o fewn y setliadau a bennir yn y dyfodol gan rowndiau cyllideb y dyfodol, a bydd pob llywodraeth yn wynebu penderfyniadau anodd yn wyneb rhagolygon cyllideb tynn iawn.

Cymhlethdod yw prif nodwedd y tirlun gofal a chymorth. Darperir gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy farchnad o dros 1,000 o ddarparwyr, yn bennaf o'r sector annibynnol, sy'n aml yn cystadlu am yr un contractau. Caiff gofal a chymorth i bobl eu comisiynu drwy awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol neu'n uniongyrchol ganddynt eu hunain. Cânt eu cyllido drwy lywodraeth genedlaethol a lleol a thrwy ffioedd a thaliadau y gall pobl eu talu i'w hawdurdod lleol neu'n uniongyrchol i ddarparwr gofal.

Yng nghyd-destun system ddarniog, mae'n hanfodol bod partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd. Mae tystiolaeth o arfer da yma, ond yn yr un modd mae pryderon ynghylch cynnydd integreiddio. Nid oes llawer o le i sefydliadau gwerth cymdeithasol, a fawr iawn o ddata sy'n cael eu rhannu fel sail ar gyfer dysgu ar draws y system. Dyma'r system sydd gennym, yn hytrach na'r system a fyddai'n cael ei chynllunio drwy ddewis.

Dyluniad

³ [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) (2016 dccc 2)

⁴ [Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol](#)

Mae tri maes allweddol yn dod i'r amlwg yn sgil y ddadl dros newid, lle mae angen gweithredu'n benodol i sicrhau gwelliant:

- ail-ganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal - symud oddi wrth y pris ac at ansawdd a gwerth;
- ailgyfeirio arferion comisiynu – tuag at reoli'r farchnad a chanolbwyntio ar ganlyniadau; a
- datblygiad dulliau integreiddio – symleiddio cynllunio a darparu ar y cyd.

Drwy weithredu yn y tri maes hyn, mae'r Papur Gwyn hwn yn ceisio ail-gydbwyso'r farchnad gofal a chymorth ar sail fframwaith cenedlaethol clir lle caiff gwasanaethau eu trefnu'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol. Wrth wneud hynny ein nod yw ailgydbwyso gofal cymdeithasol fel nad oes gorddibyniaeth ar y sector preifat, na monopoli i'r cyfeiriad arall. Mae'r papur Gwyn hwn yn diffinio 'ailgydbwyso' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.

Ystyr ailgydbwyso yw...

...Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.

Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol.

Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad.

Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau.

Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi defnyddio fframweithiau arweiniol sy'n pwysleisio persbectif hirdymor, pwysigrwydd cydweithio a chwilio am gyfleoedd i leihau cymhlethdod.

Trosolwg o'r cynigion

Bydd fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i blant ac oedolion yn cael ei ddatblygu i ail-gydbwyso'r farchnad gyda'r nod o wella ansawdd. Bydd y fframwaith cenedlaethol yn pennu methodolegau ffioedd, yn datblygu prosesau comisiynu mwy safonol, ac yn gwella tryloywder perfformiad gwasanaethau. Rhaid i fethodolegau ffioedd fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu ffactorau gan gynnwys maint a lleoliad ac adnoddau ar gyfer darparwyr ar wahanol gamau yn eu cylch busnes eu hunain. Gall y fframwaith fod yn llwyfan ar gyfer gweithredu argymhellion y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol mewn perthynas â gwell telerau ac amodau ar draws y sector yng Nghymru.

Dylid sefydlu 'swyddfa genedlaethol' ar gyfer gofal cymdeithasol i ddatblygu a chyflwyno'r fframwaith cenedlaethol. Gall hyn fod naill ai drwy ddatblygu swyddogaeth o fewn y llywodraeth, neu drwy sefydlu corff bach hyd braich yn Llywodraeth Cymru. Yn y

ddau opsiwn, bydd trefniadau llywodraethu yn sicrhau ymgysylltiad llawn ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill.

Bydd y swyddfa genedlaethol yn cadw golwg gyffredinol ar sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gofal a chymorth, ac yn sail ar gyfer sbarduno mentrau polisi cenedlaethol. Bydd yn atgyfnerthu gweithgarwch rhai fforymau cenedlaethol, gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu sy'n gyfrifol am helpu i wella gwasanaethau yng Nghymru. Ar wahân i hynny, bydd cyfeiriad cenedlaethol yn cael ei gryfhau drwy sefydlu llais proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol ar lefel genedlaethol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd swyddogaethau comisiynu awdurdodau lleol yn parhau i fod yn atebol yn lleol. Yn seiliedig ar y cynigion yn y papur hwn, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn dyfodol yn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, gan sicrhau bod ei fethodolegau'n cael eu defnyddio'n llawn ac yn deg.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael set fwy manwl o adnoddau i'w defnyddio i gyflawni eu nodau craidd o asesu a chynllunio ar y cyd ar gyfer anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn ymateb i adolygiadau allanol, ac i'r adborth gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch sut gall ffurf bresennol y trefniadau partneriaeth hyn weithiau gyfyngu ar eu gallu i weithredu ar y cyd ac mewn modd pendant. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylid sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol. Byddai disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u hail-lunio, sy'n gyfrifol am gyflogi staff a dal cyllidebau, gomisiynu cryn dipyn o wasanaethau ar y cyd a llunio'r farchnad yn fwy cyfarwyddol.

Bydd y trefniadau cynllunio ac adrodd presennol yn cael eu cyfnerthu, a bydd y trefniadau hyn yn sail well i ddangos atebolrwydd i bartneriaid lleol a rhanbarthol, yn ogystal â Gweinidogion Cymru o ran unrhyw adnoddau cenedlaethol a ddyrennir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Casgliad

Bydd y cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn yn cryfhau trefniadau'r sector gofal cymdeithasol ac yn gwella ansawdd gofal. Maent yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r gwendidau yn y farchnad ar gyfer gofal a chymorth, a chyfyngiadau mewn strwythurau partneriaeth cyfredol.

Bydd y cynigion yn lleihau cymhlethdod, yn cynyddu cynaliadwyedd ac yn cryfhau integreiddio. Byddant yn arwain at fwy o dryloywder yn hytrach na chuddio atebolrwydd lleol.

Gall y newidiadau a gynigir ail-gydbwyso'r darpariaeth gofal a chymorth yn sylweddol. Mae'r ffocws ar sut caiff y system ei threfnu, ond y diben clir yw gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol drwy wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Cyflwyniad

Trosolwg

Mae gofal cymdeithasol yn helpu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, fel pobl hŷn, plant sydd ag anghenion corfforol neu gymdeithasol, pobl anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gallai gofal a chymorth olygu cefnogi pobl i gyfathrebu, amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, helpu i gynnal neu ddatblygu perthynas deuluol neu berthynas bersonol arwyddocaol arall neu helpu gyda bywyd bob dydd (ee mynd i mewn ac allan o'r gwely, coginio a golchi dillad).

Rhaid galluogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt i ddefnyddio eu cryfderau i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a rhaid iddynt gael gwir lais a rheolaeth dros eu bywydau, er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad llawn at y gymuned a'i defnyddio i gael cymorth. Mae atal wrth wraidd y dull hwn o weithredu ac er mwyn atal, rhaid cael dull gweithredu system gyfan gyda phwyslais ar wella, llesiant, cydgynhyrchu, atal ac ymyrryd yn fuan, a phwyslais ar ddefnyddio technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg, mewn modd effeithiol.

Mae trefnu, paratoi a darparu gofal cymdeithasol yn gymhleth. Dyna oedd yr achos cyn Covid-19, ond mae'r pandemig wedi ail-gadarnhau pa mor fregus yw rhai rhannau o'r sector, er enghraifft ar draws gofal cartref a gofal preswyl. Mae hefyd wedi dangos sut gallwn fynd i'r afael â chymhlethdod diangen gyda'n gilydd er mwyn canolbwyntio mwy ar ansawdd a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnig bod angen cryfhau ac aildrefnu'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r amrywiaeth o heriau sy'n wynebu'r sector, ac er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Yr heriau hyn yw'r sail resymegol sylfaenol i'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn, a fydd yn darparu sylfaen well ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol.

Y weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae bron i ddeng mlynedd ers i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru '*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*' nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol yng Nghymru a nodi dechrau taith drawsnewidiol. Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 eu cydgynhyrchu gyda'r sector a'r bobl yng Nghymru.

Mae'r ddeddfwriaeth bwysig hon yn ymgorffori gweledigaeth ac egwyddorion craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, gan adeiladu ar gryfderau pobl i'w cefnogi i sicrhau llesiant ac mae hyn yn dal yn iawn ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. I bobl hŷn, mae hyn yn golygu byw bywydau hirach, iachach a hapusach a pharhau i fod yn egniol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. I oedolion, mae hyn yn golygu gallu arfer rheolaeth dros eu bywydau a chymryd rhan mewn gwaith a gweithgareddau eraill sy'n bwysig iddynt. I blant a theuluoedd, mae hyn yn golygu cael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, lle bo hynny er budd y plentyn.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn cynnwys diffiniad o lesiant. Ystyr "Llesiant" o ran unigolyn, yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol—

- a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol;
- b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- c) addysg, hyfforddiant a hamdden;
- d) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- e) cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- f) sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- g) llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- h) addasrwydd llety preswyl.

O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- b) "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989.

O ran oedolyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—

- a) rheolaeth ar fywyd pob dydd;
- b) cymryd rhan mewn gwaith.

Datblygwyd y diffiniad hwn ymhellach drwy ddatganiad llesiant y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofaluwr y mae angen cymorth arnynt⁵. Mae'r datganiad yn nodi beth mae llesiant yn ei olygu i bobl. Mae hyn yn ymwneud â rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn.

Nodir egwyddorion craidd y weledigaeth fel dyletswyddau cyffredinol yn adran 6 y Ddeddf, sef:

- i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny;
- rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn;
- rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cymorth priodol er mwyn galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno i'r graddau sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, yn enwedig pan fo gallu'r unigolyn i gyfathrebu wedi ei gyfyngu am unrhyw reswm;
- rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith).

Yn benodol mewn perthynas ag oedolion, y rhain yw:

- rhoi sylw i bwysigrwydd dechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn;
- pwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl.

Yn benodol mewn perthynas â phlant, y rhain yw:

- rhoi sylw i bwysigrwydd hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn,

⁵ [Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth](#)

- pan fo'r plentyn o dan 16 oed, canfod barn, dymuniadau a theimladau'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a rhoi sylw i'r farn honno, y dymuniadau hynny a'r teimladau hynny, i'r graddau y mae gwneud hynny a) yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn, a (b) yn rhesymol ymarferol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i hawliau ac mae wedi rhoi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn Adran 7 y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 y Ddeddf.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru⁶ wedi nodi bod heneiddio a byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio yn rhywbeth y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei brofi. Felly, mae gwella'r profiad hwn o fudd i bob un ohonom, a rhaid i ni barhau i sicrhau bod hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu diogelu, nawr ac yn y dyfodol. Rhaid i hawliau pobl fod wrth galon gweithredu a phenderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn ein cartrefi gofal, yn y system gofal cymdeithasol ehangach ac yn ein cymunedau⁷. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i greu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at fynd yn hŷn. Nod y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio⁸ yw creu Cymru sydd o blaid pobl hŷn sy'n cynnal hawliau pobl hŷn ac yn hyrwyddo undod rhwng y cenedlaethau.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig drwy gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn ymgorffori ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r protocolau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae prif ddyletswydd y Mesur, o dan adran 1, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod yn rhaid i bob plentyn – heb wahaniaethu o unrhyw fath – gael ei hawliau dynol wedi'u hamddiffyn. Rhaid i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant y mae angen gofal a chymorth arnynt, plant sy'n ofalwyr y mae angen cymorth arnynt ac unigolion y cyflawnir swyddogaethau mewn perthynas â hwy o dan Ran 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf, am y tro cyntaf, yn rhoi yr un hawliau i ofalwyr â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt drwy ymestyn eu hawl i gael asesiad am gymorth. Mae'r ddyletswydd i asesu yn gymwys beth bynnag yw barn yr awdurdod am lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y gofalwr neu'r adnoddau ariannol sydd ganddo neu ganddi neu adnoddau ariannol yr unigolyn sydd angen gofal. Rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyflawni o ran ei hunan ac i ba raddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu ddarparu gwybodaeth,

⁶ [Strategaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2019-22 – Gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i heneiddio](#)

⁷ [Datganiad ar y Cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru](#)

⁸ [Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn](#)

cyngor neu gymorth helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr⁹.

Cynnydd o ran cyflawni'r weledigaeth

Mae ymddygiad y rheini sy'n darparu gwasanaethau yn effeithio ar ansawdd profiad pobl o ofal a chymorth, ee, cynhesrwydd, caredigrwydd, empathi, parch, diffuantrwydd a chariad¹⁰. Ym mis Medi 2020, roedd 75 y cant o'r bobl a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru¹¹ yn cytuno bod y gofal a'r cymorth a gawsant wedi gwella ansawdd eu bywyd.

Ochr yn ochr â'r darlun cadarnhaol hwn, rydym yn gwybod bod y cynnydd o ran cyflawni gweledigaeth y Ddeddf yn gallu bod yn anghyson. Er enghraifft, dywedodd yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal¹² fod rhai plant, pobl ifanc a theuluoedd yn dweud nad ydynt yn cael cynnig y cymorth cynnar y maent am ei gael i atal problemau rhag gwaethygu. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o farn dinasyddion¹³ fod llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen iddynt frwydro am wasanaethau, a bod disgwyl y byddant yn derbyn ac yn cyd-fynd â pha gymorth bynnag a roddir iddynt. Roedd gofalwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael llawer mwy o brofiadau 'negyddol' neu 'negyddol iawn' na'r rheini sy'n derbyn gofal a chymorth.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dal yn gymharol newydd, ac mae ei gweithredu'n cynnwys symud at ffordd newydd o weithio i gefnogi pobl i sicrhau llesiant yn parhau i fod yn daith. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o ganfyddiadau'r Ddeddf yn awgrymu bod ethos ac egwyddorion y Ddeddf yn cael eu cefnogi a'u bod wedi arwain at newid go iawn mewn gofal cymdeithasol, hyd yn oed er gwaethaf cyni, ond ystyrir mai proses barhaus yw hyn o hyd. O ystyried yr amrywiadau ym mhrofiadau pobl, yr heriau sy'n wynebu'r sector, fel y disgrifir yn adran y ddadl dros newid yn y papur hwn, ac wrth feddwl am effaith pandemig Covid-19, mae nawr yn amser pwysig i bwysio a mesur a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

⁹ [Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr](#)

¹⁰ [Blog The King's Fund - Quality in social care: we need an ear for stories as well as an eye for data](#)

¹¹ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau](#)

¹² [Care Crisis Review- A sector-led Review of the rise in applications for care orders and the number of children in care](#)

¹³ [Mesur y Mynydd - ein canfyddiadau](#)

Y ddadl dros newid

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu partneriaeth rhwng academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru a chynghorwyr arbenigol i gyflawni'r gwaith o'r Ddeddf. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y ddeddfwriaeth wedi hyrwyddo newid, ac wedi datblygu perthynas awdurdodau lleol gyda phartneriaid allweddol ym maes iechyd, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Bedair blynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, mae cryn dystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnaed. Fodd bynnag, thema allweddol a oedd yn rhedeg drwy gydol y gwerthusiad oedd y cyfeiriad at y gwahaniaeth sydd eto i'w wneud a'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweld fel taith barhaus o newid¹⁴.

Mae'r adran ganlynol yn adeiladu ar y dadansoddiad blaenorol drwy nodi'r heriau pwysig sy'n wynebu gofal a chymorth yng Nghymru yn y cyfnod sydd o'n blaenau. Mae'r 'ddadl dros newid' yn darparu sail ar gyfer y cynigion yn adrannau olaf y Papur Gwyn hwn.

Newid yn y boblogaeth ac angen

Rhagwelir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu mwy na 53 y cant erbyn 2040. Yn yr un modd, bydd y rhai dros 65 oed yn codi i un o bob pedwar o'r boblogaeth cyn 2050. Er na ellir cysylltu'r galw am ofal ffurfiol yn y dyfodol â phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn sydd ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol) yn debygol iawn o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol – er enghraifft, rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol yn dyblu i 53,700 erbyn 2040¹⁵.

Mae'r sector wedi tueddu i ystyried bod rhai cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi bod yn amharod i ymgysylltu â gofal cymdeithasol yn y gorffennol gan fod rhai teuluoedd wedi dewis cefnogi aelodau hŷn o'r teulu eu hunain. Fodd bynnag, dywedir bod mwy o deuluoedd yn dweud na allant gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ac felly disgwylir y bydd angen i lawer mwy o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Nid yw'r data cenedlaethol cyfredol ar gyfer oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth a ddarperir i Lywodraeth Cymru wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal cymdeithasol ar ddatblygu cyfrifiad rheolaidd mwy cynhwysfawr o oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i ysgogi newid mewn diwylliant yn Llywodraeth Cymru, mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ym myd busnes ac mewn cymdeithas yng Nghymru, i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig. Nod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol fydd trawsnewid profiadau a chyfleoedd bywyd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae galluogi mynediad at ddarpariaeth gofal cymdeithasol briodol a sensitif yn ddiwylliannol wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod camau cynnar llunio'r Cynllun ar y cyd. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru

¹⁴ [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

¹⁵ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - adroddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru 2020](#)

ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi datblygu strategaeth gweithlu¹⁶ ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynnwys datblygu cynlluniau recriwtio wedi'u targedu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae nifer y bobl sydd â chyflyrau hirdymor, sy'n cyfyngu ar eu bywydau a chyflyrau cronig yn cynyddu, yn bennaf oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio. Bydd cynnydd o 57% yn nifer y bobl dros 75 oed sydd â salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar eu bywyd erbyn 2035¹⁷. Henaint yw prif achos dallineb a byddardod, ac mae hyn yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth dros 85 oed barhau i dyfu. Yn y DU, mae 29,000 o oedolion ag anabledd dysgu yn byw gyda rhieni sy'n 70 oed neu'n hŷn, ac mae llawer ohonynt yn rhy hen neu fregus i barhau â'u rôl gofalu.

Cynyddodd gwariant awdurdodau lleol lawer mwy dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer gwasanaethau plant na gwasanaethau oedolion, er bod poblogaeth plant yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi codi'n sylweddol. Ers 2003, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 63 y cant. Yn ogystal, mae angen ymyriadau gofal a chymorth mwy costus hefyd i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth teuluoedd, gan gynnwys y rhai lle mae plant a phobl ifanc sy'n anabl neu sydd â salwch cronig difrifol yn byw'n hirach.

Mae mynd i'r afael â'r cynnydd parhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol oes y Llywodraeth hon. Er mwyn helpu i atal y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, gofynnodd y Prif Weinidog am i ddull gweithredu wedi'i dargedu gael ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau gostyngiadau disgwylidig dros gyfnod o 3 blynedd (2019-2021). Fodd bynnag, ers cyflwyno'r cynlluniau hyn, gwelwyd cynnydd pellach gyda chynnydd o 6.9 y cant yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Ar 31 Mawrth 2019, roedd plant sy'n derbyn gofal o'r boblogaeth bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cael eu gorgynrychioli, gan gynrychioli 8.6 y cant o blant sy'n derbyn gofal¹⁸, o'i gymharu â 6.6 y cant o'r holl blant o'r grŵp poblogaeth pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Dylid galluogi gofaluwr i fyw bywyd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu, a thrwy gefnogi gofaluwr gellir lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Caiff yr ystadegau swyddogol diweddaraf ar nifer y gofaluwr yng Nghymru eu hadrodd drwy Gyfrifiad 2011¹⁹. Yn 2011, roedd 370,230 o ofaluwr di-dâl (plant ac oedolion) yn darparu o leiaf awr o ofal di-dâl. O'r rheini, roedd 157,794 yn darparu o leiaf 20 awr o ofal di-dâl. Mae Carers UK wedi nodi cynnydd yn nifer y gofaluwr di-dâl oherwydd pandemig y coronafeirws. Mae gofaluwr di-dâl sy'n darparu lefelau uchel o ofal ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn sâl yn barhaol neu'n anabl eu hunain. Gofal heb dâl yw'r ffnhonnell fwyaf o ofal i oedolion o bell ffordd²⁰.

¹⁶ [Strategaeth 10 mlynedd Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol](#)

¹⁷ [Asesu anghenion y boblogaeth ar gyfer gofal a chymorth yng Nghymru](#)

¹⁸ [Cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, ar 31 Mawrth 2019.](#)

¹⁹ [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – ystadegau swyddogol y farchnad lafur](#)

²⁰ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - adroddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

Yr her ariannu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol yw'r sefyllfa gyllido yng nghyd-destun y galw cynyddol a mwy cymhleth am wasanaethau. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dal i gyfrif am ganran uwch o wariant cyffredinol llywodraeth leol. Mae costau comisiynu a chwyddiant cyflogau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r cynnydd yn y galw ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru²¹.

Mae ansicrwydd ynghylch cyllidebau'r dyfodol. Cafodd Llywodraeth Cymru setliad cyllideb blwyddyn ar gyfer 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllidebau llywodraeth leol £172 miliwn yn 2021-2022 ar sail tebyg am debyg o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol. Gan roi gwariant ychwanegol o'r neilltu oherwydd pandemig Covid-19, roedd y cynllun cyllideb hwn yn cynrychioli cynnydd uwch na chwyddiant o fwy na £400 miliwn mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021-22 i dros £8.7 biliwn. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm grant arbennig uwch o £50 miliwn i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r pwysau ar ofal cymdeithasol a darparu dros £130 miliwn drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Ond hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol hwn, mae'r rhagamcan o'r angen am gyllid ar gyfer y dyfodol yn edrych yn heriol. Bydd angen cwrdd ag unrhyw oblygiadau ariannol yn y dyfodol o fewn y setliadau yn y dyfodol a bennir gan gylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Mae'r Sefydliad Iechyd yn amcangyfrif y bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol yn cynyddu tua 4.1 y cant y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-31, oherwydd demograffeg, cyflyrau iechyd cronig a chostau cynyddol. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i'r gyllideb ddyblu bron erbyn 2030-31 i gyd-fynd â'r galw. Mae'r gyfradd twf hon yn uwch na'r disgwyl ar gyfer y GIG, gan fod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio'n helaeth ar y bobl eiddil oedrannus, yn aml gyda chydafiachedd, a phoblogaeth llawer llai ond sy'n cynyddu (ac yn heneiddio) o bobl ag anabledau dysgu.

Mae dadansoddiad a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru yn dangos gofynion cyllido posibl ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig. Cyflwynodd LE Wales bum senario posibl, gan ragweld gofynion gwariant net hyd at 2022-23. Er ei bod yn anodd rhagweld patrymau gwariant, ers eu cyhoeddi, mae data 2018-19 yn dangos cynnydd blynyddol o 5.7 y cant ar wariant cyfredol net 2017-18, sydd agosaf at amcangyfrif y senario cost uchel. Cafodd y senarios hyn eu rhagweld cyn Covid-19, a gyda chynnydd yn y galw yn sgil y pandemig, mae'n debygol y bydd yr amcanestyniadau disgwyliedig yn amcangyfrif rhy isel.

Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal ('y Grŵp') wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yng nghyd-destun cynigion yr Athro Holtham²² ar gyfer ardoll wedi'i neilltuo i greu cronfa gofal cymdeithasol. Am gyfrannu fel hyn, rhagwelodd y byddai pobl yn cael "addewid gofal cymdeithasol" neu fudd clir o ryw fath. Mae gwaith y Grŵp wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig, ond mae'n mynd rhagddo. Mae'r Grŵp wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer defnyddio unrhyw arian ychwanegol a godir. Roedd hyn yn cynnwys

²¹ [Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol? Llywodraeth leol Cymru a chynni - adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru](#) 2019

²² Talu am ofal cymdeithasol – Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru 2018

yr holl ofal personol a llety am ddim, yn debyg i'r GIG. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd cost gychwynnol hyn yn £700 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn, sydd ymhell y tu hwnt i allu Llywodraeth Cymru i ddarparu. O ganlyniad, mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar ddatblygu opsiynau wedi'u hariannu a allai fod yn gynaliadwy a darparu gofal o ansawdd gwell.

Y farchnad gofal a chymorth

Mae'r ystad gofal yn fawr ac yn amrywiol, yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gyda maint elw bychan a chronfeydd ariannol cyfyngedig. Ar 22 Rhagfyr 2019, roedd 1076 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer oedolion, 229 o wasanaethau cartrefi gofal ar gyfer plant a 570 o wasanaethau cymorth cartref, wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Roedd 23 o'r 570 o wasanaethau cymorth cartref yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol neu fyrddau ieuchyd lleol. Mae'r rhan fwyaf (75 y cant) o gartrefi gofal i bobl hŷn yng Nghymru yn eiddo i un perchennog sy'n berchen ar un cartref gofal neu berchennog sydd â llai na phum cartref gofal. Mae canran llawer llai o gartrefi yn eiddo i ddarparwyr grwpiau mwy (8 y cant)²³.

Mae mwy o oedolion yn derbyn gofal a chymorth gartref lle bynnag y bo modd, yn unol â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn wedi creu lefel o alw sy'n fwy na'r ddarpariaeth gofal cartref sydd ar gael. Yn aml, mae'r rhan fwyaf o'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai wedi bod oherwydd bod pobl yn aros i ddychwelyd i'w cartrefi gyda pheccynau o wasanaethau gofal cartref ar waith.

Mae gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi newid y fframwaith ar gyfer rheoleiddio ac arolygu'r farchnad ofal. Mae rheoliadau newydd wedi'u gwneud sy'n ymwneud â phob un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a restrir yn y Ddeddf honno. Gwnaed y rheoliadau mewn tri cham – mae esboniad o'r rheoliadau (a dolenni perthnasol) ar gael ar hyb gwybodaeth a dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru²⁴.

Pwrpas y rheoliadau hyn a'r AGC yw sicrhau diogelwch gofal a chymorth, i wella pethau er mwyn i bobl allu sicrhau llesiant a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaethau penodol y rheoliadau hyn, ac mae AGC yn gallu cymryd camau yn erbyn darparwyr ac unigolion cyfrifol pan fo angen. Mae'r rheoliadau'n canolbwyntio ar chwe maes allweddol: gwybodaeth, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, diogelu, yr amgylchedd (gan gynnwys adeiladau), staffio a llywodraethu.

Nid yw allyriadau carbon anuniongyrchol gan ddarparwyr gofal a chymorth yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Ond, mae modd gostwng yr allyriadau anuniongyrchol yn sylweddol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn drwy broses gaffael. Gellir datgarboneiddio allyriadau anuniongyrchol drwy gyfrwng disgwyliadau caffael cryf o godi safonau'r holl sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth.

²³ [Adolygiad Cyflym ar gyfer Cartrefi Gofal mewn perthynas â Covid-19 yng Nghymru gan yr Athro John Bolton 2020](#)

²⁴ [Hyb gwybodaeth a dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Comisiynu a chymhlethdod

Defnyddiodd y Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree*²⁵ y term comisiynydd i ddisgrifio'r staff o'r awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ystod a'r math cywir o ofal ar gael i bobl yn eu hardal. Mae comisiynwyr gofal cymdeithasol yn dadansoddi angen, yn cynllunio ac yn dylunio darpariaeth briodol o wasanaethau, yn sicrhau'r ddarpariaeth honno (yn aml ond nid yn gyfan gwbl drwy broses gaffael) ac yn monitro ansawdd a sut mae'r gwasanaethau dan sylw'n cael eu darparu'n barhaus. Mae 29 o brif gomisiynwyr gofal yng Nghymru drwy 22 awdurdod lleol a 7 bwrdd iechyd lleol.

Mae'r Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree* yn disgrifio caffael fel y broses o sicrhau bod pris teg yn cael ei dalu o'r pwrs cyhoeddus ar ran y bobl hynny y mae'r wladwriaeth yn trefnu neu'n darparu gofal ar eu cyfer. Yn bennaf, mae comisiynwyr yng Nghymru yn caffael gwasanaethau ac yn gwneud trefniadau rheoli contractau. Oherwydd cymhlethdod y farchnad, a llai o gapasiti oherwydd cyni, mae'n anodd i gomisiynwyr ddatblygu pob rhan o'r cylch comisiynu, er enghraifft, dylunio, meithrin gallu, rheoli perthnasoedd a dadansoddi. Gwelir hyn gyda gormod o welyau gofal preswyl a bylchau yn y gwasanaeth ledled Cymru, er enghraifft prinder gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig wrth ddarparu gofal nyrsio.

Prin fu'r cynnydd o ran creu sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr a newid cydbwysedd y farchnad drwy gefnogi modelau gofal amgen. Roedd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru 2018²⁶ yn nodi bod gofyn cryfhau'r rôl gomisiynu a'i defnyddio i gymell ail-lunio gwasanaethau iechyd a gofal didor yn lleol gan ganolbwyntio mwy ar gyfrifoldebau iechyd a llesiant. Er bod dulliau aml-asiantaeth arloesol yn cael eu datblygu, mae angen i'r raddfa a'r cyflymder gynyddu er mwyn diwallu anghenion newidiol y boblogaeth.

Er mwyn cefnogi'r sector yn ei rôl gomisiynu, sefydlwyd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r sector ac mae'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu gweledigaeth a gosod cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn:

- Rhoi safbwynt cenedlaethol ar y farchnad gofal a chymorth;
- Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol;
- Annog gweithredu arferion da mewn rhanbarthau; ac yn
- Cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chomisiynu rhanbarthol effeithiol a chyfuno cronfeydd.

Er nad yw'r Bwrdd yn cyfarwyddo nac yn pennu rhaglenni gwaith awdurdodau lleol unigol, byrddau iechyd lleol na Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ei bwrpas yw bod yn llais awdurdodol a mynd ati i hyrwyddo dull gweithredu cydlynol o ran arferion comisiynu a chasglu arferion da ledled Cymru.

Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar ddulliau cydweithredol o gomisiynu drwy rannu asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal (a, phan gânt eu rhoi ar waith,

²⁵ [Lets agree to agree- A toolkit for commissioners and providers to agree the cost of residential and nursing care for older people in Wales, Awst 2018](#)

²⁶ [Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#) 2019

adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad), ychydig o ardaloedd sydd wedi sicrhau dull gwirioneddol o weithio mewn partneriaeth ar draws pob agwedd ar y cylch comisiynu. Hyd yn oed gyda'r consensws a gafwyd drwy'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, nid yw'r Pecyn Cymorth *Let's Agree to Agree*²⁷ wedi sicrhau'r ymrwymiad i'w fabwysiadu ledled Cymru.

Gellir cyfeirio at strwythur presennol y farchnad gofal cymdeithasol i oedolion fel monopsoni – lle mae nifer fach o brynwyr a nifer fawr o ddarparwyr. Awdurdodau lleol yw'r prif brynwyr yn y farchnad gofal cymdeithasol; yng nghyd-destun cyni, mae strwythur y farchnad hon a chyllidebau dan bwysau wedi arwain at ostwng ffioedd a chostau. Mae darparwyr gofal yn aml yn cystadlu yn yr un ardal leol drwy leihau'r costau i ennill contractau. Gan mai'r prif gostau ar gyfer darparwyr yw llafur, mae cyflogau a thelerau ac amodau yn cael eu hystyried fel cost i'w lleihau er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gallu ennill contractau. Mae hyn wedi arwain at bwysau ar i lawr ar gyflogau ac ar delerau ac amodau.

Yn ogystal, mae darnio yn ei gwneud yn llawer anoddach i'r sector chwarae ei ran o safbwynt mabwysiadu arferion amgylcheddol effeithiol yn gyson. Er y gall fod gan ddarparwyr unigol nodau a chynlluniau uchelgeisiol i leihau eu hallyriadau carbon yn sylweddol, mae'n anoddach nodi dull wedi'i ysgogi ar gyfer y sector cyfan.

Mae'r gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf²⁸ yn awgrymu, er bod rhai elfennau cadarnhaol, bod diffygion hefyd yn yr arferion comisiynu. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu ymdeimlad bod ymarfer wedi esblygu fel bod comisiynu ar gyfer egwyddorion a chanlyniadau'r Ddeddf wedi cael ei wireddu, ond fod cryn gynydd eto i'w wneud. Drwy drafodaethau gyda'r sector, y prif fater a nodwyd wrth gomisiynu yn ystod gweithredu'r Ddeddf oedd y diffyg cydlynw rhwng awdurdodau lleol gan arwain at 22 ffordd bendant a gwahanol o wneud pethau.

Yn groes i hynny, gwnaed cynnydd gan Gonsortiw Comisiynu Plant Cymru. Crëwyd y Consortiw yn 2012 ac mae'n cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol sydd wedi dod at ei gilydd i roi sylw i bryderon am y safonau amrywiol sy'n amlwg wrth gomisiynu lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Consortiw yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i baru plant agored i niwed y mae angen gofalu amdanynt â'r lleoliad gorau posibl.

Y weledigaeth yw sicrhau gwell canlyniadau, yn ogystal â gwell gwerth am arian, drwy safonau gofal rhagorol gyda darparwyr dibynadwy sydd â sicrwydd ansawdd, gan fanteisio i'r eithaf ar gontractau safonol, telerau ac amodau, ac arbedion maint prynwyr. Yn ogystal ag arbedion sylweddol o ran costau, mae'r manteision yn cynnwys gwell gwybodaeth reoli, prosesau ac offer cydweithredol cyson a diogel ar draws awdurdodau i hwyluso'r broses o baru unigolion â lleoliadau, dyfarnu contractau a monitro contractau, rheoli risg ar y cyd, a sicrhau ansawdd darparwyr; gostyngiad parhaus mewn prisiau; ac amgylchedd o bartneriaeth gyda'r sector annibynnol i gomisiynu modelau gofal cynaliadwy newydd. Roedd hefyd yn rhesymoli prosesau ar gyfer pob awdurdod sy'n cymryd rhan gan sicrhau proses leoli gyson sy'n addas i'r diben drwy ganolbwyntio ar anghenion y plentyn.

²⁷[Let's agree to agree- A toolkit for commissioners and providers to agree the cost of residential and nursing care for older people in Wales, Awst 2018](#)

²⁸[Mae'r gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf](#)

Mae'r Consortiwm wedi sefydlu fframweithiau gofal cymdeithasol ar gyfer lleoliadau maeth a phreswyl i blant sy'n derbyn gofal a dim ond y rhai sy'n cynnig y lleoliadau gorau a'r gwerth am arian all ddod yn ddarparwyr Fframwaith. Mae'r Fframweithiau hyn yn darparu ateb caffael strategol ar gyfer anghenion lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn y sector annibynnol. Am oes darparwr y contract, mae ansawdd, cost fesul lleoliad, telerau, amodau a manylebau yn cael eu pennu a'u cytuno. Mae hyn wedi cael gwared â'r angen am broses gaffael lawn ar gyfer pob lleoliad ac wedi cael gwared ar opsiynau o brisiau 'manteisgar' a oedd yn bodoli o'r blaen ar gyfer rhai gofynion brys. Roedd hefyd yn rhesymoli prosesau ar gyfer pob awdurdod sy'n cymryd rhan gan sicrhau proses leoli gyson sy'n addas i'r diben drwy ganolbwyntio ar anghenion y plentyn.

Cynaliadwyedd y gweithlu

Mae darparu gofal cymdeithasol yn broses ddwys o ran llafur, a hynny'n briodol, ac mae argaeledd gweithlu medrus yn allweddol yn y gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel²⁹. Mae pobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi dilyniant a pha mor gyfarwydd yw'r bobl sy'n aml yn darparu gofal personol iawn, a'i bod yn bwysig meithrin perthynas gan fod hynny'n gwneud i bobl deimlo'n fwy diogel³⁰. Mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol yn hanfodol ar gyfer gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel ac mae'n bwysig i bawb, yn blant ac yn oedolion.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn heneiddio ac o'r un rhyw. Mae'r rhan fwyaf o staff darparwyr gofal a gomisiynir yn fenywod ac mae dros hanner y gweithlu dros 40 oed³¹. Yn ei ddadansoddiad ar gyfer Cymru a Lloegr, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn nodi bod rhai pobl o leiafrifoedd ethnig penodol yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn rolau gweithwyr hanfodol. Maent yn dangos bod gweithwyr Du Affricanaidd, ledled Cymru a Lloegr, yn llawer mwy tebygol na grwpiau ethnig eraill o gael eu cyflogi fel gweithwyr hanfodol, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae dadansoddiad a baratowyd gan Lywodraeth Cymru³² yn dangos bod dros hanner y gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd yn weithwyr hanfodol, a bod hanner gweithwyr Du, Affricanaidd, Caribiaidd a Du Prydeinig yn gweithio mewn galwedigaethau hanfodol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod cyfradd trosiant staff yr holl weithlu gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn 30 y cant yng Nghymru^{33,34}. Yn ogystal â throsiant uchel, mae'r materion sy'n codi ar hyn o bryd yn cynnwys cyfraddau swyddi gwag uchel, costau uchel recriwtio a hyfforddi staff newydd, defnydd cynyddol o staff asiantaeth (drytach), a throsiant yn y sector gyda staff yn symud yn aml rhwng cyflogwyr am gymhellion ariannol neu amodau gwaith gwell. Nododd ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru³⁵ fod cystadleuaeth gan gyflogwyr y tu allan i'r sectorau gofal cymdeithasol (ee manwerthu). Ystyrir bod y

²⁹ [The future of care in Wales: Resourcing social care for older adults - gan Dadansoddi Cyllid Cymru](#)

³⁰ Gofal cartref yng Nghymru: Safbwyntiau a phrofiadau pobl hŷn. Adroddiad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2012.

³¹ [Adroddiad sy'n ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref 2016](#)

³² [Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchoddedig](#)

³³ [Employee turnover levels and rates by industry section, UK, January 2017 to December 2018](#)

³⁴ [Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal cartref](#)

³⁵ [Ymchwil i delerau ac amodau contractau cyflogaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)

cyflogwyr hyn yn talu cyflog tebyg neu well, gyda llai o gyfrifoldeb yn eu swyddi. Teimlwyd bod cystadleuaeth o fewn a rhwng cyflogwyr gofal cymdeithasol a'r GIG yn cyfrannu at broblemau cadw staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhan bwysig o economi sylfaenol Cymru, sy'n cynrychioli 6 y cant o gyfanswm y gyflogaeth yng Nghymru. Mae Adroddiad Gwerth Economaidd Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2018³⁶ yn nodi yr amcangyfrifir bod y Gwerth Ychwanegol Crynswth blyneddol cyfun, ynghyd â'r lluosydd cadwyn gyflenwi effaith anuniongyrchol a'r lluosydd cyflogau ar gyfer y sector (effaith a ysgogwyd) yn cynhyrchu £2.2 biliwn yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi bod 72,100 o swyddi yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion mewn 2000 a mwy o safleoedd ledled Cymru (mewn gofal preswyl, gofal cartref, gofal dydd a lleoliadau eraill sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth canolog) sy'n cyfateb i 54,100 o Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yn 2016. Mae'r rhan fwyaf o'r sector gofal ar isafswm cyflog cenedlaethol. Amcangyfrifwyd bod enillion cyfartalog y rheini yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn £16,900 am bob FTE, o'i gymharu ag enillion cyfartalog ar draws holl ddiwydiannau'r rheini yng Nghymru, sef £29,200 yn 2016.

Fel rhan o'r Comisiwn Gwaith Teg, *nododd adroddiad Gwaith Teg Cymru*³⁷, er bod y sector yn ddiwydiant craidd sy'n cyfrannu at lesiant unigolion a chymdeithas, ei fod yn sector sy'n cynnwys nodweddion amrywiol sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ac amgylchedd gwaith gwael. Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Fforwm Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar sy'n ystyried y ffordd orau o wella cyflogau ac amodau cyflogaeth eraill yn y sector gofal cymdeithasol.

Mae ymchwil yn dangos bod cyflog, telerau ac amodau yn cael eu hystyried yn ffactorau allweddol sy'n ymwneud â bodlonrwydd mewn swydd, ac mae cysylltiad pwysig rhwng bodlonrwydd mewn swydd, ansawdd gwasanaeth³⁸ a cyflawni canlyniadau pobl. Ystyrir bod gwella cyflogau, telerau ac amodau yn rhan bwysig o ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector, yn enwedig ar gyfer gofal cartref, lle gwyddom yn anecdotaid fod cyflogau'n is a bod oriau gwaith yn llai dibynadwy na mewn rhannau eraill o'r sector³⁹.

Mae dadansoddiad diweddar gan LE Wales o ddata gweithlu gofal cymdeithasol oedolion a graddfeydd sefydliadau gofal yn Lloegr (annigonol, angen gwella, da ac eithriadol) gan Gomisiwn Ansawdd Gofal Lloegr yn dangos cysylltiad rhwng cyflogau gweithwyr gofal ac ansawdd gofal. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod cynnydd o £1 mewn cyflogau fesul awr ar gyfer gweithwyr gofal yn lleihau cyfran y sefydliadau y mae angen eu gwella tua 4.5 pwynt canran, a hynny ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref. Er nad oes graddfeydd ansawdd cyfatebol ar gael ar gyfer lleoliadau yng Nghymru ar hyn o bryd, tybir bod y berthynas hon yn bodoli yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i helpu wella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan y gweithlu gofal cartref, wrth ofyn am gynydd yn y bwch rhwng teithio ac amser galwadau. Mae'r rhain yn cynnig rhagor o gyfleoedd i sefydlu gofal cartref fel

³⁶ [Gwerth Economaidd y sector Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Cymru](#)

³⁷ [Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg](#), Mawrth 2019

³⁸ [Fair care, a workforce strategy for social care](#), Mawrth 2019

³⁹ [Fair care, a workforce strategy for social care](#), Mawrth 2019

gyrfa tymor hir ddeniadol, sy'n rhoi cefnogaeth ac sy'n rhoi boddhad. Cymerwyd camau hefyd i gyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal cartref roi dewis i weithwyr, ar ôl iddynt gael eu cyflogi am dri mis, ynghylch a ydynt am gael eu cyflogi ar gontractau dim oriau neu gontractau oriau penodol.

Fodd bynnag, yn ôl prosiect gwerthuso *Mesur y Mynydd*⁴⁰ yn 2019, roedd y rheini sy'n dod i gysylltiad â gofal cymdeithasol yn rheolaidd, naill ai drwy weithiwr cymdeithasol neu drwy weithwyr sy'n gofalu yn dod i'w cartref, yn dweud bod trosiant y staff yn parhau i achosi ansicrwydd a phryder. Yn aml nid oedd unigolion yn gwybod pa weithwyr gofal y dylent eu disgwyl neu a fyddent wedi'u cyfarfod o'r blaen. Nododd yr adroddiad ddau ffactor allweddol sy'n cyfrannu at ba bryd y mae pobl yn fwyaf tebygol o deimlo eu bod allan o reolaeth, sef gweithio gyda nifer o wasanaethau neu sectorau a throsiant staff.

Plant

Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r egwyddor o gefnogi teuluoedd i ofalu am blant gyda phwyslais ar helpu rhieni i ddatblygu eu gallu eu hunain i adnabod a rheoli problemau, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog. Mae gan wasanaethau ataliol rôl allweddol i'w chwarae o ran diwallu anghenion plant drwy atal amgylchiadau a allai arwain at blentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Nododd *Adolygiad o Argyfwng Gofal 2018*⁴¹ fod ymchwil yn parhau i godi cwestiynau am lefel ac effeithiolrwydd y gefnogaeth sydd ar gael i rieni plant sy'n cael gofal a chymorth, ac mae'n nodi bod cyfran sylweddol o wariant y wladwriaeth ar 'ymyriadau hwyr' i blant a theuluoedd, ac un o'r eitemau unigol mwyaf yw cost plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal. Mae rhoi'r ffocws ar drwsio teuluoedd ar wasanaethau cymdeithasol statudol yn aml yn rhy hwyr. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae gwaith 'gostyngiadau disgwylidig' Llywodraeth Cymru wedi darparu tystiolaeth bellach, er bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn esbonio'r gwahaniaeth yn y galw rhwng awdurdodau lleol, bod amrywiaeth sylweddol yn lleol hefyd o ran arferion atal plant rhag bod mewn gofal. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall, er gwaethaf polisi sy'n cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd ac allan o ofal, gan gynnwys cynlluniau atal ac ymyrryd yn fuan. Yn rhy aml hefyd, mae plant yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref a hynny ar gost fawr, ac mae eu symud oddi wrth eu teuluoedd a dod o hyd i leoliadau priodol, rheoledig yn aml yn anodd. Ochr yn ochr â hyn, nid yw'r system llety diogel yn aml yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ac mae diffyg buddsoddi o hyd mewn ehangu gofal preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth, i'w cefnogi i aros yn agos at eu cartrefi a symud i fyw'n annibynnol.

Ymwelodd y Comisiynydd Plant â phob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod 2019, a chynhyrchodd adroddiad, *Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant*⁴². Roedd yn canolbwyntio ar blant ag anghenion

⁴⁰ [Mesur y Mynydd-beth sydd wir o bwys mewn gofal cymdeithasol i unigolion yng Nghymru?](#)

⁴¹ [Care Crisis Review- Factors contributing to national increases in numbers of looked after children and applications for care orders](#) (Mehfin 2018)

⁴² [Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru – Dim drws anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#)

iechyd meddwl neu lesiant emosiynol cymhleth, a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn symud i wasanaethau oedolion. Canfu'r adroddiad fod plant yn aros yn rhy hir i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, a'u bod yn cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau nad ydynt yn gallu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad bod angen dybryd am ddull gweithredu 'Dim Drws Anghywir', lle ymatebir i anghenion ac amgylchiadau'r plentyn mewn modd cyfannol, aml-asiantaeth, cofleidiol, a lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus y dylai ble bynnag y maent yn mynd i gael cymorth allu darparu cymorth yn uniongyrchol, neu eu cyfeirio at y lle iawn ar gyfer cymorth.

Roedd yr adroddiad hwn yn ychwanegu rhagor o dystiolaeth at yr angen i ddatblygu darpariaeth breswyl gofal cymdeithasol ac iechyd ar y cyd a gomisiynir ar gyfer plant ag anghenion iechyd meddwl a lesiant emosiynol cymhleth. Er mwyn ymateb i'r dystiolaeth hon a'r diffyg buddsoddiad, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu nodi fel y cyfrwng cyfunol ar gyfer darparu gwasanaethau therapiwtig, amlddisgyblaethol. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi nifer fach o ddatblygiadau a fydd yn galluogi pobl ifanc sy'n cael eu lleoli i ffwrdd i ddychwelyd yn nes at eu cartrefi.

Canfu'r Comisiynydd hefyd fod y broses o drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn broses gymhleth ac yn llawn straen i bobl ifanc ag anableddau dysgu o hyd. Roedd adroddiad cynharach, *'Don't Hold Back'*, 2018 wedi canfod nad oedd pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwneud digon â'u gofal eu hunain. Roedd gwahanol drothwyon ar draws gwasanaethau, ac roedd gan bob gwasanaeth ffordd wahanol o reoli'r broses drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Er bod arwyddion addawol, ni fu llawer o newid ar lawr gwlad. Fel y nododd y Comisiynydd, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod mewn sefyllfa ddelfrydol i wneud trefniadau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau cyfnod trosglwyddo integredig ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio

Efallai y bydd unigolion, eu teuluoedd a'u gofalmwrn angen gofal a chymorth gan fwy nag un gweithiwr proffesiynol neu sefydliad. Mewn achosion fel hyn, dylai gwasanaethau gael eu cydlynu'n effeithiol a'u darparu i ddiwallu anghenion. Pan fydd yr holl bartneriaid yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, mae'n gwella canlyniadau i bobl. Mae hefyd yn golygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Gellir disgrifio prif nodau partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth;
- Gwella canlyniadau llesiant;
- Darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; a
- Defnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol.

Mae *Cymru Iachach* yn atgyfnerthu pwysigrwydd hanfodol cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i alluogi hynny. Wrth ystyried sut mae gofal cymdeithasol yn cael ei drefnu, mae ei berthynas â gofal iechyd yn dal yn bwysig. Mae gan y sectorau tai ac addysg hefyd rolau allweddol i weithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl.

Mae'r Ddeddf yn gosod disgwyliadau clir ac yn ceisio darparu dulliau sydd yr un mor glir i bartneriaid sydd â rôl uniongyrchol yn trefnu neu darparu gofal a chymorth, i

gydweithio'n effeithiol ar lefel strategol, gan gynnwys pennu cyllidebau cyfun i ddarparu gwasanaethau gwirioneddol integredig. Mae Rhan 9 o'r Ddeddf ac adran 25 o Ddeddf Plant 2004 gyda'i gilydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol gydweithredu. Mae hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau a gofyniad am drefniadau partneriaeth ffurfiol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dwy ffrwd cyllid grant allweddol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w cefnogi i ysgogi integreiddio; y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig. Mae adolygiadau diweddar o'r cronfeydd hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol am gynnydd gweithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol.

- Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig⁴³ ym mis Gorffennaf 2019. Nod y Gronfa Gofal Integredig yw sbarduno a galluogi gwaith integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Caiff ei dosbarthu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n goruchwyllo ac yn rheoli'r gronfa yn eu hardal, ac mae dyraniadau cyfalaf a refeniw bob blwyddyn. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cymeradwyo prosiectau refeniw ac yn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Refeniw blynyddol i Lywodraeth Cymru. Caiff cynigion cyfalaf eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ac maent yn cael eu hariannu â grant. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad cyffredinol fod y gronfa'n cael effaith gadarnhaol, a'i bod yn rhoi ysgogiad i bartneriaid ddatblygu gwasanaethau integredig a symud tuag at drefniadau cyllido ar y cyd yng nghyd-destun polisi a deddfwriaeth ehangach.
- Sefydlwyd y Gronfa Trawsnewid i gyflymu'r gwaith o ddatblygu ac ymestyn modelau newydd o ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yn canolbwyntio ar dri maes: cysoni iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiraffferth; darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol lleol; a gwasanaethau a gweithgareddau ataliol integredig newydd. Mae'n cael ei darparu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae 30 o brosiectau wedi cael eu cefnogi ar draws y saith rhanbarth. Nododd adroddiad canol tymor⁴⁴ ym mis Ebrill 2020 ei bod yn ymddangos bod y gronfa'n cael effaith gadarnhaol o ran cael partneriaid i weithio gyda'i gilydd a bod rhywfaint o dystiolaeth gychwynnol ar draws rhanbarthau lle mae staff yn dechrau meddwl yn wahanol a newid eu diwylliant gwaith.

Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod rhanbarthau'n cydweithio'n effeithiol i ddefnyddio cyllidebau grant a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r cynnydd o ran rhannu neu gyfuno cyllidebau a chamau gweithredu er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol a pherfformio'n well wedi amrywio. Mae adroddiad ar ddefnyddio cyllidebau cyfun mewn gofal preswyl i bobl hŷn, a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan KPMG yn 2020⁴⁵, wedi dangos cynnydd cymedrol yn unig, ac mae'n nodi bod Byrddau

⁴³

[Y Gronfa Gofal Integredig \(Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2019\)](#)
[Gwerthusiad canol cyfnod o Gronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach' \(ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru, Ebrill 2020\)](#)

⁴⁵ [Adroddiad ar ddefnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllidebau cyfun ar gyfer llety cartrefi gofal gan KPMG 2020](#)

Partneriaeth Rhanbarthol yn bodloni'r gofynion sylfaenol yn bennaf. Mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd i'w datblygu, gan gynnwys:

- Nid yw llawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfuno cyllidebau'n ffisegol a phan fyddant yn gwneud hynny, nid yw'r rhan fwyaf yn mynd ati'n weithredol i flaenoriaethu a rheoli'r cyllidebau fel un gronfa;
- Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn poeni am y risg o roi cymhorthdal ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd nid oes yr un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhannu risgiau ariannol er bod mwy o dryloywder o ran gweithgareddau, gwariant a risgiau;
- Dim ond argymhellion y gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu gwneud ac nid penderfyniadau gan nad ydynt yn endidau cyfreithiol;
- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn poeni am reoli carfan amrywiol o anghenion ar draws ardaloedd; a
- Dylid rhannu arferion da fel sefydlu rheolwr cronfeydd cyfun i sicrhau'r perfformiad gweithredol ac ariannol gorau posibl.

Mewn adolygiad thematig gan AGC, *Atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn*⁴⁶, ym mis Medi 2020, ar sail arolygiadau a gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod 2019, gwelwyd bod y cynnydd tuag at bartneriaeth a darparu gwasanaethau integredig i bobl hŷn yn dal yn gymysg iawn. Ceir tystiolaeth o ddulliau partneriaeth integredig mewn rhai ardaloedd ond yn gyffredinol dyfarnwyd statws 'coch' ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o enghreifftiau o dimau adnoddau cymunedol ar y cyd yn gweithio fel partneriaid cyfartal, ac mewn rhai ardaloedd, swyddi a ariennir ar y cyd a thimau rheoli ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu gwell integreiddio, mae'n amlwg yn rhoi cyfle i gyfathrebu, cydnabod tir cyffredin a rhannu cyfrifoldeb. Yn ogystal, mae comisiynu strategol drwy asesuadau poblogaeth a chynlluniau ardal yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac yn cael ychydig o effaith. Dywed yr adroddiad nad yw partneriaid yn rhannu gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac mae arweinwyr ac uwch reolwyr yn dal i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn eu meysydd rheoli eu hunain, yn hytrach nag ar bobl a chanlyniadau.

Gallai gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau gael ei ystyried yn gyfyngedig gan nad oes ganddynt yr holl swyddogaethau y gallai fod eu hangen i sicrhau integreiddio. Nid oes ganddynt staff sy'n atebol yn uniongyrchol na chyllideb y gellir ei rheoli. Daeth gwerthusiad ffurfiol Llywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf i'r casgliad mai un flaenoriaeth ar gyfer gweithredu pellach oedd parhad a datblygu integreiddio a phartneriaethau, monitro a darparu tystiolaeth o ganlyniadau, a'r seilwaith i hwyluso gwaith integredig. O ystyried y cynnydd cymysg a nodwyd uchod a chyfyngiadau deddfwriaethol Rhan 9 y Ddeddf, mae angen rhagor o gymorth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau'r budd gorau posibl o'u gallu ar y cyd i arwain newid.

Atal

Mae atal yn ganolog i raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer newid gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ar ymyrryd yn fuan er mwyn sicrhau

⁴⁶

Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn, Medi 2020

bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros i ymateb nes bydd pobl yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng. Mae adran 14 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad strategol ar y cyd o anghenion gofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr. Rhaid i'r asesiad hwnnw hefyd asesu ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau ataliol. Mae adran 15 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu'r gwasanaethau ataliol hyn.

Nid oes un diffiniad penodol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn weithgarwch ataliol. Gall fod yn unrhyw beth sy'n helpu i ddiwallu angen a nodwyd a gallai amrywio o fesurau eang sydd wedi'u hanelu at y boblogaeth gyfan i ymyriadau unigol wedi'u targedu'n well, gan gynnwys mecanweithiau i alluogi pobl i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau am eu bywydau.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd allweddol, wedi'i gefnogi gan bartneriaid sy'n defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, i ddatblygu modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol. Mae'r trydydd sector yn benodol wedi helpu i ddod â'r ffocws hwn a'r gallu i atal i agenda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a'r galw cynyddol am wasanaethau i ddiwallu anghenion mwy cymhleth yn aml yn golygu bod comisiynu a darparu'n canolbwyntio ar y gwasanaethau aciwt, sy'n fwy costus ac sy'n gwasgu'r capasiti ar gyfer gwaith ataliol. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran gofal a chymorth i blant.

Gwersi o rannau eraill o'r DU

Er bod systemau iechyd a gofal cymdeithasol wedi esblygu mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymder gwahanol ar draws y DU ers datganoli, mae llawer o brofiad ac arloesi y gellir eu rhannu a gwersi a ddysgwyd rhwng y pedair gwlad, o ran cydweithio ac integreiddio. Yr hyn sydd gan y systemau i gyd yn gyffredin yw ymgyrch i ailgydbwysu gofal oddi wrth ysbyty aciwt tuag at atal a chefnogi yn y gymuned ac yn y cartref.

Mae Gogledd Iwerddon yn unigryw yn y DU am ei fod wedi trefnu gofal iechyd a chymdeithasol o fewn yr un strwythur sefydliadol drwy Ddeddf (Diwygio) Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2009. Mae adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Nuffield⁴⁷ wedi dangos nad yw cael system integredig ynddi'i hun yn arwain at roi blaenoriaeth uwch i ofal cymdeithasol nac at weithio'n fwy hwylus ar draws y sectorau. Mae profiad Gogledd Iwerddon yn atgyfnerthu'r neges bod arweinyddiaeth a chraffu +effeithiol, o fewn diwylliant sy'n hyrwyddo arloesedd a gwaith partneriaeth gwirioneddol, yn bwysicach yn y pen draw na strwythurau.

Yn Lloegr, mae dull partneriaeth yn esblygu yn seiliedig ar Systemau Gofal Integredig, sy'n cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros reoli adnoddau a darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw'r rhain wedi cael statws cyfreithiol eto a disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cynigion a deddfwriaeth ddrafft ar Systemau Gofal Integredig yn gynnar yn 2021. Nododd Kings Fund 2020⁴⁸ fod aeddfedrydd gweithio

⁴⁷ [Change or Collapse: Lessons from the drive to reform health and social care in Northern Ireland gan Ymddiriedolaeth Nuffield, Gorffennaf 2019](#)

⁴⁸ [The King's Fund- Integrated care systems explained: making sense of systems, places and neighbourhoods](#)

mewn partneriaeth ar draws y systemau hyn yn amrywio'n helaeth. Y systemau sydd bellaf ar y blaen yw'r rheini sydd wedi rhoi blaenoriaeth i gryfhau cysylltiadau cydweithredol ac ymddiriedaeth rhwng sefydliadau partner a'u harweinwyr. Mae hyn wedi cael ei gyflawni'n aml gan arweinwyr o wahanol sefydliadau yn treulio amser gyda'i gilydd yn gweithio drwy'r heriau sy'n wynebu'r system a sefydliadau unigol, gan egluro pwrpas cyffredin ar gyfer cydweithio, a gwneud gwaith datblygu penodol gyda'u grwpiau arwain. Nododd y Kings Fund hefyd nad yw cydweithio ar draws y GIG a llywodraeth leol yn hawdd, ac mae gofyn i arweinwyr lleol (gan gynnwys arweinwyr y GIG yn ogystal â swyddogion ac aelodau etholedig mewn llywodraeth leol) ddeall heriau ei gilydd yn well, cydnabod a pharchu gwahaniaethau mewn trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, cyllido a pherfformiad, a dod o hyd i ffyrdd o reoli'r gwahaniaethau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol yn yr Alban wedi mabwysiadu model lle mae trefniadau'n cael eu dirprwyo i drydydd corff, a elwir yn Gyd-fwrdd Integreiddio, drwy Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (yr Alban) 2014. Mae'r Cyd-fyrddau Integreiddio'n gyfrifol am lywodraethu, cynllunio a chael gafael ar ofal cymdeithasol, gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a gofal heb ei drefnu mewn ysbytai ar gyfer oedolion. Mae rhai hefyd wedi integreiddio gwasanaethau ychwanegol gan gynnwys gwasanaethau plant, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau cyfiawnder troseddol a'r holl wasanaethau ysbyty aciwt. Roedd adroddiad gan y Grŵp Strategol Gweinidogol ar Iechyd a Gofal Cymunedol (Llywodraeth yr Alban, Chwefror 2019)⁴⁹ yn adolygu'r cynnydd ar integreiddio lechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn nodi bod Cyd-fyrddau Integreiddio'r Alban wedi cael trafferth dylanwadu ar y broses o bennu cyllidebau gan fod partneriaid yn amharod i roi'r gorau i reolaeth ariannol. Rhaid grymuso partneriaid i ddefnyddio eu holl adnoddau i wneud pethau'n wahanol. Nododd yr adroddiad fod yn rhaid i adnoddau ar y cyd a ddelir golli eu nod gwreiddiol a dod yn un gyllideb.

Fel y dangosodd yr adolygiad byr hwn, mae gwledydd eraill y DU yn parhau i gryfhau cysylltiadau cydweithredol, ond nid oes yr un wlad wedi dod o hyd i'r ateb. Yn yr un modd â Chymru, mae Lloegr a'r Alban wedi mabwysiadu dull partneriaeth, yn hytrach nag un strwythurol. Mae'r gwersi allweddol o'u cynnydd, y gellir eu cymhwyso i unrhyw drefniant partneriaeth, yn glir. Mae gan sefydliadau ofynion llywodraethu, atebolrwydd, cyllid a pherfformiad gwahanol, rhaid cydnabod hyn a rhaid i bartneriaid ddod o hyd i ffyrdd o reoli'r gwahaniaethau hyn er mwyn gwneud pethau'n wahanol. Dylai cynigion a nodir yn y papur hwn osgoi tarfu strwythurol lle nad oes angen ac yn hytrach dylai ganolbwyntio ar welliant strategol a fydd yn cryfhau'r trefniadau presennol i sicrhau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

49

[Health and Social Care integration: progress review – final report from the Ministerial Strategic Group for Health and Community Care \(Llywodraeth yr Alban, Chwefror 2019\):](#)

Cyflawni'r weledigaeth

Dyluniad

Yn seiliedig ar yr heriau a amlinellir yn adran y ddadl dros newid yn y papur hwn, mae tri maes allweddol yn dod i'r amlwg lle gallai camau gweithredu ychwanegol â ffocws gyflawni gwelliannau ar draws y system i sicrhau'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol:

- ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal – symud oddi wrth brisiau tuag at fesur gwerth yn seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a'r gost yn gyffredinol;
- ailgyfeirio arferion comisiynu – rheoli'r farchnad a chanolbwyntio ar ganlyniadau; a
- datblygiad dulliau integreiddio – lleihau rhwystrau i gynllunio a darparu ar y cyd.

Wrth lunio'r fframwaith cyfeirio hwn, rydym wedi defnyddio fframweithiau arweiniol pwysig. Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni sicrhau cydbwysedd rhwng y tymor byr a'r tymor hir ac, o ran cydweithio, i brofi a yw ein trefniadau yn ein helpu i gydweithio'n effeithiol. Mae egwyddorion dylunio *Cymru Iachach* yn gorfodi arweinwyr systemau iechyd a gofal cymdeithasol i "[ddatblygu] gwasanaethau sy'n llai cymhleth ac sydd wedi'u cydlynu'n well ar gyfer yr unigolyn; [pan ddylai fod] integreiddio proffesiynol agos, cydweithio, a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr."

Drwy weithredu yn y tri maes a drafodir uchod, mae'r Papur Gwyn hwn yn ceisio ailgydbwyso'r farchnad gofal a chymorth ar sail fframwaith cenedlaethol clir lle caiff gwasanaethau eu trefnu'n rhanbarthol a'u darparu'n lleol. Wrth wneud hynny ein nod yw ailgydbwyso gofal cymdeithasol fel nad oes gorddibyniaeth ar y sector preifat, na monopoli i'r cyfeiriad arall. Mae'r papur Gwyn hwn yn diffinio 'ailgydbwyso' yn fras fel cyfres o ddisgrifiadau o'r newid yr ydym am ei weld yn y system.

Ailganolbwyntio ar yr agweddau sylfaenol ar y farchnad gofal

Ystyr ailgydbwyso yw...

Symud oddi wrth brisiau. Tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Darperir y rhan fwyaf o'r gofal a'r cymorth drwy strwythur marchnad o'r enw monopsoni⁵⁰. Mae strwythur y farchnad hon, yng nghyd-destun ariannol cyni, wedi golygu mai 'pris' yw'r brif nodwedd. Os mai'r weledigaeth yw gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau, nid strwythur y farchnad sy'n canolbwyntio ar brisiau ac sydd wedi esblygu dros amser yw'r llwybr at gyflawni hynny. Cydnabuwyd hyn ym Mhapur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru ar *Gryfhau*

⁵⁰ Ystyr monopsoni yw lle mae nifer fach o brynwyr a nifer fawr o ddarparwyr. Awdurdodau lleol yw'r prif brynwyr yn y farchnad gofal cymdeithasol; yng nghyd-destun caledi, mae strwythur y farchnad hon a chyllidebau dan bwysau wedi arwain at ostwng ffioedd a chostau.

*Partneriaethau Cymdeithasol*⁵¹, a oedd yn dweud bod ein hymateb i'r argyfwng economaidd a heriau cyni cronig yn y sector cyhoeddus yn y DU wedi rheoli a llywio cyfnod modern ein trefniadau partneriaeth gymdeithasol

Bydd gwerth am arian yn dal yn bwysig, a bydd angen i ofal a chymorth a gomisiynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol barhau i ddangos eu bod yn defnyddio adnoddau trethdalwyr yn effeithlon. Mae gwerth am arian yn y cyd-destun hwn yn golygu darparu gwasanaethau effeithiol, am gost sy'n sicrhau canlyniadau cymdeithasol cryf⁵².

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn disgwyl i gomisiynwyr gwasanaethau ganolbwyntio ar bennu, sgorio a mesur yn erbyn gallu darparwyr i gyflawni canlyniadau lluosog yn erbyn y dyletswyddau cyffredinol a nodir yn y Ddeddf er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd a sicrhau llesiant, wedi'u cydbwysu yn erbyn gwerth am arian. Dylai comisiynwyr barhau i ddiffinio'r math o alluoedd a phrofiad sydd eu hangen ar sefydliadau tendro, a dylai timau caffael weithio gyda chomisiynwyr ar sut maent yn cynnwys hyn yn y broses asesu caffael⁵³.

Yn hollbwysig, bydd ailgydbwysu tuag at farchnad sy'n cymell ansawdd yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a'r holl gomisiynwyr lleol weithio gyda'i gilydd i gytuno ar fframwaith cyffredin a'i roi ar waith yn gadarn. Dylid defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ddull Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru, sef canolbwyntio ar leoliadau o ansawdd sy'n fforddiadwy, wrth ddatblygu fframwaith arfaethedig.

Gall dulliau mwy safonol a rhagweladwy o bennu ffoedd leihau'r gystadleuaeth am staff rhwng darparwyr drwy wahaniaethau cyflog ymylol. Roedd y ddadl dros newid yn tynnu sylw at y berthynas rhwng cyflog, telerau ac amodau a throsiant staff a'r effaith ar ansawdd gwasanaethau yn sgil trosiant staff. Mae mwy o gysondeb yn y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth a llai o drosiant yn caniatáu i bobl feithrin perthynas â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth a theimlo'n ddiogel ac yn fwy sicr, gan wella ansawdd y canlyniadau o ran gofal cymdeithasol a llesiant. Felly, dylai disgwyliadau clir ar gyfer telerau ac amodau gwell, gan gynnwys tâl, fod yn rhan greiddiol o bennu'r methodolegau cyllido. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg⁵⁴ ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws gofal cymdeithasol. Mae gwaith teg yn golygu gweithlu mwy cynhyrchiol a hapusach, mwy o ymrwymiad ac ymgysylltiad, llai o absenoldeb a llai o drosiant staff⁵⁵.

⁵¹ [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

⁵² [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

⁵³ [Adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru – Helpu Comisiynwyr a Chaffaelwyr Gofal i hyrwyddo modelau gwerth cymdeithasol 2020](#)

⁵⁴ [Comisiwn gwaith teg – cylch gorchwyl](#)

⁵⁵ [Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Atgyfnerthu Partneriaeth Gymdeithasol 2019](#)

Ailgyfeirio arferion comisiynu

Ystyr ailgydbwysu yw...

...Symud oddi wrth gymhlethdod. Tuag at symleiddio.

Symud oddi wrth arferion seiliedig ar dasgau. Tuag at arferion seiliedig ar ganlyniadau

Symud oddi wrth gomisiynu ymatebol. Tuag at reoli'r farchnad...

... er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Er bod y Ddeddf wedi helpu i ganolbwyntio ar sicrhau llesiant pobl, mae'r ddadl dros newid wedi dangos bod modd i arferion comisiynu ganolbwyntio ar dasgau o hyd. Roedd y broses o werthuso gweithrediad y Ddeddf yn nodi her sylweddol o ran trefnu a darparu gofal a chymorth oherwydd y diffyg cydlynu rhwng awdurdodau lleol gan arwain, o bosibl, at ddwy ar hugain o ffyrdd gwahanol o wneud pethau.

Yn hollbwysig, gydag amgylchedd sy'n ffafrio ansawdd, a lle mae caffael yn seiliedig ar ddull symlach o weithredu, bydd comisiynwyr yn rhydd i arloesi er mwyn cefnogi'r gwaith o greu'r modelau gofal newydd sydd eu hangen ar gyfer anghenion newidiol y boblogaeth. Felly, bydd arferion comisiynu'n symud oddi wrth reoli tasgau, a chaffael nifer o bethau bach a gweithgarwch rheoli cysylltiedig sy'n cymryd llawer o amser, tuag at gomisiynu sy'n seiliedig ar werth cymdeithasol ac sy'n sicrhau llesiant i bobl. Wrth wneud hyn, mae comisiynwyr a chynllunwyr yn gallu datblygu holl rannau pwysig y cylch comisiynu⁵⁶, fel meithrin gallu, datblygu'r farchnad a marchnata perthnasoedd.

Bydd fframwaith cyffredin yn galluogi mwy o gydgomisiynu. Fel sail ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth, gall sicrhau bod canlyniadau darparu gwasanaethau yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i bobl ac ar gynlluniau'r Economi Sylfaenol a gwerth cymdeithasol. Er nad oes un diffiniad o "werth cymdeithasol" y mae pawb yn cytuno arno, mae Social Enterprise UK yn diffinio gwerth cymdeithasol fel y budd ychwanegol i'r gymuned o broses gomisiynu/caffael sy'n ychwanegol at brynu nwyddau, gwasanaethau a chanlyniadau yn uniongyrchol. Ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, fe'i defnyddiwyd i greu ymadroddion fel "sefydliadau gwerth cymdeithasol" a "fforymau gwerth cymdeithasol", Mae'r ymadroddion hyn wedi dechrau cael eu defnyddio fel llaw-fer ar gyfer sefydliadau y cyfeirir atynt yn adran 16 Rhan 2 y Ddeddf, sy'n nodi modelau ar gyfer gofal a chymorth sy'n ceisio cyflawni egwyddorion y Ddeddf.

Mae modd gwneud cynnydd tuag at sylfaen fwy amrywiol o ddarparwyr a newid cydbwysedd y farchnad drwy gefnogi modelau gofal amgen. Bydd canolbwyntio ar gomisiynu gwerth cymdeithasol yn creu amgylchedd a fydd yn galluogi darparwyr dielw, gan gynnwys cydweithfeydd, i dyfu. Yr un pryd, bydd yn annog yr holl ddarparwyr i ddatblygu eu gallu i ddarparu gwerth cymdeithasol. Bydd y sector cyfan mewn gwell sefyllfa i gydweithio'n gyson effeithiol o gamau cynharaf asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal a chymorth.

⁵⁶ Y [Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol – Arwain Comisiynu Integredig a Chydweithredol - Canllaw Arfer, Mawrth 2017](#)

Mae gan ddarparwyr hefyd lawer i'w ennill o'r dull newydd hwn o weithredu. Bydd cael gwared ar lawer o gymhlethdod yn galluogi darparwyr i ganolbwyntio mwy ar gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Roedd y ddadl dros newid yn disgrifio'r ystad gofal a chymorth fel un fawr ac amrywiol, yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gyda maint elw bychan a chronfeydd ariannol cyfyngedig. O fewn y trefniadau newydd hyn, bydd darparwyr bach yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd i ymateb i gomisiynau lleol. Gellid cyflawni hyn drwy ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i alluogi gweithgareddau ar y cyd, fel marchnata, caffael, adnoddau dynol a chymorth TG. Bydd y dull hwn yn cyfrannu at ailgydbwysu'r farchnad gofal a chymorth i lai o ddarparwyr unigol sy'n cystadlu am gontractau, gan leihau cymhlethdod a gweithgarwch sy'n cymryd llawer o amser.

Datblygiad dulliau integreiddio

Ystyr ailgydbwysu yw...

... Symud oddi wrth ffocws sefydliadol. Tuag at bartneriaeth fwy effeithiol

...a'r cyfan er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl.

Mae cyd-ddibyniaeth gofal cymdeithasol a gofal iechyd wrth galon Cymru lachach. I oedolion, mae'r angen am gyswllt agos rhwng y gwasanaethau hyn yn galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl ac mae'n hanfodol i atal ac ymyrryd yn fuan. Mae cydweithio agos yn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, ac mae'n hanfodol i lwyddiant y *Model Gofal* newydd ar gyfer *Rhyddhau i Adfer ac Asesu*.

Mae'r berthynas rhwng gofal cymdeithasol, y GIG, sefydliadau tai a'r sector addysg yn arbennig o bwysig er mwyn darparu gofal a chymorth cydlynus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ar lefel ranbarthol, gall y partneriaid hyn ddefnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol i wella canlyniadau llesiant. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â phartneriaid ynghyd â chynrychiolwyr dinasyddion, gofalcwyr a lleisiau pwysig eraill. Mae aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cydnabod y manteision sy'n deillio o'u partneriaeth ac maent yn dymuno adeiladu ar drefniadau comisiynu ar y cyd⁵⁷. Mae rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ategu partneriaethau rhanbarthol a lleol eraill, ac mae gwell cysondeb rhwng y partneriaethau hyn yn destun gwaith parhaus.

Roedd y ddadl dros newid yn dangos y cynnydd a wnaed gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a nifer o lwyddiannau. Roedd hefyd yn amlinellu meysydd lle mae cynnydd wedi bod yn fwy heriol, er enghraifft gofal preswyl i blant. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf yn cyfeirio at seilwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n galw am weithredu â blaenoriaeth er mwyn hwyluso gweithio integredig yn well. Felly, cynigir cryfhau dyluniad presennol swyddogaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu galluogi i gyflawni'n effeithiol.

⁵⁷ [Adroddiad ar ddefnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllidebau cyfun ar gyfer llety cartrefi gofal gan KPMG 2020](#)

Mae'r dulliau o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio a fabwysiadwyd gan rannau eraill o'r DU er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft, dirprwyo cyllidebau i drydydd parti lle mae rhai aelodau'n cael pwerau pleidleisio drwy Gyd-Fyrddau Integreiddio yn yr Alban) yn rhoi sail ar gyfer ystyried cryfderau a gwendidau gwahanol drefniadau posibl.

Dylai rôl sylfaenol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau fel dod â phartneriaid at ei gilydd i adolygu anghenion y boblogaeth ar y cyd a chynllunio'r modelau gofal a chymorth y bydd eu hangen ar bobl. Dylai dadansoddi a chynllunio ar y cyd, mewn meysydd lle mae angen i bartneriaid gysoni gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, arwain at gomisiynu darpariaeth ar y cyd. Wrth bwysu a mesur adroddiadau annibynnol ac adborth uniongyrchol gan y sector, er mwyn gwneud hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol, credwn fod angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol feddu ar offer ychwanegol i gysoni cynllunio a threfnu gwasanaethau yn well, a gallu sefydliadol gwirioneddol i gyflawni'r mandad hwn yn llawn.

Ei roi ar waith

Sut gallwn ni wneud hynny?

Mae angen cryfhau ac aildrefnu'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn ymateb i'r ystod o heriau sy'n wynebu'r sector, ac er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a nodir yn y Ddeddf, gan gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r set ganlynol o gynigion yn dod o safbwynt meddylfryd systemau a dadansoddiad o'r diffygion yn y farchnad ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol a rhai cyfyngiadau yn y strwythurau partneriaeth presennol. Gall y newidiadau a argymhellir ail-lunio trefniadaeth gofal cymdeithasol yn llwyr ac er budd amlwg y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth. Cynigir cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni'r newid angenrheidiol.

Gall fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth i blant ac oedolion greu marchnad fwy cytbwys o ddarpariaeth o ansawdd gwell. Bydd y fframwaith yn helpu i sicrhau comisiynu gwerth cymdeithasol sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau, ac yn defnyddio'r holl asedau sydd ar gael mewn cymunedau lleol.

Gall fframwaith cenedlaethol fod yn llwyfan ar gyfer gweithredu argymhellion y Fforwm Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol ar draws y sector yng Nghymru. Bydd fframwaith cenedlaethol yn pennu methodolegau ffioedd, yn datblygu prosesau comisiynu mwy safonol, ac yn gwella tryloywder perfformiad gwasanaethau.

Byddai gwell cynllunio rhanbarthol a mwy o gydgomisiynu ar draws iechedd a gofal cymdeithasol ac ar draws rhanbarthau yn lleihau cymhlethdod a dyblygu ac yn gwella cysondeb a chapasiti. Byddai hyn yn galluogi comisiynwyr i ganolbwyntio o'r newydd ar ddiwallu anghenion newidiol y boblogaeth drwy lunio'r farchnad yn fwy cyfarwyddol.

Felly, cynigir bod dyfodol gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau yn cael ei drefnu drwy strwythur sy'n cynnwys fframwaith cenedlaethol, lle mae gofal a chymorth yn cael ei gynllunio'n rhanbarthol ac yn cael ei ddarparu'n lleol.

Bydd sefydliadau rhanbarthol cryfach yn golygu y bydd modd integreiddio gweithredu yn well ymhlith gofal cymdeithasol a'i bartneriaid, gan gynnwys gofal iechedd a'r sector gwirfoddol, ynghyd â addysg a thai. Byddai'r dull hwn yn cefnogi gofal cymdeithasol fel rhan o'r economi sylfaenol ac yn galluogi darpariaeth integredig yn well, er enghraifft drwy ddatblygu tai gyda gofal ochr yn ochr â hybiau cymunedol. Bydd hyn hefyd yn helpu i gynnal y ffocws ar wasanaethau ataliol a chyfleoedd i alinio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yn ogystal â mynd i'r afael â heriau presennol y sector, byddai'r cynigion yn darparu sylfaen well ar gyfer rhoi amcanion polisi tymor hir ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau gwell tâl, telerau ac amodau i'r gweithlu er mwyn helpu i leihau trosiant a gwella ansawdd gofal a sicrhau gweithlu mwy gwydn a dyhead tymor hir am system sy'n nes at egwyddor y GIG o ofal iechedd yn rhad ac am ddim pan fo'i angen.

Bydd hefyd yn galluogi'r sector i leihau ei effaith amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Nid yw

allyriadau carbon anuniongyrchol gan ddarparwyr gofal a chymorth yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, ond gellir lleihau allyriadau anuniongyrchol yn ddramatig drwy gaffael mwy effeithiol. Gellir sicrhau datgarboneiddio drwy ddisgwyliadau caffael cyson sy'n gofyn am safonau amgylcheddol uwch gan bob sefydliad sy'n darparu gofal a chymorth. Gall yr un dulliau sicrhau manteision sylfaenol i'r economi drwy anogaeth i gaffael nwyddau'n lleol.

Ailgydbwysu'r fframwaith cenedlaethol

Ni fwriedir trosglwyddo unrhyw swyddogaethau cyfredol o awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd lleol i'w cyflawni'n genedlaethol. Cynigir bod fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, sy'n pennu'r telerau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth – drwy ddatblygu set o arferion comisiynu cyffredin ac amrywiaeth o fethodolegau ffioedd y bydd yn ofynnol i gomisiynwyr eu defnyddio yn ôl y gyfraith, gan symleiddio caffael a sicrhau bod safonau gwasanaeth yn fwy amlwg.

Nid yw hyn yn golygu y dylid cael un pris am ofal a chymorth sy'n cael ei gaffael, ond yn hytrach set o fethodolegau ffioedd y cytunwyd arni y bydd pob comisiynydd yn ei dilyn yn y dyfodol. Rhaid i fethodolegau ffioedd fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu amgylchiadau lleol, er enghraifft, ffactorau daearyddol gwahanol, a gallu ymateb i ofynion capasiti ac adnoddau darparwyr ar wahanol gamau yn eu cylch busnes eu hunain. Er enghraifft, bydd angen gwahanol lefelau o gymorth ar fodolau gofal newydd, yn enwedig lle mae buddsoddiad cyfalaf yn berthnasol.

Drwy'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdod lleol baratoi cynllun gofal a chymorth ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysu, ar ôl iddynt gael asesiad o anghenion. Mae'r cynllun gofal a chymorth (neu'r cynllun cymorth ar gyfer gofalwyr) yn disgrifio sut bydd anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth yn cael eu diwallu, gan gynnwys rhoi manylion am y gwasanaethau sydd i'w trefnu neu eu darparu gan yr awdurdod lleol. Pan fydd y gwasanaethau yn y cynllun yn cael eu comisiynu gan y bwrdd iechyd lleol, cynigir y bydd y fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu'r gwasanaethau hynny hefyd (er enghraifft Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG).

Er mwyn datblygu a chyflwyno fframwaith cenedlaethol, cynigir sefydlu 'swyddfa genedlaethol' ar gyfer gofal cymdeithasol naill ai drwy:

- ddatblygu swyddogaeth o fewn y llywodraeth, neu
- sefydlu corff hyd braich, dan arweiniad tîm gweithredol bychan.
-

Yn y ddau ddewis, sicrhau ymgysylltu llawn ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y sector annibynnol a phartneriaid allweddol eraill drwy fwrdd cynghori.

Bydd y swyddfa genedlaethol yn cadw golwg gyffredinol ar sefydlogrwydd y farchnad gofal cymdeithasol, ac yn sail ar gyfer sbarduno mentrau polisi cenedlaethol. Bydd yn atgyfnerthu gweithgarwch rhai fforymau cenedlaethol, gan gynnwys y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, a bydd yn gyfrifol am gefnogi gwaith ymchwil i ofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau yng Nghymru.

Rhaid i lais y proffesiwn gofal cymdeithasol gael ei adlewyrchu'n llawn mewn trafodaethau cenedlaethol, fel bod polisi cenedlaethol a bennir gan y swyddfa genedlaethol yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o heriau darparu. Bydd swyddogaeth Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol yn cael ei lleoli yn Llywodraeth Cymru i hyrwyddo llais y proffesiwn gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yn y Llywodraeth.

Cryfhau trefniadaeth ranbarthol

Mae'n ofynnol, drwy adran 14 o'r Ddeddf, i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddatblygu asesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Cyflawnir y swyddogaethau hyn drwy drefniadau partneriaeth a ddisgrifir yn Rhan 9 o'r Ddeddf ac adran 25 o Ddeddf Plant 2004, yn benodol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriedir i'r adroddiadau hyn helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio a chomisiynu gofal a chymorth o ansawdd ar lefel strategol ar gyfer eu poblogaethau.

Yn ogystal, amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw:

- cynnal ac ymateb i'r asesiad poblogaeth a gynhelir yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf (a, phan gaiff ei gweithredu, paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad o dan adran 144B o'r Ddeddf);
- gweithredu'r cydgynlluniau ardal y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol eu paratoi a'u cyhoeddi o dan adran 14A o'r Ddeddf;
- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf; a
- hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar i ba raddau y mae amcanion y bwrdd wedi cael eu cyflawni'n flynyddol⁵⁸.

Mae'r papur hwn wedi awgrymu y dylid darparu set fwy manwl o adnoddau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w galluogi i gyflawni eu nodau craidd o asesu a chynllunio ar y cyd ar gyfer anghenion y boblogaeth. Cynigir y dylid cryfhau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drwy ddeddfu i'w sefydlu fel endidau cyfreithiol corfforaethol. Byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol cryfach sy'n gallu cyflogi staff a dal cyllidebau yn uniongyrchol yn gallu comisiynu iechyd a gofal ar y cyd yn fwy uniongyrchol lle mae partneriaid lleol yn cytuno y byddai hynny'n gwneud y mwyaf o adnoddau ac yn cael y budd mwyaf o ran sicrhau canlyniadau gwell.

Yn benodol, yn ogystal â'r swyddogaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn y Ddeddf, bydd swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu hymestyn er mwyn iddynt wneud y canlynol:

- cael eu galluogi i gyflogi staff fel bod modd iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n llawn (y bwriad yw rhoi hwb i gynllunio ar y cyd, ond gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ffyrdd eraill);
- bod â threfniadau llywodraethu clir ar waith lle mae'r cyd-atebolrwydd dros benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn

⁵⁸ [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 - Codau a chanllawiau: Rhan 9 Canllawiau Statudol \(Trefniadau Partneriaeth\)](#)

perthynas â chyfuno cyllidebau a chomisiynu ar y cyd yn dryloyw ac yn unol â'u cyfrifoldebau statudol;

- pennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer comisiynu a darparu rhanbarthol gan ddefnyddio gwybodaeth o'u hasesiadau o anghenion y boblogaeth, cynlluniau ardal ar y cyd ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad;
- cael eu galluogi i ddal cyllidebau integredig i ddarparu gwasanaethau rhanbarthol integredig;
- monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt, gan rannu data rhwng partneriaid lle bo hynny'n briodol;
- sefydlu fframwaith cynllunio a monitro perfformiad ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n mireinio'r cylch cynllunio strategol 5 mlynedd ac sy'n defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am y boblogaeth, y canlyniadau a'r farchnad.

Yn unol â'r camau gweithredu yn *Cymru Iachach*, byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cael eu harchwilio a'u hadolygu ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran effeithiolrwydd y gweithio ar y cyd, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cyllidebau cyfun a chomisiynu ar y cyd.

Mae'r gofynion cynllunio presennol ar gyfer cylch hir o asesiadau o anghenion y boblogaeth a chynlluniau ardal yn fframwaith eang, ond nid yw bob amser yn adlewyrchu byd sy'n newid yn gyflym. Dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real er mwyn gallu dadansoddi anghenion a mesur effaith yn amlach. Dylid ailedrych ar gynlluniau pryd bynnag y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn yr amgylchedd gofal a chymorth. I gefnogi hyn, bwriedir defnyddio dull newydd o gynllunio ac adrodd. Bydd yn llai dwys, ond yn broses amlach o werthuso ac ymateb i anghenion y boblogaeth.

Dylai blaenoriaethau integreiddio rhanbarthol clir ddarparu ffocws ar gyfer gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dylai meysydd blaenoriaeth ddiffinio ble mai gweithredu ar y cyd yw'r ffordd orau o wella'r ddarpariaeth, a rhaid ystyried y meysydd hyn ar gyfer cydgomisiynu rhanbarthol.

Dylai partneriaid a rhanddeiliaid ystyried bod gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwbl dryloyw ac atebol. Gall y newidiadau a gynigir yn y papur fod yn sail ar gyfer cryfhau ymhellach drefniadau sy'n cefnogi atebolrwydd. Byddant yn galluogi adnoddau i gael eu dal yn y bartneriaeth, wedi'u goruchwyllo gan staff y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda threfniadau clir wedi'u creu ar gyfer adrodd yn llawn i'r sefydliadau sy'n aelodau.

Bydd hefyd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd i Weinidogion Cymru ar y cynnydd o ran cyflawni ar y cyd yn erbyn y blaenoriaethau integredig y cytunwyd arnynt. Ni ddylai fod twf yn y gofynion adrodd; yn hytrach, cynigir bod y gofynion adrodd yn cael eu symleiddio, a hynny'n cynnwys cyfuno'r gofynion cenedlaethol presennol fel rhan o'r broses o ystyried dyfodol cymorth cyllido cenedlaethol.

Rhaid i'r cynnig i gryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o'r dirwedd bresennol ar gyfer cydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol weithio ochr yn ochr â threfniadau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus swyddogaethau sy'n ategu'i gilydd. Yng nghyd-destun gofynion parhaus y ddeddfwriaeth berthnasol, dylai

rhanbarthau ac ardaloedd alinio'r partneriaethau hyn mewn ffordd sy'n gweithio orau yn eu hamgylchiadau nhw.

Nid yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn hwn yn atal unrhyw ehangu ar swyddogaethau Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn fecanwaith defnyddiol yn y dyfodol i alluogi cyflawni swyddogaethau gofal cymdeithasol strategol awdurdodau lleol yn fwy effeithiol ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Effaith ar gomisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol

Awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fydd y prif gyrff comisiynu o hyd o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dylid darparu gwasanaethau lleol mor agos â phosibl at bobl leol. Drwy leihau cymhlethdod, bydd fframwaith cenedlaethol yn cefnogi darpariaeth leol heb beryglu atebolrwydd. Ar sail y cynigion yn y papur hwn, yn y dyfodol bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn arfer eu swyddogaethau comisiynu un ai'n uniongyrchol neu'n eu dirprwyo i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ymgymerir â gweithgareddau comisiynu yn unol â'r fframwaith cenedlaethol, gan sicrhau defnydd llawn a theg o fethodolegau'r fframwaith cenedlaethol.

Atodiad 1: Crynodeb o'r effeithiau

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi asesiad effaith integredig o'r cynigion a amlinellir yn y Papur Gwyn hwn, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a gynrychiolir yn y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cael ei ddatblygu ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth i gyfrannu at yr asesiad hwnnw.

Wrth ddatblygu'r cynigion, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y 'pum ffordd o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gofyn am ffocws ar y tymor hir ac, o ran cydweithio, i brofi a yw ein trefniadau yn ein helpu i gydweithio'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried egwyddorion dylunio *Cymru Iachach* i ddatblygu gwasanaethau sy'n llai cymhleth ac wedi'u cydlynu'n well ar gyfer yr unigolyn; lle dylid cael integreiddio proffesiynol agos, gweithio ar y cyd, a rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a darparwyr.

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o rai o effeithiau'r newidiadau arfaethedig ar bobl, ar y gweithlu ac ar wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt

- Bydd cefnogi'r sector i ymateb i'r bwlch gweithredu yng nghyswllt gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl yng Nghymru. Roedd y papur hwn yn tynnu sylw at y profiadau amrywiol, a negyddol weithiau, a gaiff pobl o ran gofal a chymorth, sy'n effeithio ar y weledigaeth o sicrhau llesiant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i hyrwyddo llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn nodi'r diffiniad o lesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni. Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yng Nghymru, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchoddedig. Nod y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yw gwella gallu gwasanaethau i gyflawni'r swyddogaethau hyn fel bod pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn gallu sicrhau eu llesiant. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf ac mae'r effeithiau ar bobl yr un fath â'r cynigion yn y papur hwn. Nod y cynigion yw sicrhau bod yr effeithiau hynny'n cael eu gwireddu'n gyflymach. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w weld yn y Memorandwm Esboniadol sydd ar gael isod: <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5664>
- Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw sefydlu mewn cyfraith hawliau a chyfrifoldebau pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn defnyddio'r datganiad llesiant i ddylunio a darparu gwasanaethau gyda phobl. Bydd hyn yn sbardun pwysig yn y symudiad tuag at ddull gweithredu sy'n rhoi pobl yn y canol, y canlyniadau y maent yn dymuno eu cyflawni, a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Mae adran y ddadl dros newid yn y papur hwn yn amlinellu sut mae angen newid er mwyn gwneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Gweithiodd Llywodraeth Cymru

yn helaeth gyda phobl i ddatblygu'r datganiad llesiant. Mae'r dull ymgysylltu wedi'i nodi yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y fframwaith canlyniadau cenedlaethol⁵⁹.

Y gweithlu gofal cymdeithasol

- Roedd y ddadl dros newid yn tynnu sylw at y berthynas rhwng cyflog, telerau ac amodau a throsiant staff a'r effaith ar ansawdd gwasanaethau yn sgil trosiant staff. Mae mwy o gysondeb yn y gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth a llai o drosiant yn caniatáu i bobl feithrin perthynas â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth a theimlo'n ddiogel ac yn fwy sicr, gan wella ansawdd y canlyniadau o ran gofal cymdeithasol a llesiant. Mae pobl yn fwy tebygol o weld yr un person, sy'n cynyddu eu gallu i gynnal perthnasoedd, ac yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, gan arwain at ofal o ansawdd uwch. Byddai safoni a gwella cyflogau a telerau ac amodau, y gellid ei gyflawni drwy fframwaith cenedlaethol, yn cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:
 - Menywod. Mae'r gweithlu fel arfer yn heneiddio ac o'r un rhyw, gyda'r rhan fwyaf o staff darparwyr gofal a gomisiynir yn fenywod. Ar 5 Mawrth 2019, amlinellodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AC, weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru, a ddywedai "...bod Cymru sy'n gyfartal rhwng y rhywiau yn golygu rhannu grym, adnoddau a dylanwad yn gyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaid. Gweledigaeth yw hon lle mae'r llywodraeth yn ceisio creu'r amodau i sicrhau canlyniad cyfartal i bawb."
 - Denu pobl ifanc i ofal cymdeithasol. Mae dros hanner y gweithlu dros 40 oed⁶⁰. Efallai y bydd gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dymuno mynd i ofal cymdeithasol wrth adael yr ysgol, yn enwedig menywod, wrth iddynt gael lefel uwch o addysg ac yn wyneb mwy o gystadleuaeth o du sectorau eraill, megis manwerthu, lle mae cyflogau'n aml ychydig yn uwch am waith llai anodd a'r gofynion rheoleiddio o ran cymwysterau, er enghraifft, yn is.
 - Mae gweithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu gorgynrychioli yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn cyfrif am 7.2 y cant o'r gweithlu yng Nghymru⁶¹.

Gwasanaethau

- Mae safoni a symleiddio drwy fframwaith cenedlaethol yn cefnogi dull o wneud gwell defnydd o adnoddau cyfunol, ar draws ffiniau awdurdodau lleol, mewn ymateb i anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth. Gall dileu rhywfaint o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd yn y broses gomisiynu ryddhau amser comisiynwyr i ddatblygu elfennau eraill o'r cylch comisiynu.
- Rhaid i fframwaith cenedlaethol sy'n nodi'r telerau ar gyfer comisiynu gofal a chymorth ystyried cyflogau, telerau ac amodau'r gweithlu. Bydd gwella cyflogau, telerau ac amodau yn rhannol yn adlewyrchu'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael i'r

⁵⁹ [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol – asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb](#)

⁶⁰ [Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal cartref](#)

⁶¹ [/ Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Coronafeirws \(COVID-19\) a'r boblogaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig \(BAME\) yng Nghymru yng Nghymru](#)

sector ac, o bosibl, yn gweithredu penderfyniadau a wneir yn y dyfodol gan y Fforwm Gofal Cymdeithasol.

- Bydd cryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi cydgynllunio effeithiol a darparu gofal a chymorth lle bydd y capasiti cyfunol yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl, gan gefnogi cyrff statudol i gyflawni eu swyddogaethau presennol yn well.

Atodiad 2: Crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y cynigion. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn yr ymatebion i'r cwestiynau. Ceir crynodeb o'r cwestiynau isod.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod cymhlethdod yn y sector gofal cymdeithasol yn llesteirio gwella gwasanaethau?

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno bod arferion comisiynu'n canolbwyntio'n ormodol ar gaffael?

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno bod gallu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cael ei gyfyngu gan eu dyluniad a'u strwythur?

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y bydd fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys methodoleg ffioedd ac arferion comisiynu safonol yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi mwy o ffocws ar ansawdd gwasanaethau?

Cwestiwn 4a: - Pa rannau o'r cylch comisiynu ddylai gael eu hadlewyrchu yn y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylai'r holl wasanaethau a gomisiynir a ddarperir neu a drefnir drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwyr, fod yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 5a- Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaeth y GIG o ofal nyrsio a ariennir, ond nid ydynt yn cynnwys gofal iechyd parhaus; a ydych yn cytuno â hyn?

Cwestiwn 5b- A oes gwasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol?

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylai gweithgareddau rhai grwpiau cenedlaethol presennol gael eu cyfuno drwy swyddfa genedlaethol?

Cwestiwn 6a- Os felly, pa rai?

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y byddai sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol corfforaethol sy'n gallu cyflogi staff yn uniongyrchol a dal cyllidebau yn cryfhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau?

Cwestiwn 7a- A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried i gryfhau integreiddio rhanbarthol ymhellach drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno y dylid defnyddio data poblogaeth, mesurau canlyniadau a gwybodaeth am y farchnad mewn amser real yn amlach i ddadansoddi anghenion a darpariaeth gwasanaethau?

Cwestiwn 8a- O fewn y cylch 5 mlynedd, beth yw'r ffordd orau o gyflawni hyn?

Cwestiwn 9: A ydych yn credu bod angen rhagor o newid i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn y ddadl dros newid?

Cwestiwn 9a- beth ddylai'r rhain fod?

Cwestiwn 10: Beth yn eich barn chi yw costau ac arbedion cost y cynigion i gyflwyno swyddfa genedlaethol a sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol?

Cwestiwn 10a- A oes unrhyw gostau penodol neu ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynigion yr hoffech eu codi?

Y Gymraeg

Cwestiwn 11: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 12: Esboniwch hefyd sut yn eich barn chi y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau'n cael eu trefnu'n rhanbarthol, a'u cyflwyno'n lleol, er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyfarfod	Cabinet
Dyddiad	9 Mawrth 2021
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
Swyddog	Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes – Adran Oedolion Iechyd a Llesiant
Teitl	Ffioedd Preswyl a Nyrsio 2021/22

1. Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyaeth i'r ffioedd preswyl a nyrsio, Dewis A, i'w cytuno gyda darparwyr annibynnol ar gyfer 2021/22.

2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad

Er mwyn sicrhau ein bod yn talu ffioedd teg er mwyn ariannu gofal unigolion sy'n cael eu lleoli gennym mewn cartrefi preswyl a nyrsio annibynnol. Mae'r cynnydd a argymhellir yn mynd â ni yn uwch na'r lefel chwyddiant sydd wedi ei osod ar hyn o bryd yn y gyllideb ac felly yn golygu buddsoddiad ariannol ychwanegol.

3. Cyflwyniad

Rydym yn adolygu ein ffioedd preswyl a nyrsio yn flynyddol wrth osod ein cyllidebau am y flwyddyn ganlynol. Eleni rydym yn gwneud hynny mewn cyd-destun o drafodaethau manwl sydd ar y gweill gyda darparwyr ynglŷn â'u costau darparu gwasanaethau preswyl a nyrsio.

4. Cefndir

Mae wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diweddar nad yw ein trefniadau ffioedd presennol yn gynaliadwy. Adlewyrchir hyn yn y ffaith ein bod yn gweld cynnydd yn y cartrefi sydd yn gwrthod ein ffioedd safonol ac yn mynnu ffioedd uwch. Ar hyn o bryd mae 8 allan o 22 cartref annibynnol yng Ngwynedd yn gwrthod ein ffioedd safonol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, sydd fel arfer yn golygu eu bod yn codi ffioedd atodol, neu 'top up fees' i'w talu gan yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth, y teulu, neu gennym ni mewn amgylchiadau lle nad yw hynny'n bosib. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau mewn cartrefi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o brinder staffio a phroblemau gyda rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac mewn tri achos wedi ymdrin â'r sefyllfaoedd hynny drwy drefniadau ffurfiol 'Pryderon Cynyddol'.

5. Trefniadau Adolygu Ffioedd

5.1 Mae trefniadau adolygu ffioedd blynyddol yn digwydd yn rhanbarthol, ac mae gennym bedwar categori ffi, sef:

- Preswyl
- Preswyl (dementia – dibyniaeth uchel)
- Nyrsio
- Nyrsio (dementia – dibyniaeth uchel)

5.2 Defnyddir teclyn safonol gan gwmni Laing & Buisson ar gyfer y gwaith yma, ac er bod y broses yma yn sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth, cytunwyd yn 2017/18 y dylid rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol addasu rhan o'r teclyn er mwyn ymateb i sefyllfa'r farchnad yn lleol. Y rhan honno yw'r agwedd Return On Investment (ROI). Mae Gwynedd yn defnyddio'r hyblygrwydd yma i sicrhau cyfradd uwch o ROI ar gyfer lleoliadau unigolion sydd â'r anghenion mwyaf dwys.

6 Camau hyd yma i ymdrin â'r sefyllfa

6.1 Cychwynnwyd ar baratoi achos busnes i edrych ar ddewisiadau ar gyfer y ffordd ymlaen yn 2019/20:

- Trafodwyd gyda phob darparwr yn unigol ynglŷn â'u costau gofal
- Cafwyd cytundeb gan nifer ohonynt y byddent yn barod i gymryd rhan mewn ymarferiad 'open book accounting'
- Cychwynnodd Uned Ymchwil y Cyngor ar waith i asesu costau gofal darparwyr

6.2 Yn anffodus, bu'n rhaid rhoi y gwaith yma i'r naill ochr oherwydd y pandemig, ac felly nid ydym eto mewn sefyllfa i gynnig dewisiadau a allai o bosib olygu model ariannu costau gofal newydd.

7 Barn darparwyr

7.1 Mae darparwyr yn gyson yn datgan nad yw'r ffioedd yn ddigonol i gwrdd â chostau darparu gofal, ac yn ddiweddar maent wedi bod yn tynnu sylw at y cynnydd yn y gofynion rheoli a gweinyddu. Mae tystiolaeth ddiweddar o'n hachosion o gartrefi sydd wedi gorfod cael eu rhoi yn y drefn ansawdd ffurfiol 'Pryderon Cynyddol' yn awgrymu diffygion mewn:

- Arweinyddiaeth
- Diffyg staff a throsiant staff
- Cadw cofnodion amserol a chyfredol am fanylion gofal unigolion

7.2 Mae darparwyr Gwynedd hefyd yn tynnu ein sylw at ffi safonol cartrefi'r Cyngor, a'r ffaith ei fod yn uwch na'r ffi rydan ni'n ei dalu i ddarparwyr annibynnol. Nodir mai ffi safonol cartrefi'r Cyngor am 2020/21 yw £733.67, gyda'r rhagolwg y bydd yn cynyddu i tua £750 yn 2021/22.

7.3 Yn ychwanegol eleni, mae darparwyr wedi pwysleisio'r angen i roi cydnabyddiaeth am y costau gweithwyr asiantaeth maent yn eu hysgwyddo (costau sydd wedi cynyddu ers cyn cyfnod y pandemig).

8 Trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar gyfer gosod ffioedd 2021/22

8.1 Eleni, ac yn wahanol felly i drefniadau'r blynyddoedd a fu, mae'r bartneriaeth ranbarthol wedi cynnal ei hymgyngoriad ei hun gyda cynrychiolaeth o ddarparwyr. Gwnaethpwyd hynny ar 4 Rhagfyr 2020 yn unol ag egwyddorion 'Let's agree to agree', sef teclyn comisiynu y Llywodraeth ar gyfer comisiynwyr a darparwyr i gytuno ar gost gofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Credir fod hyn yn gam yn y cyfeiriad cywir, ond mae cydnabyddiaeth ar yr un pryd fod gwaith pellach i'w wneud. Ar sail yr y gwaith rhanbarthol sydd wedi cael ei wneud felly mae pedwar dewis wedi cael eu rhoi gerbron i'w hystyried.

- Cynnydd Arferol
- Dewis A
- Dewis B
- Dewis C

8.2 Mae'r dewisiadau yn amrywio yn y cyfuniad maent yn ei gynnig o % Consumer Price Index (CPI), cydnabyddiaeth o gostau staff asiantaeth, ac elfennau cyflog byw. Dyma'r prif agweddau oedd yn cael eu amlygu gan y darparwyr yn eu trafodaethau gyda'r bartneriaeth. Noder fod yr hyblygrwydd i allu addasu'r ROI yn parhau, a felly'n golygu y bydd y ffioedd yn debygol o fod yn parhau'n wahanol ar draws y rhanbarth hyd yn oed pe byddai pob awdurdod yn cytuno i fynd am yr un dewis. Deallwn ar hyn o bryd fod y mwyafrif o awdurdodau'r Gogledd yn debygol o fynd am Ddewis A.

9 Y dewisiadau rhanbarthol

9.1 Tabl dewisiadau

Cynnydd arferol 2.2% i sicrhau talu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW) a 0.5% Consumer Price Index (CPI) cynnydd chwyddiant yn maes gofal)	Byddai hyn yn cadw i'r un drefn ag sydd wedi bod ac yn golygu nad oes angen gwneud cais am arian ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r drefn gomisiynu yn fregus fel ag y mae, a gallai greu ansefydlogrwydd yn y farchnad a chostau na ellid eu rhagweld wrth iddo arwain at ragor o ddarparwyr yn codi ffioedd ychwanegol.
Dewis A 2.2% Cyflog Byw Cenedlaethol 2% CPI 5% argostau asiantaeth (cynnydd o'r 1.5% presennol)	Er nad yw'r dewis hwn yn mynd ddigon pell o ran lle rydan ni eisiau bod er mwyn sicrhau fod darparwyr annibynnol yn gallu talu cyflog teg i staff, byddai cymeradwyo'r dewis yma yn dangos ein bod yn gwranddo ac yn ymateb i'r pwysau cyfredol sydd ar ddarparwyr gan fynd gam i'r cyfeiriad cywir wrth inni barhau i weithio ar asesu gwir gostau gofal.
Dewis B Talu Gwir Gyflog Byw sef 50% o oriau gofal ar £9.50 a 50% ar raddfa uwch, sef £10.80 (yn unol â'r gwahaniaeth cyfredol)	Eto, byddai'r dewis hwn yn edrych yn bositif, ond heb roi'r cyfle inni wneud y penderfyniad yng nghyd destun ein hasesiad o wir gostau gofal. Ni fyddai'r dewis hwn yn ymateb i rai o'r agweddau sydd wedi eu hamlygu gan ein darparwyr ble maent yn gallu tystiolaethu costau uwch.
Dewis C Talu Gwir Gyflog Byw, hefyd 2% CPI 5% argostau asiantaeth	Byddai'r dewis hwn yn mynd yn bell iawn tuag at gyflawni amcanion 'Let's Agree to Agree' gan sefydlogi'r farchnad wrth ymateb i rai o'r pryderon sy'n bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fe fyddai'n gynamserol ar hyn o bryd i ddewis hwn heb gwblhau y gwaith ar wir gostau gofal gyda'r farchnad ac ystyried yr oblygiadau ar ddarpariaethau eraill megis Tai â Chefnogaeth a Gofal Cartref.

9.2 Costau'r dewisiadau

	Ffi	Ffi							
Categori	Rhan-Barthol	Rhan-barthol	%	Dewis	%	Dewis	%	Dewis	%
	Safonol	Drafft	Cynnydd	A	Cynnydd	B	Cynnydd	C	Cynnydd
	2020/21	2021/22							
	£	£							
Preswyl	£566.30	£575.19	1.56%	£586.32	3.53%	£595.97	5.24%	£609.96	7.71%
Preswyl dementia – dibyniaeth uchel	£629.33	£638.75	1.50%	£650.79	3.41%	£661.07	5.04%	£676.04	7.42%
Nyrsio	£660.79	£670.88	1.53%	£683.90	3.49%	£694.75	5.14%	£710.65	7.55%
Nyrsio dementia – dibyniaeth uchel	£697.07	£708.05	1.57%	£722.33	3.62%	£734.14	5.32%	£751.46	7.80%

Ar hyn o bryd, mae 1.8% wedi ei osod yng nghyllideb ddrafft Gwynedd ar gyfer cynnydd mewn ffioedd preswyl a nyrsio 2021/22 sydd wedi cyfrifo 2.2% ar gyfer y NLW. Byddai dewisiadau A, B neu C yn golygu addasu hwn ar gost ychwanegol:

Dewis A: £300k

Dewis B: £600k

Dewis C: £1,027k

10 Ystyriaethau

- 10.1 Mae'r holl ddewisiadau a gynigir yn ystyried yr effaith ar gynladwyedd y farchnad. Yn ystod cyfnod y pandemig, mae'r cartrefi wedi derbyn cefnogaeth ariannol ychwanegol drwy Hardship Fund Llywodraeth Cymru, ac hefyd am eu PPE. Nid oes sicrwydd ynglŷn â pharhad y gronfa heibio i ddiwedd Mawrth, a bydd angen ystyried sefyllfa cartrefi yn y cyd-destun hwnnw.
- 10.2 Byddwn hefyd yn ail-afael yn y gwaith o edrych ar wir gostau cartrefi wrth i gapasiti gwaith gael ei ryddhau yn dilyn cyfnod y pandemig. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried y dewisiadau ar gyfer addasu'r model ariannu yn y tymor hirach.

11 Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Nid oes materion wedi eu hadnabod ar hyn o bryd, a byddwn yn parhau i asesu effaith wrth weithio gyda darparwyr ar wir gostau gofal.

12 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Cytundeb Cyn Lleoli sydd gennym ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd gyda'r cartrefi preswyl a nyrsio yn ystyried egwyddorion y ddeddf, e.e. rhoi cynnig rhagweithiol i dderbyn gwasanaeth yn y Gymraeg, a materion cynladwyedd. Mae ein gwaith ar wir gostau gofal a chynladwyedd darpariaeth preswyl yn y tymor hir hefyd yn gydnaws ag egwyddorion y ddeddf.

13 Camau nesaf

Unwaith y ceir cymeradwyaeth y Cabinet i'r ffioedd i'w talu, byddwn yn parhau gyda'r gwaith ar asesu gwir gostau gofal er mwyn eu cyflwyno i drafodaethau ffioedd preswyl a nyrsio 2022/23 yn yr hydref. Bydd hyn yn digwydd ar y cyd â datblygiadau rhanbarthol, a byddwn yn cynnwys y Llywodraeth yn y drafodaeth o ran ein gallu ariannol i gyflawni amcanion 'Let's Agree to Agree'.

14 Casgliadau

- 14.1 Credwn na ellir cyfiawnhau dewis y 'Cynnydd Arferol' gan fod y materion sydd wedi eu hamlygu yn faterion y gallai'r darparwyr gofal dystiolaethu sydd yn wir gostau darparu gofal ac felly yn gyfrifoldeb arnom ni fel comisiynwyr i'w hariannu. Noder felly fod rhoi cynnydd uwch yn anorfod er mwyn ceisio cynnal y farchnad.
- 14.2 Credir yn ogystal na ddylem ystyried Dewis B gan nad yw'n rhoi sylw i agweddau lle y gall darparwyr dystiolaethu costau uwch.

14.3 Mae'n annhebygol fod Dewis C yn fforddiadwy, ond hefyd ar yr un pryd mae angen cydnabod na fyddai chwaith yn datrys y problemau rydym yn eu hwynebu yn llawn, nac yn realistig heb ystyried yr holl oblygiadau.

14.4 Er bod Dewis A yn annigonol o ran delio hefo rhai o'r materion sy'n bodoli yn y maes, y mae yn ariannu gwir gostau'r gofal. Hwn yw'r dewis mwyaf rhesymol a theg o ystyried y dystiolaeth a gynigir, ac aeddfedrwydd ein trafodaethau gyda'r darparwyr.

15 Argymhelliad

Er mwyn cynnal sefyllfa'r farchnad dros y flwyddyn nesaf wrth inni ail afael yn y gwaith o asesu gwir gostau darparu gofal, argymhellir fod y Cabinet yn penderfynu ar Ddewis A ar gost ychwanegol o £300k i'r Cyngor.

Barn y swyddogion statudol

Prif Swyddog Cyllid

Mae adnoddau ar gyfer ariannu'r cynnydd chwyddiant 'arferol' i'r cartrefi preswyl a nyrsio annibynnol eisoes wedi'i darparu yn y Gyllideb roedd gerbron y Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth. Byddai wedi bod yn fuddiol i'r Cabinet drafod y dewis i ariannu cost uwch y gofal yma'n amserol, gyda gweddill y 'bidiau' ystyriwyd ar gyfer 2021/22.

Rwy'n gwerthfawrogi rhai o'r dadleuon a gyflwynir gan ddarparwyr ynglŷn â'u costau gofal, ond nodaf nad ydynt eto wedi 'agor eu llyfrau cyfrifon' i ni. Felly, credaf fod gan y drafodaeth yna cryn ffordd i fynd cyn i ni ganiatau camau tuag at ddewisiadau llawer drytach.

Fodd bynnag, nodaf fod argymhelliad yr Adran Oedolion i'r Cabinet gynyddu lefel ffioedd preswyl a nyrsio i lefel 'Dewis A', a cadarnhaf byddai hynny'n golygu cost ychwanegol o £300k i'r Cyngor. Pe bai'r Cabinet wedi'u argyhoeddi, yna byddai modd ariannu'r gost yma o gyllidebau wrth gefn, ond wrth gwrs byddai hynny yn lleihau'r hyblygrwydd i ni gyfarch unrhyw ergydion annisgwyl yn ystod 2021/22.

Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn cydnabod fod gosod fframwaith ar gyfer ffioedd cartrefi gofal preifat yn heriol bellach. Mae'r argymhelliad yn cydnaod fod angen mynd ati i adolygu y gyfundrefn yn synhwyrol.

Eitem 10

Cyfarfod: Cabinet

Dyddiad: 9 Mawrth 2021

Aelodau Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid, a'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned

Pwnc: Effaith Covid-19 ar Gyllideb 2021/22 Cwmni Byw'n Iach

Swyddog Cyswilt: Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

PENDERFYNIAD A GEISIR:

Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, i ddarparu llythyr o sicrwydd yn ymestyn y cyfnod o sicrwydd a rhoddwyd eisoes i gwmni Byw'n Iach hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2021/22, yn unol â'r ddarpariaeth yn y cytundeb gyda'r cwmni.

Cefndir

1. Yn y Cabinet 19 Mai 2020, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas yn nodi'r bwlch posibl yng nghyllideb 2020/21 oherwydd argyfwng y firws Covid-19, ac yn nodi ymdrechion yr Arweinydd a swyddogion i sicrhau opsiynau ariannu addas gan Lywodraeth Cymru.
2. Nodwyd fod y sefyllfa ar yr adeg hynny yn un fregus ym mhob awdurdod lleol, gydag incwm wedi lleihau a gwariant yn uwch yn ystod y cyfnod argyfwng. Fodd bynnag, roedd Cyngor Gwynedd wedi camu ymlaen i ymateb a gweithredu ar fyrder i edrych ar ôl ei thrigolion a'i gwasanaethau.
3. Adroddwyd byddai'r golled yn ddibynnol ar barhad yr argyfwng, effaith y cyfyngiadau, a faint unrhyw grant gan Lywodraeth Cymru. Y disgwyliad oedd y byddai Lywodraeth Cymru yn cyllido gwariant ychwanegol Cyngor Gwynedd, ond ym Mai 2020, nid oedd sicrwydd os byddai'r Llywodraeth yn cyfrannu tuag at golledion incwm awdurdodau lleol.

Penderfyniad Blaenorol

4. Felly, ar 19 Mai 2020, roedd y Cabinet yn gorfod ystyried sut i ddygymod gyda bwlch cyllidebol posibl Cyngor Gwynedd a chwmni Byw'n Iach oherwydd colledion incwm sylweddol oherwydd yr argyfwng.
5. Fodd bynnag, gan nodi byddai gan gwmni Byw'n Iach golledion ariannol o ganlyniad i gyfyngiadau'r argyfwng Covid-19, cadarnhaodd y Cabinet ei fod yn fodlon darparu'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol i gynnal gwasanaethau cwmni'n Byw'n Iach yn y man cyntaf hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.

6. Penderfynwyd awdurdodi'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Economi a Chymuned, i ddarparu llythyr o sicrwydd i'r cwmni. Anfonodd y Pennaeth Cyllid y llythyr i Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Byw'n Iach Cyf ar 19 Mehefin 2020, yn cadarnhau fod Cyngor Gwynedd am gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31/03/2021.

Datblygiadau yn 2020/21

7. Erbyn hyn, gwyddom wrth gwrs fod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu yn deg o'u Cronfa Caledi tuag at golledion incwm awdurdodau lleol yn 2020/21. Hefyd, rydym wedi hawlio arian o gynllun 'Ffyrlo' CaThEM tra bu canolfannau hamdden wedi'u cau. Disgwylir byddwn wedi hawlio cyfanswm dros £3m o gymorth yn 2020/21 ar ran gwasanaethau hamdden Byw'n Iach: £1.8m gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â £1.2m o'r 'Ffyrlo'.

Disgwyliadau erbyn 2021/22

8. Yn anffodus, mae'n debyg bydd sgil effaith yr argyfwng Covid-19 yn parhau yn 2021/22. Gall cyfyngiadau o ryw fath bod mewn lle trwy gydol 2021, ac mae Byw'n Iach yn wynebu'r her o adeiladau hyder eu cwsmeriaid. Gyda hynny mewn golwg, ac yn yr ansicrwydd oherwydd ffactorau megis datblygiad y firws, llwyddiant y cynllun brechu, rheoliadau Llywodraeth Cymru, ayb, mae'r cwmni yn ymrwymo i gydweithio'n agos iawn gyda'r Cyngor wrth symud ymlaen yn ystod y flwyddyn.
9. Yn ymarferol, diau fod Cyngor Gwynedd yn parhau o'r farn mai model cwmni hyd-braich yw'r un mwyaf addas i gwrdd â'i ddyheadau yn y maes hamdden, a byddwn yn parhau i gynnal y berthynas agos gyda Byw'n Iach Cyf i sicrhau parhad ei hyfywdra ariannol.

Argymhelliad

10. Felly, argymhellir fod y Cyngor yn ymestyn y cyfnod o sicrwydd i'r cwmni a rhoddwyd yn ei le ar gyfer 2020/21 i'r flwyddyn ariannol nesaf, gan gadarnhau pe bai'r argyfwng Covid-19 yn parhau fod Cyngor Gwynedd am gefnogi'r cwmni yn ariannol o leiaf hyd at 31/03/2022.
11. Byddai'r sicrwydd yma o gefnogaeth ariannol yn galluogi'r cwmni i barhau i fasnachu'n gyfreithlon o 1 Ebrill 2021 tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ymhlygiadau Ariannol

12. Gan ddefnyddio 2021/22 fel sail, £1.8m oedd gwerth y golled incwm ac felly ni ragwelir y bydd y gost o gadw Byw'n Iach yn hyfyw uwchlaw y swm yma yn 2021/22.
13. Os bydd effaith yr argyfwng Covid-19 yn parhau yn 2021/22, mae'n rhagdybiaeth cyllidebu rhesymol fod Llywodraeth Cymru am barhau i ddigolledu'r Cyngor am golledion incwm yn y flwyddyn ariannol nesaf.

14. Felly, tra mae cost posibl rhoi'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol i'r cwmni yn ben agored, o'i gymharu â'r ystyriaeth gyffelyb ym mis Mai 2020, mae mwy o debygolrwydd erbyn hyn bydd y Llywodraeth yn ysgwyddo cyfran sylweddol o'r gost.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Mae darpariaethau yn y gytundeb gyda Cwmni Byw'n Iach sydd yn caniatáu i'r Cyngor i addasu ei gyfraniadau cytundebol. Mae'r hyn a argymhellir yn darparu i ymestyn y sicrwydd a roddwyd ar gyfer 2020/21 er caniatáu i'r cwmni barhau i gynnal ei weithgareddau sydd, fel a nodir yn yr adroddiad, yn unol a'g amcanion strategol y Cyngor.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelodau Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.